Rhaglen Gyflawn

# CABINET

# CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | Dydd Mawrth, 2ail Ebrill, 2019 |
| **AMSER** | 1.00 y.h. |
| **LLEOLIAD** | Siambr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon LL55 1SH |
| **PWYNT CYSWLLT** | Annes Siôn<br>01286 679490<br>cabinet@gwynedd.llyw.cymru |

## AELODAU CABINET CYNGOR GWYNEDD

| **Aelodau** | |
|---|---|
| Dyfrig L. Siencyn | Arweinydd |
| Dafydd Meurig | Dirprwy Arweinydd, Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant |
| Craig ab Iago | Aelod Cabinet Tai |
| Gareth Wyn Griffith | Aelod Cabinet Amgylchedd |
| Nia Wyn Jeffreys | Aelod Cabinet dros Gefnogaeth Gorfforaethol |
| Dilwyn Morgan | Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc |
| Gareth Thomas | Aelod Cabinet Datblygu'r Economi a Chymunedau |
| Ioan Thomas | Aelod Cabinet Cyllid |
| Catrin Wager | Aelod Cabinet Priffyrdd a Bwrdeistrefol |
| Cemlyn Rees Williams | Aelod Cabinet Addysg |

# RHAGLEN

| | Eitem | Cyflwynir gan | Swyddog | Tud. |
|---|---|---|---|---|
| 1 | YMDDIHEURIADAU | | | |
| 2 | DATGAN BUDDIANT PERSONOL | | | |
| 3 | MATERION BRYS | | | |
| 4 | MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU | | | |
| 5 | COFNODION CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 12 MAWRTH | | | 4 - 7 |
| 6 | AILSTRWYTHURO CANOLFANNAU IAITH | Cyng. Gareth Thomas | Garem Jackson | 8 - 35 |
| 7 | ADOLYGU CYFANSODDIAD PWYLLGOR CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG ADDYSG GREFYDDOL GWYNEDD | Cyng. Gareth Thomas | Garem Jackson | 36 - 124 |
| 8 | CYCHWYN TRAFODAETH LEOL AR AGOR YSGOL GYNRADD NEWYDD YNG NGHRICIETH | Cyng. Gareth Thomas | Garem Jackson | 125 - 134 |
| 9 | ARBEDION EFFIETHLONRWYDD PELLACH 2019-20 | Cyng. Ioan Thomas | Dilwyn Williams | 135 - 137 |
| 10 | GOSOD RHAGLEN GYFLALAF 2019/20, 2020/21 a 2021/22 | Cyng. Ioan Thomas | Caren Rees Williams | 138 - 141 |
| 11 | BLAEN RAGLEN CABINET | Cyng. Dyfrig Siencyn | | 142 - 143 |

## Y CABINET DYDD MAWRTH, 12 MAWRTH 2019

**Yn bresennol-**
Y Cynghorwyr: Dyfrig L. Siencyn, Dafydd Meurig, Craig ab Iago, Gareth Wyn Griffith, Nia Wyn Jeffreys, Peredur Jenkins, Dilwyn Morgan, Gareth Thomas a Ioan Thomas

**Hefyd yn bresennol-**
Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), Iwan Evans (Swyddog Monitro), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Morwena Edwards (Cyfarwyddwr Corfforaethol) ac Annes Siôn (Swyddog Cefnogi Aelodau).

Eitem 6: Ceryl Davies (Uwch Reolwr Anableddau Dysgu)
Eitem 7: Diane Jones (Swyddog Addysg Ardal Gwynedd), Dafydd Gibbard (Uwch Reolwr Eiddo Corfforaethol)

### 1. YMDDIHEURIADAU

Croesawyd Aelodau'r Cabinet a Swyddogion i'r cyfarfod.
Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cyng. W Gareth Roberts.

### 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Bu i'r Cyng. Dafydd Meurig ddagan buddiant ar eitem 7, gan fod ei chwaer yn gweithio ar safle Ysgol y Faenol, Bangor. Roedd yn fuddiant oedd yn rhagfarnu ac felly gadawodd y cyfarfod yn ystod yr eitem hon.

### 3. MATERION BRYS

Nid oedd unrhyw faterion brys.

### 4. MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU

Nid oedd unrhyw faterion yn codi o drosolwg a chraffu.

### 5. COFNODION CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 19 CHWEFROR 2019

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfodydd y Cabinet a gynhaliwyd ar y 19 Chwefror 2019 fel rhai cywir.

## 6. STRATEGAETH ANABLEDDAU DYSGU GOGLEDD CYMRU

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Dilwyn Morgan

**PENDERFYNWYD**

Cymeradwyo ymrwymiad Cyngor Gwynedd i weithredu'r Strategaeth Anableddau Dysgu.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod y Strategaeth yn un cyffroes ar gyfer pobl sydd ag Anableddau Dysgu o bob oed. Mynegwyd fod y Strategaeth yn nodi sut fydd y bydd yr Awdurdodau Lleol yn gweithio yn integredig a'r Gwasanaeth Iechyd ar draws y Gogledd. Ychwanegwyd fod y strategaeth wedi ei ddatblygu mynd cydweithrediad rhwng chwech o Gynghorau'r Gogledd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a chyfraniadau gan bobl ag anableddau dysgu a'u gofalwyr.

Nodwyd fod gweledigaeth y strategaeth yn cyd-fynd a gweledigaeth yr adran, ac ychwanegwyd ei fod yn cydnabod beth sydd yn bwysig i bobl sydd ag anableddau dysgu. Mynegwyd fod y rhanbarth wedi bod yn llwyddiannus yn cael arian gan Gronfa Drawsffurfio'r Llywodraeth er mwyn cyflawni pum pecyn gwaith sydd wedi ei gynllunio o fewn y strategaeth.

Ychwanegodd yr Uwch Reolwr Anableddau Dysgu fod y strategaeth yn gosod cyfeiriad cadarn i'r Cyngor i weithio gyda'r Gwasanaeth Iechyd, a'i fod yn plethu i mewn i waith yr adran. Ychwanegwyd fod yr Adran dros y 3 blynedd diwethaf wedi bod yn gweithio gyda phobl a phlant gydag anableddau dysgu, eu teuluoedd a'u cymuned i greu cynlluniau a bod y cynlluniau yma bellach wedi eu datblygu i greu timau ataliol o fewn hybiau yn y gymuned.

Ategwyd fod trefn ymgysylltu gryfach wedi ei greu yn ystod y tair blynedd diwethaf rhwng staff, darparwyr, gofalwr a defnyddwyr gwasanaeth. Ychwanegwyd drwy greu gwasanaeth sydd yn ymgysylltu yn aml mae wedi datblygu a chreu gwasanaeth mae pawb yn teimlo'n rhan ohoni. Ychwanegwyd fod newidiadau cyffroes ar droed a bod strategaeth yn sylfaen gadarn a fydd yn gweithio'r rhaglen waith ymlaen i godi statws bobl ag anableddau dysgu o fewn cymunedau.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Holwyd sut y bydd modd rhoi'r strategaeth yma ar waith, a nodwyd fod llawer o'r ymgysylltu a gafwyd er mwyn creu'r strategaeth wedi eu cynnal gyda phobl Gwynedd ac felly mae lleisiau pobl Gwynedd i'w gweld yno. Mynegwyd wrth edrych ar raglen waith y strategaeth fod Gwynedd o flaen y gad yn rhai meysydd tra angen datblygu mewn meysydd eraill. Prif ffocws Gwynedd, ychwanegwyd, fydd i blethu gwaith y gwasanaeth a'r strategaeth.
- Nodwyd mai gobaith yw y bydd gweledigaeth y strategaeth yn annog

gwaith integredig yn lleol a bydd gwaith integredig cyson dros yr adrannau yn y cyngor yn ogystal, yn arbennig yr Adran Addysg ac yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd.

- Tynnwyd sylw at y gwaith sydd yn cael ei wneud yn yr adran Addysg yn y maes Anableddau Dysgu gan nodi fod y strategaeth yn cyd-fynd a chynlluniau Anghenion Dysgu Ychwanegol yr adran.
- Nodwyd fod y Strategaeth yn un pum mlynedd ond fod arian ar o Gronfa Drawsffurfio'r Llywodraeth ar gyfer cynllun gweithredu am gyfnod o 2 flynedd. Ychwanegwyd os na fuasai'r rhanbarth wedi derbyn yr arian hwn y bydda'i strategaeth wedi parhau i gael ei chymeradwyo. Mynegwyd fod cael ychydig o arian ychwanegol yn lleihau'r rhwystrau a oedd yn codi.

## 7. AD-DREFNU DARPARIAETH ADDYSG GYNRAEDD DALGYLCH BANGOR

Cyflwynwyd yr eitem gan Cyng. Gareth Thomas

**PENDERFYNWYD**

Cadarnhau yn derfynol y cyfraniad gan y Cyngor tuag at becyn ariannu llawn o £12.7miliwn ar gyfer ad-drefnu darpariaeth Addysg Gynradd Dalgylch Bangor.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod y penderfyniad a geisir yn fater o ffurfioldeb. Nodwyd fod y Cabinet wedi cytuno ym Mawrth 2018 "ymestyn y Faenol i gynyddu'r capasiti o 186 i 215 ac Ysgol newydd i'r Garnedd i gynyddu'r capasiti o 210 i 420".

Mynegwyd gan fod Ysgol y Faenol yn Ysgol Wirfoddol dan Reolaeth (CWR) yr Eglwys yng Nghymru nodwyd fod y Cod Trefniadaeth Ysgolion yn nodi mai'r Corff Llywodraethol sydd a'r hawl i wneud penderfyniad ar gynyddu capasiti'r Ysgol gyda'r Awdurdod Lleol yn medru hwyluso'r broses. Mynegwyd fod y Corff Llywodraethol wedi penderfynu cynyddu capasiti'r ysgol ac felly nodwyd fod angen cadarnhad fod yr arian yn ei le ar gyfer y cynllun. Nodwyd fod cyfanswm o £12.7miliwn wedi ei adnabod fel cost ar gyfer cyflawni'r elfennau o ad-drefnu'r Ysgolion yn nalgylch Bangor.

## 8. SEFYDLU TREFNIADAU AR GYFER PENODI CRWNER CYNORTHWYOL

Cyflwynwyd gan Cyng. Nia Jeffreys

**PENDERFYNIAD**

1. Dirprwyo'r hawl i'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol:
    a) I baratoi manylion swydd a phersonol ynghyd a threfn benodi ar gyfer swyddi Crwner cynorthwyol a hynny mewn ymgynghoriad a'r Uwch Grwner a threfnu i hysbysebu

b) I sefydlu panel er mwyn tynnu rhestr fer a chyfweld ymgeiswyr, ac i benodi Crwneriaid Cynorthwyol yn ôl yr angen.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi ei fod yn adroddiad technegol. Mynegwyd fod y Crwner Cynorthwyol bellach wedi ei phenodi i fod yn Farnwr. Datganwyd llongyfarchiadau i'r cyn Crwner Cynorthwyol a diolchwyd iddi am ei gwaith. Mynegwyd fod yr adroddiad yn nodi trefn i benodi Crwner Cynorthwyol er mwyn sicrhau fod y trefniadau diprwydeig ar gyfer y broses yn cael eu sefydlu yn glir.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth

- Nodwyd fod y drefn yn drefn newydd ac nad oedd yn cwbl glir pwy oedd yn penodi. Mynegwyd fod y drefn yn dilyn trefn sydd i'w gweld yn Sir Ddinbych ar hyn o bryd ac yn amlygu trefn glir a cystadleuol agored.
- Holwyd os bydd Cyngor Sir Ynys Môn am fod yn rhan o'r penodi, nodwyd nad oedd yn ofynnol iddynt fod yn rhan o'r panel penodi ond fod modd eu cynnwys.

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 y.h. a daeth i ben am 1.35 y.h.

**CADEIRYDD**

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **2 Ebrill 2019** |
| **Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Gareth Thomas** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Garem Jackson / Debbie Anne Williams Jones** |
| **Rhif Ffôn Cyswllt:** | **01286 679489** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Ail-Strwythuro Canolfannau Iaith Gwynedd** |

**1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

**1.1. Penderfynu sut i gyfarch yr angen i leihau £96,000 o gyllideb y Canolfannau Iaith ar sail y strwythur staffio presennol**

**2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD**

**CEFNDIR**

2.1 Yn hanesyddol, cyllidwyd y Canolfannau Iaith drwy grant gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg, gyda'r Cyngor yn darparu'r arian cyfatebol. Pan ddiddymwyd Bwrdd yr Iaith Gymraeg, cyllidwyd y Canolfannau Iaith yn yr un modd drwy Grant y Gymraeg mewn Addysg (Llywodraeth Cymru) gyda'r Cyngor yn parhau i ddarparu arian cyfatebol.

2.2 Yn 2015, bu i Lywodraeth Cymru ddod â 11 o grantiau addysg yn un o dan y pennawd Grant Gwella Addysg (GGA); roedd hyn yn cynnwys Grant y Gymraeg mewn Addysg. Bellach mae Llywodraeth Cymru yn ariannu'r GGA drwy'r consortia rhanbarthol (GwE), gyda phob awdurdod yn cyfrannu arian cyfatebol i'r rhanbarth, cyn i'r GGA gael ei drosglwyddo o'r consortia rhanbarthol yn ôl i'r awdurdodau.

**CYD-DESTUN**

2.3 Wrth ystyried chwyddiant a gostyngiad blynyddol yn y GGA ers 2014/15, mae'r toriad termau real i'r GGA yn ei gyfanrwydd yn 34% - ond mae'r Canolfannau Iaith wedi eu gwarchod yn gyfan gwbl drwy'r holl doriadau hyn.

2.4 Yn 2018/19, bu toriad o 10% yn y Grant Gwella Addysg gan Lywodraeth Cymru. Golyga hynny, ddiffyg o £61,000 yng nghyllideb y Canolfannau Iaith yng Ngwynedd o 2018/19 ymlaen. Eleni, llwyddwyd i bontio'r diffyg hwn, er bod toriadau wedi bod i benawdau eraill o fewn y GGA, megis y Cyfnod Sylfaen.

2.5 Rhwng 2014/15 a 2019/20, mae'r Cyfnod Sylfaen (datganoledig o'r GGA) wedi gweld gostyngiad o 32%. Mae'r toriad o 32% mewn termau real cyfwerth â £1.2 miliwn, neu tua 70 o gymorthyddion dosbarth. Nid y Canolfannau Iaith yn unig sydd â chyfrifoldeb i drochi plant yn y Gymraeg, wrth gwrs, oherwydd yn unol â Pholisi Iaith Gwynedd mae'r trochi hefyd yn digwydd yn y Cyfnod Sylfaen.

2.6 Ar gyfer 2019/20, derbyniwyd newyddion gwell na'r disgwyl gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y Grant Gwella Addysg h.y. derbyniwyd cadarnhad o setliad niwtral i'r GGA. Fodd bynnag, yn sgil chwyddiant i gyflogau a phensiynau athrawon, golyga hynny ddiffyg pellach yn y gyllideb ar sail strwythur staffio presennol y Canolfannau Iaith o oddeutu £35,000 o Fedi 2019 ymlaen. Dëallir nad oes eglurder o hyd am y modd y bydd Llywodraeth Cymru yn ariannu cynnydd mewn costau pensiynau athrawon, ac nid oes unrhyw arwydd ar hyn o bryd bod swyddi a ariennir drwy grant, megis athrawon y Canolfannau Iaith wedi eu cynnwys yn yr arian ychwanegol tebygol a ddaw i gyfarch y cynnydd yma mewn costau, ac nid oes eglurder ychwaith a fydd yr arian a dderbynnir yn cyfarch yr holl gostau. Gwyddwn fod y GGA sydd wedi ei ddyrannu eisoes gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2019/20 yn golygu setliad niwtral, ac felly byddai cyfarch unrhyw gynnydd mewn costau drwy'r GGA yn cyfateb i doriad arall.

2.7 Ar yr un pryd, mae Bwrdd Rheoli GwE wedi penderfynu cynnal adolygiad rhanbarthol o bennawd Y Gymraeg yn y GGA allai effeithio ar y dyraniadau cyllidol a roddir i'r Gymraeg i awdurdodau unigol i'r dyfodol.

2.8 Er mwyn cynnal sefyllfa staffio bresennol y Canolfannau Iaith o Fedi 2019 ymlaen, byddai'n ofynnol i'r Adran Addysg ganfod cyllideb amgen i gyfarch y bwlch ariannol. Nid yw'r Adran Addysg wedi adnabod ffynhonnell ariannol ar gyfer gallu gwneud hynny. Yn yr un modd, ni lwyddwyd i ganfod cyllideb amgen i gyfarch y bwlch ariannol yn sgil toriadau gwerth £1.2 miliwn i'r GGA yn y Cyfnod Sylfaen.

2.9 Er mwyn cyfarch y diffyg o £61,000 yng nghyllideb y Canolfannau Iaith yn sgil toriad yn y GGA yn 2018/19 a chynnydd o £35,000 mewn costau o Fedi 2019 ymlaen ar sail y strwythur staffio presennol, mae'r Adran Addysg wedi adnabod yr angen i ail-strwythuro'r gwasanaeth er mwyn gallu darparu'r un gwasanaeth i hwyrddyfodiaid y sir yn fwy cost effeithlon.

## 3. <u>CYFLWYNIAD AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL</u>

### Y SEFYLLFA GYFREDOL

3.1 Mae strwythur staffio presennol y Canolfannau Iaith fel a ganlyn:

| CANOLFAN IAITH | STRWYTHUR STAFFIO | UCHAFSWM NIFER DISGYBLION |
|---|---|---|
| Dolgellau | Arweinydd<br>Cymhorthydd | 8 |
| Penrhyndeudraeth | Arweinydd<br>Athro | 16 |
| Llangybi | Arweinydd<br>Athro | 16 |
| Maesincla | Arweinydd<br>Athro | 16 |
| Uwchradd Eifionydd | Arweinydd<br>Athro | 16 |
| | Athro ôl-ofal | |

3.2 Cyflogir yr arweinwyr ar lefel arweinyddiaeth sydd yn cyfateb i bennaeth cynorthwyol mewn ysgol, ac mae'r athrawon yn derbyn lwfans CAD yn ychwanegol.

3.3 Mae patrwm niferoedd dysgwyr sydd wedi mynychu'r Canolfannau Iaith Cynradd dros y 5 mlynedd diwethaf fel a ganlyn:

| Niferoedd disgyblion Canolfannau Iaith Cynradd Gwynedd fesul tymor 2013 – 2018 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **TYMOR** | **Dolgellau** | **Llangybi** | **Maesincla** | **Penrhyn** | **Cyfanswm** |
| **CAPASITI** | **8** | **16** | **16** | **16** | |
| Gwanwyn 2013 | 6 | 7 | 13 | 11 | 37 |
| Haf 2013 | 8 | 7 | 13 | 15 | 43 |
| Hydref 2013 | 9 | 13 | 15 | 13 | 50 |
| **Cyfanswm 2013** | **23** | **27** | **41** | **39** | **130** |
| Gwanwyn 2014 | 8 | 8 | 14 | 15 | 45 |
| Haf 2014 | 26* | 4* | 16 | 10** | 64 |
| Hydref 2014 | 8 | 10 | 14 | 14 | 46 |
| **Cyfanswm 2014** | **42** | **22** | **44** | **47** | **155** |
| Gwanwyn 2015 | 8 | 11* | 11 | 14 | 44 |
| Haf 2015 | 9 | 4* | 15 | 15* | 43 |
| Hydref 2015 | 7 | 12 | 9 | 17 | 45 |
| **Cyfanswm 2015** | **24** | **27** | **35** | **46** | **132** |
| Gwanwyn 2016 | 8 | 10 | 13 | 16 | 47 |
| Haf 2015 | 11 | 6 | 16 | 19 | 52 |
| Hydref 2016 | 9 | 14 | 16 | 18 | 56 |
| **Cyfanswm 2016** | **27** | **30** | **45** | **53** | **155** |
| Gwanwyn 2017 | 10 | 13 | 13 | 15 | 51 |
| Haf 2017 | 7** | 10 | 17 | 17 | 51 |
| Hydref 2017 | 8 | 13 | 17 | 16 | 54 |
| **Cyfanswm 2017** | **25** | **36** | **47** | **48** | **156** |
| Gwanwyn 2018 | 6 + 1* | 14 | 15 | 11 | 47 |
| Haf 2018 | 5 ** / 7 * | 8 | 16 | 14 | 45 |
| Hydref 2018 | 8 | 11 | 15 | 16 | 50 |
| **Cyfanswm 2018** | **22** | **33** | **46** | **41** | **142** |

* ôl-ofal **cyn Canolfan Iaith

**Dyma niferoedd disgyblion Canolfan Iaith Uwchradd Eifionydd fesul tymor 2013-2018:**

| TYMOR | Eifionydd |
|---|---|
| Gwanwyn 2013 | 16 |
| Haf 2013 | 17 |
| Hydref 2013 | 13 |
| **Cyfanswm 2013** | **46** |
| Gwanwyn 2014 | 13 |
| Haf 2014 | 6 |
| Hydref 2014 | 21 |
| **Cyfanswm 2014** | **40** |
| Gwanwyn 2015 | 8 |
| Haf 2015 | 13 |
| Hydref 2015 | 13 |
| **Cyfanswm** | **34** |

| TYMOR | Eifionydd |
|---|---|
| Gwanwyn 2016 | 9 |
| Haf 2016 | 10 |
| Hydref 2016 | 14 |
| **Cyfanswm** | **33** |
| Gwanwyn 2017 | 18 |
| Haf 2017 | 8 |
| Hydref 2017 | 16 |
| **Cyfanswm** | **40** |
| Gwanwyn 2018 | 14 |
| Haf 2018 | 15 |
| Hydref 2018 | 17 |
| **Cyfanswm** | **46** |

**Y BROSES A WEITHREDWYD**

3.4 Er gwaethaf y diddordeb eang a sylweddol sydd wedi ei fynegi ers rhai misoedd ar y mater yma, nid proses ymgynghori cyhoeddus yw hon, ond proses fewnol o ymgynghori gyda'r staff a'r undebau yn unig yn sgil y posibilrwydd o newid i'w hamodau cyflogaeth.

3.5 Y cam cyntaf a weithredwyd yn y broses oedd cynnal cyfarfod gyda'r staff ym mis Medi 2018 er mwyn eu hysbysu o sefyllfa gyllidol y Canolfannau Iaith o 2019/20 ymlaen. Yn ystod y cyfarfod, gwahoddwyd y staff i ddod ynghyd i ystyried ym mha fodd y gellir ail-strwythuro'r gwasanaeth i'r dyfodol i gyfarch y diffyg yn y gyllideb.

3.6 Yn dilyn y cyfarfod hwn, fe'n hysbyswyd nad oedd staff y Canolfannau Iaith yn awyddus i greu opsiynau eu hunain ar gyfer strwythur y gwasanaeth i'r dyfodol. Yn hytrach, eu dymuniad oedd i'r Adran Addysg ystyried a chreu'r opsiynau, gyda chyfle iddynt hwy fynegi barn a chyflwyno sylwadau ar yr opsiynau hynny.

3.7 Ar 24 Hydref 2018, cynhaliwyd cyfarfod rhwng yr Adran Addysg, Adnoddau Dynol, staff y Canolfannau Iaith, ynghyd â'u cynrychiolwyr Undeb i gyflwyno opsiynau er ystyriaeth ganddynt am gyfnod ymgynghori ffurfiol hyd at 30 Tachwedd 2018 (rhoddwyd estyniad i'r cyfnod ymgynghori ffurfiol hyd at 10 Rhagfyr 2018 ar gais un Undeb).

**YR OPSIYNAU Y BU YMGYNGHORI ARNYNT**

3.8 Fel sail ar gyfer yr opsiynau i ail-strwythuro'r Canolfannau Iaith i'r dyfodol, lluniodd yr Adran Addysg y meini prawf canlynol:

| | EGWYDDORION | |
|---|---|---|
| 1. | Nad yw'r ail-strwythuro yn cael effaith ar argaeledd y ddarpariaeth i hwyrddyfodiaid (h.y. bod yr un nifer neu fwy o ddysgwyr yn cael mynediad at y gwasanaeth) | ✓ |
| 2. | Isafswm lefel staffio o 2 aelod llawn amser ymhob Canolfan Iaith | ✓ |

3.9 Nodwyd hefyd nad oedd unrhyw un o'r opsiynau isod yn cynnwys unrhyw newid i'r ddarpariaeth ôl-ofal, gyda'r bwriad i roi ystyriaeth i'r ôl-ofal wrth symud ymlaen.

3.10 Dyma'r pedwar opswin y cynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol arnynt gyda'r staff a'r undebau:

**Opsiwn 1**

- Cau un Ganolfan Iaith Gynradd.
- Cynyddu capasiti pob Canolfan Iaith i dderbyn 19 o ddysgwyr.
- Strwythur staffio o Arweinydd ac Athro ymhob Canolfan Iaith.

**Opsiwn 2**

- Pob Canolfan Iaith yn parhau'n agored.
- Capasiti Canolfan Iaith Dolgellau yn cynyddu i 16. Capasiti pob Canolfan Iaith arall yn aros yr un fath.
- Strwythur staffio o Arweinydd a Chymhorthydd ymhob Canolfan Iaith.

**Opsiwn 3**

- Pob Canolfan yn parhau'n agored.
- Capasiti Canolfan Iaith Dolgellau yn cynyddu i 16. Capasiti pob Canolfan Iaith arall yn aros yr un fath.
- Un Arweinydd ar gyfer yr holl Ganolfannau Iaith Cynradd, strwythur o Athro a Chymhorthydd ymhob Canolfan Iaith (ble na lleolir yr Arweinydd).
- Strwythur staffio o Arweinydd a Chymhorthydd yn y Ganolfan Iaith Uwchradd.

**Opsiwn 4**

- Pob Canolfan yn parhau'n agored.
- Capasiti Canolfan Iaith Dolgellau yn cynyddu i 16. Capasiti pob Canolfan Iaith arall yn aros yr un fath.
- Un Arweinydd ar gyfer yr holl Ganolfannau Iaith Cynradd ac Uwchradd, gyda strwythur o Athro a Chymhorthydd ymhob Canolfan Iaith (ble na lleolir yr Arweinydd).

3.11 Yn sgil yr ymgynghoriad ffurfiol a gynhaliwyd ar y pedwar opsiwn uchod, ac yn sgil ystyried sylwadau'r ymgynghoriad, cynhaliwyd ymgynghoriad arall gan ddilyn proses Adnoddau Dynol gyda staff y Canolfannau Iaith a'u cynrychiolwyr undeb ar yr opsiwn dan ystyriaeth. Daeth yr ymgynghoriad hwn i ben ar 8 Mawrth 2019.

3.12 Dyma fanylder yr opsiwn dan ystyriaeth y bu ymgynghoriad ffurfiol arno:

**Opsiwn dan Ystyriaeth**

- Pob Canolfan Iaith yn parhau'n agored.
- Un Arweinydd di-gyswllt ar gyfer yr holl Ganolfannau Iaith, gan allu addysgu yn unrhyw un o'r Canolfannau Iaith yn ôl yr angen.
- Strwythur staffio o Athro a Chymhorthydd Lefel 4 ymhob Canolfan Iaith.
- Darpariaeth ôl-ofal yn dod yn rhan o ddarpariaeth graidd pob Canolfan Iaith

## 4. <u>UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD</u>

**SYLWADAU'R YMGYNGHORIAD FFURFIOL A GYNHALIWYD AR Y PEDWAR OPSIWN**

4.1 Dilynwyd proses Adnoddau Dynol ar gyfer ail-strwythuro'r Canolfannau Iaith, gan felly ymgynghori gyda'r staff a'r Undebau ar opsiynau ar gyfer strwythuro'r gwasanaeth i'r dyfodol.

4.2 Dyma grynodeb o sylwadau’r Undebau:

**UCAC**

Sylwadau cyffredinol:

Cadw lefel staffio yn 2 athro

Rhaid i’r athrawon fod yn:

- arbenigol ar gyfer ‘trochi iaith’ yn effeithiol
- brwdfrydig ac uchelgeisiol
- yn meddu ar iaith lafar o ansawdd
- gallu cynllunio gwersi byrlymus sydd wedi eu strwythuro’n ofalus i gyd-fynd â’r cwrs
- gallu adnabod ac ymateb i anghenion dysgwyr (ADY, problemau emosiynol ac ymddygiad)
- hyfforddiant a chynhaliaeth i athrawon a chymorthyddion ysgolion
- hyddysg o’r datblygiadau diweddaraf ym myd addysg
- gallu arwain canolfan yn absenoldeb y naill neu’r llall

Lleoliad y Canolfannau: Cyfle cyfartal – sicrhau bod pob ysgol o fewn cyrraedd rhesymol i Ganolfan Iaith.

Yn ychwanegol, derbyniwyd gohebiaeth gan yr Undeb a oedd yn gofyn am eglurder ar rai pwyntiau yng nghyd-destun yr ail-strwythuro, gan awgrymu yr angen i dreialu y gymhareb athro : cymhorthydd i 16 o blant yn gyntaf cyn gwneud unrhyw benderfyniad. Cwestiynwyd hefyd a oedd tystiolaeth neu unrhyw enghraifft genedlaethol sy’n profi’r ffaith fod cymhareb athro : cymhorthydd i 16 disgybl yn fodel effeithiol i gynhyrchu siaradwyr Cymraeg.

Nodwyd mewn ymateb i’r ohebiaeth fod y diffyg yn y gyllideb angen ei ganfod a’i weithredu erbyn Medi 2019, ac na fyddai cyfnod o dreialu yn galluogi gwireddu’r arbediad sydd ei angen yn amserol.

Dyma grynodeb o sylwadau UCAC ar yr opsiynau unigol:

**Opsiwn 1**

| CRYFDER | GWENDID |
|---|---|
| • 2 athro arbenigol<br>• Llwyddiant y cwrs a’r gwasanaeth yn cael ei sicrhau<br>• Canolfan yn parhau ymhob ardal o Wynedd | • Canolfan Ch yn cau yn cael effaith ar yr ardal (ble lleolir y ganolfan).<br>• Taith gynyddol o ran ysgolion i’r Ganolfan Iaith agosaf<br>• 1 ardal heb Ganolfan Iaith<br>• Colli swyddi athrawon arbenigol |

**Opsiwn 2**

| CRYFDER | GWENDID |
|---|---|
| • Lleoliad y Canolfannau – 1 ymhob ardal | • Colli swyddi athrawon arbenigol<br><br>• Cynyddu cymhareb athro : disgybl<br><br>• Absenoldeb yr arweinydd yn creu anhrefn:<br>- strwythur y cwrs<br>- cyfrifoldeb am y dysgwr<br>- cludiant<br>- rhieni<br>• Ni all athro llanw gamu i mewn yn ddieithr<br>• Colli cyfleoedd i rannu arfer dda<br>• Gwanhau'r gynhaliaeth i ddysgwyr unigol<br>• Strategaeth ôl-ofal ddim mor effeithiol |

**Opsiwn 3**
Yn ychwanegol i'r sylwadau ar gyfer Opsiwn 2:

| CRYFDER | GWENDID |
|---|---|
| | • Canolfan A (Canolfan yr Arweinydd) yn aneffeithiol yn sgil y cyfrifoldeb am yr holl Ganolfannau Iaith. |

**Opsiwn 4**
Yn ychwanegol i'r sylwadau ar gyfer Opsiwn 2 a 3:

| CRYFDER | GWENDID |
|---|---|
| | • Canolfan A (Canolfan yr Arweinydd) yn aneffeithiol yn sgil y cyfrifoldeb am yr holl Ganolfannau cynradd ac uwchradd.<br>• 1 Arweinydd yn gyfrifol am y cynradd a'r uwchradd heb ddealltwriaeth o un sector |

4.3 **NEU**
Dyma grynodeb o sylwadau undeb NEU ar y pedwar opsiwn:

- Hanfodol osgoi teithio gormodol i ddisgyblion ac ni ellir cadw'r egwyddor bwysig hon pe byddai un o'r canolfannau'n cau. (Gwrthwynebu Opsiwn 1).
- Absenoldeb yr arweinydd yn creu anhrefn heb ail athro o safbwynt strwythur y cwrs.
- Ni all athro llanw gamu i mewn yn 'ddieithr'.
- Gwrthwynebu unrhyw weithredu ar y cynnydd mewn costau o £35,000 hyd nes y bydd eglurder sicr o'r angen i wneud hynny.

Yn ychwanegol, gofynnodd undeb NEU:

- Sut mae ail-strwythuro yn clymu efo amcanion strategol y Cyngor i hyrwyddo'r Gymraeg a'r polisi iaith?
- Pa drafodaethau a gynhaliwyd gyda phenaethiaid cynradd ac uwchradd?

4.4 **Canolfan Iaith Dolgellau**

Derbyniwyd sylwadau gan Arweinydd a Chymhorthydd Canolfan Iaith Dolgellau fel rhan o'r ymgynghoriad ar y pedwar opsiwn.

Dyma eu sylwadau ar Opsiwn 2 – Arweinydd a Chymhorthydd:

- Rydyn ni yng Nghanolfan Iaith Dolgellau wedi bod yn gweithredu Opsiwn 2, sef athrawes a chymhorthydd ers 2002, sef 16 mlynedd, a hynny yn llwyddiannus iawn.
- Rydym yn llawn gyda 100% o'n capasiti wedi ei lenwi bob tymor, ac ar adegau gyda mwy na'r capasiti o blant (hyd at 10).
- Rydym yn cyflawni gofynion y cwrs efo Athrawes a Chymhorthydd. Rydym yn gost effeithiol ac yn rhatach na'r opsiynau eraill sydd o dan ystyriaeth.
- Yr Athrawes sydd yn cyflwyno'r gwaith dysgu'r iaith a'r Cymhorthydd sydd yn cefnogi'r dysgu. Mae'r ddwy ohonom yn cydweithio yn y dosbarth.
- Mae Canolfan Iaith Dolgarrog yn gweithio fel 'Arweinydd ac uwch Gymhorthydd' , ac mae'n nhw'n derbyn hyd at 12 o blant a dim mwy.

**SYLWADAU'R YMGYNGHORIAD FFURFIOL A GYNHALIWYD AR YR OPSIWN DAN YSTYRIAETH**

4.5 Dyma grynodeb o sylwadau'r undebau UCAC a NEU ar ran staff y Canolfannau Iaith ar yr opsiwn dan ystyriaeth.

Derbyniwyd sylwadau penodol ar rai materion addysgol yn cynnwys yr angen i ystyried y trefniadau yn ymwneud â'r nifer o blant fyddai'n cael eu haddysgu mewn dosbarth. Mae UCAC yn awgrymu y gellir peilota cynyddu'r gymhareb athro : disgybl ond y dylid gwneud hynny wedi astudiaeth broffesiynol lawn fydd yn sicrhau nad yw'r effaith yn negyddol. Mae'r undeb yn nodi yn ogystal y pwysigrwydd o ofalu bod unrhyw newid i'r drefn bresennol yn cael ei weithredu trwy adnabod tystiolaeth o arfer dda ar gyfer y maes.

Roedd sylwadau hefyd yn cyfeirio at y pwysigrwydd o dderbyn eglurder ar rai materion ymarferol yn ymwneud â gwaith dydd i ddydd y cymorthyddion lefel 4, yn cynnwys yr angen i fedru ymgymryd â'r tasgau i addysgu'r plant yn llwyddiannus. Yn sgil hyn, nodwyd pryder ynglŷn â'r amserlen arfaethedig i weithredu'r opsiwn dan ystyriaeth erbyn Medi 2019. Nodwyd hefyd wrthwynebiad i'r egwyddor o gyflwyno cymhorthydd yn hytrach nag athro i'r Canolfannau Iaith.

Rhoddodd yr Undebau sylwadau yn ymwneud â rôl a chyfrifoldebau cyffredinol yr athro a rheolaeth y canolfannau, yn cynnwys sut y dylid gosod lefel cyflogau athrawon wedi ei fesur yn erbyn y newid mewn dyletswyddau. Cyfeiriwyd yn benodol at yr angen i ystyried taliadau cyfrifoldeb CAD, yn unol â'r Ddogfen Gyflog ac Amodau Athrawon 2018. Codwyd hefyd y pwysigrwydd o adnabod y gwaith mae arweinyddion ymhob Canolfan yn eu gwneud, ynghyd â'u rôl yn meithrin perthnasoedd proffesiynol pwysig ar sawl lefel, ynghyd â'r angen i wneud penderfyniadau pwysig ar lefel leol. Bydd angen ystyried yn ymarferol y trefniadau ar gyfer rheolaeth y canolfannau yn y modelau o dan ystyriaeth wrth hefyd sicrhau diogelwch a lles y plant. Nodwyd yr angen i ystyried yr heriau posibl ynglŷn a rôl yr Arweinydd i fod yn gyfrifol am y ddarpariaeth gynradd ac uwchradd ac unrhyw wahaniaethau oddi mewn y ddau gwricwlwm.

Yng nghyd-destun y rôl Arweinydd newydd a gyflwynwyd fel gwelliant yn yr opsiwn dan ystyriaeth, roedd UCAC yn cydnabod bod dadl ar gyfer dod a haen rheolaeth o'r newydd i'r strwythur. Er hynny, nid oedd UCAC yn gallu cefnogi sefyllfa ble mae disgwyl i arweinydd fod

yn gyfrifol am y ddarpariaeth gynradd ac uwchradd. Roedd undeb NEU o'r farn na all un person fod ag arbenigedd i ateb gofynion o'r ddau sector.

Mewn perthynas â threfniadau'r ddarpariaeth ôl-ofal, nododd UCAC y byddai'n "anodd iawn gweld sut fydd modd rhyddhau athro neu gymhorthydd i wneud yr ôl-ofal yn ystod y cwrs". Derbyniwyd sylwadau tebyg gan NEU yn gofyn sut y byddai modd "…rhyddhau athrawes neu gymhorthydd i ymweld â chyn-ddisgyblion - heb gael llanw i gymryd ei lle". Awgrymwyd y byddai'n ddefnyddiol derbyn gwybodaeth bellach ar sut fyddai'r weledigaeth yn medru diwallu'r angen.

Nododd undeb NEU bryder am amseru unrhyw newid yng nghyd-destun yr angen i baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd, yn arbennig felly yn y Ganolfan Iaith Uwchradd.

Parthed y sefyllfa gyllidol, gofynnwyd sut fyddai'r ail strwythuro yn sicrhau arbedion yn y tair blynedd nesaf.

**CLORIANNU'R OPSIYNAU Y BU YMGYNGHORI ARNYNT**

Mae pob un o'r opsiynau y bu ymgynghori arnynt ar gyfer ail-strwythuro'r Canolfannau Iaith yn arwain at gynyddu'r gymhareb athro : disgybl o 1 : 8 ymhob Canolfan i uchafswm o 1 : 16 (ar wahân i Opsiwn 1, sydd yn cynyddu'r niferoedd plant i 19 ymhob Canolfan (gan hepgor un Canolfan), er mwyn gallu cadw'r strwythur staffio presennol o ddau athro).

Gan nad oes astudiaeth gyfredol o hanfodion y gymhareb disgybl : athro o 1 : 8, a chan mai rhuglder iaith y disgyblion a'u gallu i ymdoddi i iaith naturiol ein hysgolion yw deilliant y Canolfannau a'r modd y mesurir y llwyddiant hwnnw, nid yw'r Pennaeth Addysg o'r farn y byddai unrhyw effaith o sylwedd ar ansawdd y ddarpariaeth wrth gynyddu y gymhareb athro : disgybl gyda chefnogaeth cymhorthydd lefel 4 i hyd at 16 o blant. Yn ystod yr ymgynghoriad bu i Ganolfan Iaith Dolgellau ddarparu tystiolaeth eu bod wedi llwyddo i drochi hyd at 10 o blant gan ddilyn y model yma, ac nid oes unrhyw dystiolaeth bod y 10 plentyn yna yn llai rhugl eu Cymraeg neu wedi profi trafferth i ymdoddi i gymdeithas naturiol y fam ysgol.

Er cynyddu'r gymhareb athro : disgybl, yr un fyddai'n disgwyliad ar y Canolfannau Iaith i drochi plant yn y Gymraeg, oherwydd o ystyried y gyfundrefn addysg gyfan, ystyrir fod uchafswm o 16 o blant o dan ofal un athro gyda chefnogaeth cymhorthydd dysgu lefel 4 yn ddarpariaeth deg. Eisoes o fewn y strwythur presennol, gweithredir y gymhareb 1 : 16 ar gyfnodau er mwyn rhyddhau'r ail athro. At hyn, mae'r opsiwn dan ystyriaeth yn galluogi cymhareb athro : disgybl hyd yn oed yn fwy hael na'r gymhareb bresennol ar adegau i unrhyw Ganolfan Iaith, wrth i'r Arweinydd gamu i mewn i rôl yr ail athro mewn Canolfan. Pan ddigwydd hynny, golyga y byddai'r Ganolfan Iaith honno gyda dau athro a chymhorthydd lefel 4 i oddeutu 16 o blant, sydd yn gymhareb hael iawn iawn. O ganlyniad, pe gweithredir unrhyw un o'r opsiynau y bu ymgynghori arnynt, yr un yw'r disgwyliad o ran ansawdd y ddarpariaeth a'r canlyniadau o ran llwyddiant i drochi plant yn y Gymraeg.

Yn yr un modd, pan sefydlwyd y Cyfnod Sylfaen, roedd gofynion Llywodraeth Cymru yn nodi'r angen i anelu at neu gyflawni cymhareb o 1 : 8 disgybl ar gyfer blwyddyn Meithrin a Derbyn, ac i 1 : 15 ar gyfer Blwyddyn 1 a 2. Yn sgil y toriadau enbyd sydd wedi bod i'r Cyfnod Sylfaen o £1.2 miliwn, sydd yn cyfateb i 70 o gymorthyddion, mae ein hysgolion wedi mynd ymhellach i ffwrdd o gymarebau Llywodraeth Cymru. Er hynny, yr un yw'r disgwyliad ar ein hysgolion i gyflawni a chyrraedd yr un safonau er gwaetha'r toriadau, ac o ystyried proffil arolygiadau presennol ein hysgolion cynradd, llwyddir i gyflawni hynny i raddau helaeth.

Mae'r Canolfannau Iaith yn darparu gwasanaeth i blant CA2 a CA3 yn bennaf, sef plant 7-14 oed. Yn sgil toriadau di ben draw sydd wedi bod i'r gyfundrefn ysgolion ers nifer o flynyddoedd, gwelir bellach ddosbarthiadau o 30 a mwy yn CA2 o dan ofal un athro yn aml heb gymhorthydd, ynghyd â nifer o athrawon yn CA3 yn dysgu pynciau nad ydynt yn arbenigwyr ynddynt. Er hyn, mae safonau CA2 a CA3 yn parhau'n gadarn dda dros gyfnod treigl.

O ystyried yr uchod felly - yn yr un modd a'r Cyfnod Sylfaen, CA2 a CA3 - o weithredu unrhyw un o'r opsiynau y bu ymgynghori arnynt, disgwylir i'r Canolfannau Iaith gyflawni yr un safonau a chynnal yr ansawdd o ran trochi plant yn y Gymraeg.

4.6 **SYLWADAU'R PWYLLGOR IAITH**

Gwnaethpwyd cyflwyniad gerbron y Pwyllgor Iaith ar ail-strwythuro'r Canolfannau Iaith. Roedd y cyflwyniad yn cynnwys manylion am sefyllfa gyllidol y Canolfannau Iaith, yr opsiynau y bu ymgynghori arnynt, ynghyd â phrif negeseuon o'r ymgynghoriad a gynhaliwyd gyda'r staff a'r undebau ar yr opsiynau hynny.

Nododd y Pwyllgor Iaith bryder am ansawdd yr addysg os bydd rhaid dewis un o'r opsiynau y bu ymgynghori arnynt. Nodwyd hefyd wrthwynebiad y Pwyllgor Iaith i'r opsiynau a ddarparwyd gan yr Adran Addysg.

4.7 **SYLWADAU'R PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI**

Cyflwynwyd adroddiad gerbron y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar ail-strwythuro'r Canolfannau Iaith, yn cynnwys manylion am y broses ymgynghori a weithredwyd, yr opsiynau a gyflwynwyd, ynghyd â sylwadau'r staff a'r undebau ar yr opsiynau hynny.

Nododd y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi eu bod yn ddiolchgar am y diweddariad o'r hyn sydd wedi digwydd gyda'r ymgynghoriad mewnol, a'r gwerthfawrogiad clir o'r gwaith a wneir gan y Canolfannau Iaith.

Serch hynny, nid oedd neges glir o'r pwyllgor hwn ynglŷn â'r datrysiad i'r diffyg ariannol, ond bod rhai negeseuon penodol gan y pwyllgor i'w cyfeirio i'r Adran Addysg, sef:

- Pryder nad oedd yr un o'r egwyddorion a oedd yn sail i'r opsiynau a gyflwynwyd i bwrpas ymgynghori yn cynnwys sicrhau cadw ansawdd y ddarpariaeth i'r dyfodol, a bod pwyslais gan y pwyllgor i gynnal asesiad effaith cydraddoldeb ar yr opsiynau, a bod lle i fesur yr ansawdd ac effaith unrhyw newid ar y ddarpariaeth o hyn ymlaen.
- Pryder ynglŷn â'r newid posib yn llwyth gwaith y sawl sy'n gweithio yn y Canolfannau Iaith, ond bod y pryder hwnnw ar draws yr holl ystod o wasanaethau a ddarperir gan yr Adran Addysg ymhob ysgol, a bod y gymhareb disgybl/athro ymhob dosbarth yn fater sydd angen edrych arno hefyd. Ar yr un pryd, roedd pwyslais ar yr angen i gael 2 athro/athrawes yn y Ganolfan Iaith Uwchradd.
- Cefnogi parhad y trafodaethau mewn ymgais i ddwyn perswâd ar Lywodraeth Cymru i barhau i roi mwy o arian ar gyfer cefnogi'r Gymraeg o hyn allan.
- Derbyn bod y grant yn cael ei dorri, ac er y byddai'n well gan bawb petai hynny ddim yn bod, mae'r pwyllgor yn annog yr Adran i edrych ar unrhyw ffynonellau eraill posib', boed hynny'n arian grant ychwanegol, neu ba ffynhonnell bynnag. Er hynny, derbynnir yn llwyr fod yr ysgolion wedi cymryd toriadau sylweddol a pharhaus dros amser bellach, ac er yn opsiwn, nid oedd y pwyllgor yn dymuno edrych ar yr ysgolion i gyllido hyn. Yn ogystal, nodwyd pryder am ganlyniad adolygiad GwE o'r Gymraeg ac unrhyw oblygiadau pellach i gyllid y Canolfannau Iaith.

4.8 **CYNGOR LLAWN**

Yn y Cyngor Llawn, ar 7 Mawrth 2019, cyflwynwyd cynnig yng nghyd-destun y Canolfannau Iaith, addaswyd y cynnig hwnnw, a dyma'r hyn a basiwyd yn derfynol:

PENDERFYNWYD, gan gydnabod a chondemnio yn llwyr y toriadau ariannol erchyll mae Llywodraeth Cymru wedi orfodi ar gynghorau lleol, yn benodol y toriad i'r grant gwella addysg i Wynedd, ac mai mater i'r Cabinet yw unrhyw benderfyniad ar y mater, bod y Cyngor hwn yn gwrthwynebu'n gryf unrhyw gynllun neu fwriad i newid cyfansoddiad, trefniadaeth na staffio Canolfannau Iaith Gwynedd fyddai'n cael effaith andwyol ar eu gallu digamsyniol i ddysgu'r Gymraeg mewn cyfnod byr i fewnfudwyr ac i gymathu'n hwylus i ethos Gymraeg ein hysgolion. Mae'r Cyngor hefyd yn galw ar y Cabinet i sefydlu trefn fonitro gref - boed newid neu beidio - er sicrhau'r canlyniadau gorau bosib' i'r dysgwyr. Yr ydym, fodd bynnag, yn datgan y byddai israddio swyddi athrawon a'u troi yn swyddi cymorthyddion yn niweidiol ac felly yn andwyo ar allu'r unedau i ddysgu'r Gymraeg yn effeithiol, ac felly, ein bod yn gofyn i'r Cabinet sicrhau bod yr adnoddau angenrheidiol ar gael er mwyn sicrhau nad yw hynny'n digwydd.

## 5. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

5.1 Y prif negeseuon o'r Pwyllgor Iaith, y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi, ynghyd â'r ymgynghoriad ffurfiol a gynhaliwyd gyda'r staff a'r undebau ar yr opsiynau ar gyfer ail-strwythuro'r Canolfannau Iaith i'r dyfodol oedd: pryder am golli athrawon arbenigol; effaith cynyddu'r gymhareb athro : disgybl ar ansawdd yr addysg a chyrhaeddiad y plant; ynghyd â diffyg tystiolaeth i ddangos na fyddai'r newidiadau y bu ymgynghori arnynt yn cael effaith negyddol ar y ddarpariaeth.

5.2 Yn sgil y prif negeseuon a grynhoir uchod, ynghyd â phenderfyniad y Cyngor Llawn ar 7 Mawrth 2019, ystyria'r Adran Addysg y byddai modd cyfarch y pryderon hyn yn un o'r ffyrdd canlynol:

- Byddai'n bosib cynnal sefyllfa staffio bresennol y Canolfannau Iaith, a chyfarch rhywfaint o'r diffyg yn y gyllideb drwy newid amodau cyflogaeth y staff h.y. diddymu'r haen arweinyddiaeth o ran amodau cyflogaeth ymhob Canolfan Iaith, diddymu lwfans CAD i'r athrawon ymhob Canolfan Iaith, ynghyd ag ymgorffori'r ôl-ofal yn rhan o ddarpariaeth graidd y Canolfannau Iaith, gan ddiddymu'r swydd ôl-ofal sydd yn bodoli ar hyn o bryd. Byddai hyn yn mynd gam o'r ffordd tuag at gyfarch y diffyg cyllidol, er y byddai angen adnabod ffynhonnell gyllidol i bontio gweddill y diffyg, yn arbennig o ystyried na fyddai elfennau o'r arbedion yn cael eu gwireddu'n syth.

- Byddai modd gweithredu peilot o strwythur staffio o athro a chymhorthydd gan gynyddu'r gymhareb athro : disgybl mewn un Canolfan Iaith yn unig am gyfnod, gan ei fonitro'n ofalus er mwyn canfod a ydyw yn cael effaith ar ansawdd yr addysg a chyrhaeddiad y plant. Byddai gweithredu peilot yn gohirio unrhyw benderfyniad ar yr opsiynau y bu ymgynghori arnynt, felly byddai'n ofynnol canfod ffynhonnell gyllidol amgen i bontio'r diffyg yn ystod y cyfnod peilot.

- Byddai modd gweithredu unrhyw un o'r opsiynau y bu ymgynghori arnynt gan gyfarch y diffyg cyllidol yn llawn. Byddai'r Adran Addysg yn gosod trefniadau monitro cadarn i ystyried unrhyw effaith yn sgil yr ail-strwythuro ar ansawdd yr addysg a chyrhaeddiad y plant, gan adolygu'r sefyllfa ymhen tair blynedd. Petai dymuniad i weithredu unrhyw un o'r opsiynau y bu ymgynghori arnynt erbyn 1 Medi 2019, rhagwelir y byddai'r

broses benodi ar gyfer strwythur newydd y gwasanaeth yn digwydd yn ystod wythnos olaf mis Ebrill a dechrau mis Mai. Byddai hynny'n caniatáu amser i weithredu proses apêl cyflogaeth petai angen, ynghyd â bod mewn sefyllfa i gadarnhau'r penodiadau a'r diswyddiadau oll erbyn 31 Mai 2019.

**6. ASESIAD EFFAITH CYDRADDOLDEB**

Cynhaliwyd asesiad effaith cydraddoldeb ar yr opsiynau y bu ymgynghori arnynt. Mae'r asesiad yn rhoi sylw penodol i elfennau cydraddoldeb gwahanol megis hil, rhyw, anabledd, iaith, crefydd neu gred ac oedran. Gweler yr adroddiad llawn yn **Atodiad 1**.

Mae'r asesiad yn nodi nad yw'r opsiynau arfaethedig yn debygol o gael unrhyw effaith negyddol o sylwedd ar nodweddion cydraddoldeb. Un o'r egwyddorion a oedd yn sail i'r opsiynau ar gyfer ail-strwythuro'r gwasanaeth i gyfarch y diffyg yn y gyllideb oedd na fyddai'r ail-strwythuro yn cael effaith ar argaeledd y ddarpariaeth i blant h.y. byddai yr un nifer o blant yn cael mynediad i'r gwasanaeth. Byddai hyn yn sicrhau yr un cyfleoedd cyfartal i blant o ran cael mynediad i'r gwasanaeth.

Bydd y Cyngor yn dilyn prosesau arferol trwy gefnogi a monitro, er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth pob Canolfan Iaith â'r nodweddion cydraddoldeb.

**7. ASESIAD LLESIANT**

Fel rhan o'r ystyriaethau ar gyfer gweithgareddau a phrosiectau, mae gan yr Adran Addysg rôl i hyrwyddo nodau llesiant y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ymysg disgyblion y sir. Rhoddwyd ystyriaeth lawn i unrhyw effaith yn deillio o'r opsiynau arfaethedig yn erbyn 7 nod llesiant y ddeddf, ynghyd ag amcanion llesiant y Cyngor, gan cynnwys cynnal asesiad ardrawiad. Daethpwyd i'r casgliad fod yr opsiynau arfaethedig yn galluogi'r canolfannau i barhau i gyfrannu'n effeithiol tuag at gyflawni amcanion y ddeddf.

**8. BARN SWYDDOGION STATUDOL**

**i. Swyddog Monitro**

Mae'r adroddiad yn amlygu opsiynau sydd yn agored i'r Cabinet wrth benderfynu ar y ffordd ymlaen. Mae'r adroddiad hefyd yn manylu yn benodol ar ganlyniadau y broses ymgynghori gyda staff a chyngor y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi. Mae gofyn i'r Cabinet roi sylw penodol i'r materion yma ynghyd â'r ystyriaethau eraill perthnasol wrth ddod i gasgliad ar sut i gyfarch y bwlch ariannol. Pa bynnag opsiwn a ddilynir bydd angen i'r Cabinet fod yn eglur ynglŷn a'i resymau am benderfynu ar y cyfeiriad yna.

**ii. Prif Swyddog Cyllid**

Er gwaethaf gostyngiad grant flwyddyn ar ôl blwyddyn, mae'r Canolfannau Iaith wedi eu gwarchod ar lefel darpariaeth hanesyddol, ac erbyn hyn mae'n anorfod bod rhaid ystyried y model darpariaeth er mwyn dygymod o fewn cyfyngiadau'r grant.

Cadarnhaf gywirdeb y ffigyrau yn Rhan 2 o'r adroddiad. Os nad oes modd lleihau'r costau o £96,000 yn llawn ar gyfer y flwyddyn ariannol 2019/20, bydd angen adnabod ffynhonnell gyllidol dros dro i bontio unrhyw ddiffyg.

# Asesiad Effaith Cydraddoldeb

Gweler y daflen *Sut i Wneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb* am gymorth i lenwi'r ffurflen yma. Mae croeso hefyd i chi gysylltu gyda Delyth Williams, Swyddog Polisi a Chydraddoldeb ar est 32708, neu DelythGadlysWilliams@gwynedd.llyw.cymru, am gymorth pellach.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor (dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) i ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchodedig. Mae gan y Cyngor hefyd ddyletswyddau cyffredinol ychwanegol i sicrhau tegwch a meithrin perthnasau da. Rhaid felly gwneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb amserol cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy'n cael effaith ar bobl hefo nodwedd gwarchodedig).

## 1 Manylion

### 1.1 Beth yw enw'r polisi / gwasanaeth dan sylw?

Ail-Strwythuro Canolfannau Iaith

### 1.2 Beth ydi pwrpas y polisi/gwasanaeth sy'n cael ei greu neu ei newid? Pa newidiadau sy'n cael eu hystyried?

Mae cyllideb y Canolfannau Iaith yng Ngwynedd yn annigonol o Fedi 2019 ymlaen yn sgil toriad o 10% yn y Grant Gwella Addysg, ynghyd â chynnydd mewn costau (gweler 2.2 am y manylder cyllidol)

**OPSIYNAU**

Fel sail ar gyfer yr opsiynau i ail-strwythuro'r Canolfannau Iaith i'r dyfodol, lluniodd yr Adran Addysg y meini prawf canlynol:

| | **EGWYDDORION** | |
|---|---|---|
| 1. | Nad yw'r ail-strwythuro yn cael effaith ar argaeledd y ddarpariaeth i hwyrddyfodiaid (h.y. Bod yr un nifer neu fwy o ddysgwyr yn cael mynediad at y gwasanaeth) | ✓ |
| 2. | Isafswm lefel staffio o 2 FTE ymhob Canolfan Iaith | ✓ |

Nodir hefyd nad yw unrhyw un o'r opsiynau isod yn cynnwys unrhyw newid i'r ddarpariaeth ôl-ofal, ac y rhoddir ystyriaeth i'r ôl-ofal wrth symud ymlaen gydag opsiwn ffafriedig i'r dyfodol.

**Opsiwn 1**

- Cau un Canolfan Iaith Gynradd
- Cynyddu capasiti pob Canolfan Iaith i dderbyn 19 o ddysgwyr
- Strwythur staffio o Arweinydd ac Athrawes ymhob Canolfan Iaith

**Opsiwn 2**

- Pob Canolfan Iaith yn parhau'n agored.
- Capasiti Canolfan Iaith Dolgellau yn cynyddu i 16. Capasiti pob Canolfan Iaith arall yn aros yr un fath.
- Strwythur staffio o Arweinydd a Chymhorthydd ymhob Canolfan Iaith

**Opsiwn 3**

- Pob Canolfan yn parhau'n agored.
- Capasiti Canolfan Iaith Dolgellau yn cynyddu i 16. Capasiti pob Canolfan Iaith arall yn aros yr un fath.
- Un Arweinydd ar gyfer yr holl Ganolfannau Iaith Cynradd, strwythur o Athro a Chymhorthydd ymhob Canolfan Iaith (ble na lleolir yr Arweinydd).
- Strwythur staffio o Arweinydd a Chymhorthydd yn y Ganolfan Iaith Uwchradd.

**Opsiwn 4**

- Pob Canolfan yn parhau'n agored.
- Capasiti Canolfan Iaith Dolgellau yn cynyddu i 16. Capasiti pob Canolfan Iaith arall yn aros yr un fath.
- Un Arweinydd ar gyfer yr holl Ganolfannau Iaith Cynradd ac Uwchradd, gyda strwythur o Athro a Chymhorthydd ymhob Canolfan Iaith (ble na lleolir yr Arweinydd).

## 1.3 Pwy sy'n gyfrifol am yr asesiad yma?

Debbie A W Jones, Swyddog Gwasanaethau Corfforaethol Addysg

### 1.4 Pryd wnaethoch chi gychwyn yr asesiad? Pa fersiwn yw hwn?

Mawrth 2019 (Fersiwn 2)

## 2) Gweithredu

### 2.1 Pwy yw'r partneriaid fydd yn rhaid gweithio hefo nhw i wneud yr asesiad yma?

- Staff Canolfannau Iaith Gwynedd
- Cynrychiolwyr Undebau yr Athrawon a'r Cymhorthydd
- Grŵp Ymgynghorol Dalgylchol ac Arbennig
- Grŵp Cynllunio Strategol Uwchradd
- Fforwm Cyllid Ysgolion
- Fforwm Undebau
- Pwyllgor Iaith
- Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi

### 2.2 Pa gamau ydych chi wedi ei gymryd i ymgysylltu gyda pobl hefo nodweddion gwarchodedig?

Yn sgil y diffyg yn y gyllideb o 2019/20 ymlaen ar gyfer y Canolfannau Iaith, cynhaliwyd cyfarfod gyda'r staff ar 10 Medi 2019 er mwyn eu hysbysu o sefyllfa gyllidol y Canolfannau Iaith o 2019/20 ymlaen. Yn ystod y cyfarfod, gwahoddwyd y staff i ddod ynghyd i ystyried ym mha fodd y gellir ail-strwythuro'r gwasanaeth i'r dyfodol i gyfarch y diffyg yn y gyllideb.

Yn dilyn y cyfarfod hwn, fe'n hysbyswyd nad oedd staff y Canolfannau Iaith yn awyddus i greu opsiynau eu hunain ar gyfer strwythur y gwasanaeth i'r dyfodol. Yn hytrach, eu dymuniad oedd i'r Adran Addysg ystyried a chreu'r opsiynau, gyda chyfle iddynt hwy fynegi barn a chyflwyno sylwadau ar yr opsiynau hynny.

Ar 24 Hydref 2018, cynhaliwyd cyfarfod rhwng yr Adran Addysg, Adnoddau Dynol, staff y Canolfannau Iaith, ynghyd â'u cynrychiolwyr Undeb i gyflwyno opsiynau er ystyriaeth ganddynt.

Dilynwyd proses Adnoddau Dynol ar gyfer ail-strwythuro'r Canolfannau Iaith, gan felly ymgynghori gyda'r staff a'r Undebau ar opsiynau ar gyfer strwythuro'r gwasanaeth i'r dyfodol. Rhoddwyd cyfnod ymgynghori o 30 diwrnod i'r staff a'r undebau, ynghyd ag estyniad o 10 diwrnod yn dilyn cais gan un undeb yn benodol.

Anfonwyd holiadur i ddefnyddwyr y gwasanaeth yn gofyn am eu barn ar y ddarpariaeth. Mae'r holl

ymatebion yn cefnogi gwaith y Canolfannau Iaith, gan gredu bod y gwasanaeth yn "wych". Maent hefyd yn nodi bod y Canolfannau Iaith yn llwyddiannus yn galluogi plant i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg yn eu hysgolion. Gofynnwyd hefyd i'r defnyddwyr gwasanaeth os oedd unrhyw un o'r opsiynau unigol yn effeithio arnynt hwy, eu teulu neu blentyn yn y cyd-destun nodweddion cydraddoldeb penodol. Wrth ystyried effaith y newidiadau a gynigir yn opsiwn 1 mewn perthynas ā nodweddion cydraddoldeb, roedd yr ymatebwyr wedi'u rhannu'n gyfartal. Fodd bynnag, roedd y mwyafrif o ymatebwyr, o'r farn na fyddai unrhyw effaith o ganlyniad i weithredu'r opsiynau 2, 3 a 4. Ni chafwyd ymateb digonol ar gyfer opsiwn 5 ac felly nid oedd yn bosibl i ddod i unrhyw gasgliad o'r data a ddarparwyd.

## 2.3 Beth oedd canlyniad yr ymgysylltu?

Dilynwyd proses Adnoddau Dynol ar gyfer ail-strwythuro'r Canolfannau Iaith, gan felly ymgynghori gyda'r staff a'r Undebau ar opsiynau ar gyfer strwythuro'r gwasanaeth i'r dyfodol.

Dyma grynodeb i sylwadau'r Undebau:

**UCAC**
Sylwadau cyffredinol:
Cadw lefel staffio yn 2 athro

Rhaid i'r athrawon fod yn:

- arbenigol ar gyfer 'trochi iaith' yn effeithiol
- brwdfrydig ac uchelgeisiol
- yn meddu ar iaith lafar o ansawdd
- gallu cynllunio gwersi byrlymus sydd wedi eu strwythuro'n ofalus i gyd-fynd â'r cwrs
- gallu adnabod ac ymateb i anghenion dysgwyr (ADY, problemau emosiynol ac ymddygiad)
- hyfforddiant a chynhaliaeth i athrawon a chymorthyddion ysgolion
- hyddysg o'r datblygiadau diweddaraf ym myd addysg
- gallu arwain canolfan yn absenoldeb y naill neu'r llall

Lleoliad y Canolfannau: Cyfle cyfartal – sicrhau bod pob ysgol o fewn cyrraedd rhesymol i Ganolfan Iaith.

Dyma grynodeb o sylwadau UCAC ar yr opsiynau unigol:

**Opsiwn 1**

| CRYFDER | GWENDID |
|---|---|
| • 2 athro arbenigol<br><br>• Llwyddiant y cwrs a'r gwasanaeth yn cael ei sicrhau | • Canolfan Ch yn cau yn cael effaith ar yr ardal (ble lleolir y ganolfan).<br><br>• Taith gynyddol o ran ysgolion i'r Ganolfan Iaith agosaf |

| | |
|---|---|
| • Canolfan yn parhau ymhob ardal o Wynedd | • 1 ardal heb Ganolfan Iaith<br>• Colli swyddi athrawon arbenigol |

**Opsiwn 2**

| CRYFDER | GWENDID |
|---|---|
| • Lleoliad y Canolfannau – 1 ymhob ardal | • Colli swyddi athrawon arbenigol<br>• Cynyddu cymhareb athro : disgybl<br>• Absenoldeb yr arweinydd yn creu anhrefn:<br>- strwythur y cwrs<br>- cyfrifoldeb am y dysgwr<br>- cludiant<br>- rhieni<br>• Ni all athro llanw gamu i mewn yn ddieithr<br>• Colli cyfleoedd i rannu arfer dda<br>• Gwanhau'r gynhaliaeth i ddysgwyr unigol<br>• Strategaeth ôl-ofal ddim mor effeithiol |

**Opsiwn 3**
Yn ychwanegol i'r sylwadau ar gyfer Opsiwn 2:

| CRYFDER | GWENDID |
|---|---|
| | • Canolfan A (Canolfan yr Arweinydd) yn aneffeithiol yn sgil y cyfrifoldeb am yr holl Ganolfannau Iaith. |

**Opsiwn 4**
Yn ychwanegol i'r sylwadau ar gyfer Opsiwn 2 a 3:

| CRYFDER | GWENDID |
|---|---|
| | • Canolfan A (Canolfan yr Arweinydd) yn aneffeithiol yn sgil y cyfrifoldeb am yr holl Ganolfannau cynradd ac uwchradd.<br>• 1 Arweinydd yn gyfrifol am y cynradd a'r |

| | |
|---|---|
| | uwchradd heb ddealltwriaeth o un sector |

**NEU**
Dyma grynodeb o sylwadau undeb NEU:

- Hanfodol osgoi teithio gormodol i ddisgyblion ac ni ellir cadw'r egwyddor bwysig hon pe byddai un o'r canolfannau'n cau. (Gwrthwynebu Opsiwn 1).
- Absenoldeb yr arweinydd yn creu anhrefn heb ail athro o safbwynt strwythur y cwrs.
- Ni all athro llanw gamu i mewn yn 'ddieithr'.
- Gwrthwynebu unrhyw weithredu ar y cynnydd mewn costau o £35,000 hyd nes y bydd eglurder sicr o'r angen i wneud hynny.

Yn ychwanegol, gofynnodd undeb NEU:

- Sut mae ail-strwythuro yn clymu efo amcanion strategol y Cyngor i hyrwyddo'r Gymraeg a'r polisi iaith?
- Pa drafodaethau a gynhaliwyd gyda phenaethiaid cynradd ac uwchradd?

**Canolfan Iaith Dolgellau**
Derbyniwyd sylwadau gan Arweinydd a Chymhorthydd Canolfan Iaith Dolgellau fel rhan o'r ymgynghoriad.

Dyma eu sylwadau ar Opsiwn 2 – Arweinydd a Chymhorthydd:

- Rydyn ni yng Nghanolfan Iaith Dolgellau wedi bod yn gweithredu Opsiwn 2, sef athrawes a chymhorthydd ers 2002, sef 16 mlynedd, a hynny yn llwyddiannus iawn.
- Rydym yn llawn gyda 100% o'n capasiti wedi ei lenwi bob tymor, ac ar adegau gyda mwy na'r capasiti o blant (hyd at 10).
- Rydym yn cyflawni gofynion y cwrs efo Athrawes a Chymhorthydd. Rydym yn gost effeithiol ac yn rhatach na'r opsiynau eraill sydd o dan ystyriaeth.
- Yr Athrawes sydd yn cyflwyno'r gwaith dysgu'r iaith a'r Cymhorthydd sydd yn cefnogi'r dysgu. Mae'r ddwy ohonom yn cydweithio yn y dosbarth.
- Mae Canolfan Iaith Dolgarrog yn gweithio fel 'Arweinydd ac uwch Gymhorthydd' , ac mae'n nhw'n derbyn hyd at 12 o blant a dim mwy.

**Sylwadau Rhan-ddeiliaid, Mudiadau ac Unigolion**
Fel y nodwyd eisoes, dilynwyd proses Adnoddau Dynol ar gyfer ail-strwythuro'r Canolfannau Iaith, gan felly ymgynghori gyda'r staff a'r Undebau ar opsiynau ar gyfer strwythuro'r gwasanaeth i'r dyfodol.

Er hynny, bu i'r Adran Addysg friffio rhan-ddeiliaid allweddol yn ystod y cyfnod ymgynghori, gan gynnwys:

- Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi
- Fforwm Cyllid Ysgolion
- Fforwm Undebau
- Grŵp Ymgynghorol Dalgylchol ac Arbennig
- Grŵp Cynllunio Strategol Uwchradd

Derbyniwyd sylwadau hefyd gan fudiadau ac unigolion, gan gynnwys:

- Cymdeithas yr Iaith Gymraeg
- Cylch yr Iaith
- Popeth Cymraeg
- CYDAG
- RHAG
- Cynghorau Tref a Chymuned
- Unigolion

Mae themâu'r sylwadau a dderbyniwyd gan fudiadau ac unigolion yn cynnwys:

- Gwrthwynebu unrhyw newid
- Ansawdd (angen am 2 athro)
- Newid demograffeg

## 2.4 Ar sail pa dystiolaeth arall ydych chi'n gweithredu?

Yn hanesyddol, cyllidwyd y Canolfannau Iaith drwy grant gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg, gyda'r Cyngor yn darparu'r arian cyfatebol. Pan ddiddymwyd Bwrdd yr Iaith Gymraeg, cyllidwyd y Canolfannau Iaith yn yr un modd drwy Grant y Gymraeg mewn Addysg, Llywodraeth Cymru, gyda'r Cyngor yn parhau i ddarparu'r arian cyfatebol.

Yn 2015, bu i Lywodraeth Cymru ddod â 11 o grantiau addysg yn un o dan y pennawd Grant Gwella Addysg (GGA), roedd hyn yn cynnwys Grant y Gymraeg mewn Addysg(GGA). Bellach mae Llywodraeth Cymru yn ariannu'r GGA drwy'r consortia rhanbarthol (GwE), gyda phob Awdurdod yn cyfrannu arian cyfatebol i'r rhanbarth, cyn i'r GGA gael ei drosglwyddo o'r consortia rhanbarthol yn ôl i'r Awdurdodau.

Yn 2018/19, bu toriad o 10% yn y Grant Gwella Addysg gan Lywodraeth Cymru. Golyga hynny, ddiffyg o £61,000 yng nghyllideb y Canolfannau Iaith yng Ngwynedd o 2018/19 ymlaen. Eleni, llwyddwyd i bontio'r diffyg hwn, er bod toriadau wedi bod i benawdau eraill o fewn y GGA, megis y Cyfnod Sylfaen.

Ar gyfer 2019/20, derbyniwyd newyddion gwell na'r disgwyl gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y Grant Gwella Addysg h.y. derbyniwyd cadarnhad o setliad niwtral i'r GGA yn 2019/20. Fodd bynnag, yn sgil chwyddiant i gyflogau a phensiynau, golyga hynny ddiffyg pellach yn y gyllideb o oddeutu £35,000 o Medi 2019 ymlaen. Nid yw Bwrdd Rheoli a Chyd-Bwyllgor GwE ychwaith wedi cyfarfod eto i gytuno ar yr union ddyraniad i benawdau'r GGA ar gyfer 2019/20.

Ar yr un pryd, mae Bwrdd Rheoli GwE hefyd wedi penderfynu cynnal adolygiad rhanbarthol o bennawd Y Gymraeg yn y GGA, allai effeithio ar y dyraniadau cyllidol a roddir i'r Gymraeg i Awdurdodau unigol, yn arbennig o ystyried fod y dyraniadau ar hyn o bryd ar sail hanesyddol yn unig, gyda Gwynedd yn derbyn mwy o lawer nag unrhyw sir arall.

Mae strwythur staffio presennol y Canolfannau Iaith fel a ganlyn:

| Canolfan Iaith | Strwythur Staffio | Niferoedd |
|---|---|---|
| Dolgellau | Arweinydd<br>Cymhorthydd | 8 |
| Llangybi | Arweinydd<br>Athrawes | 16 |
| Maesincla | Arweinydd<br>Athrawes | 16 |
| Penrhyndeudraeth | Arweinydd<br>Athrawes | 16 |
| Uwchradd Eifionydd | Arweinydd<br>Athrawes | 16 |
| | Athrawes ôl-ofal | |

Mae patrwm niferoedd dysgwyr sydd wedi mynychu'r Canolfannau Iaith Cynradd dros y 5 mlynedd diwethaf fel a ganlyn:

| Niferoedd disgyblion Canolfannau Iaith Cynradd Gwynedd fesul tymor 2013 – 2018 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **TYMOR** | **Dolgellau** | **Llangybi** | **Maesincla** | **Penrhyn** | **Cyfanswm** |
| **CAPASITI** | **8** | **16** | **16** | **16** | |
| Gwanwyn 2013 | 6 | 7 | 13 | 11 | 37 |
| Haf 2013 | 8 | 7 | 13 | 15 | 43 |
| Hydref 2013 | 9 | 13 | 15 | 13 | 50 |
| **Cyfanswm 2013** | **23** | **27** | **41** | **39** | **130** |
| Gwanwyn 2014 | 8 | 8 | 14 | 15 | 45 |
| Haf 2014 | 26* | 4* | 16 | 10** | 64 |
| Hydref 2014 | 8 | 10 | 14 | 14 | 46 |
| **Cyfanswm 2014** | **42** | **22** | **44** | **47** | **155** |
| Gwanwyn 2015 | 8 | 11* | 11 | 14 | 44 |
| Haf 2015 | 9 | 4* | 15 | 15* | 43 |
| Hydref 2015 | 7 | 12 | 9 | 17 | 45 |
| **Cyfanswm 2015** | **24** | **27** | **35** | **46** | **132** |
| Gwanwyn 2016 | 8 | 10 | 13 | 16 | 47 |
| Haf 2015 | 11 | 6 | 16 | 19 | 52 |
| Hydref 2016 | 9 | 14 | 16 | 18 | 56 |
| **Cyfanswm 2016** | **27** | **30** | **45** | **53** | **155** |
| Gwanwyn 2017 | 10 | 13 | 13 | 15 | 51 |
| Haf 2017 | 7** | 10 | 17 | 17 | 51 |
| Hydref 2017 | 8 | 13 | 17 | 16 | 54 |
| **Cyfanswm 2017** | **25** | **36** | **47** | **48** | **156** |
| Gwanwyn 2018 | 6 + 1* | 14 | 15 | 11 | 47 |
| Haf 2018 | 5 ** / 7 * | 8 | 16 | 14 | 45 |
| Hydref 2018 | 8 | 11 | 15 | 16 | 50 |
| **Cyfanswm 2018** | **22** | **33** | **46** | **41** | **142** |

*ôl-ofal **cyn Canolfan

**Dyma niferoedd disgyblion Canolfan iaith Uwchradd Eifionydd fesul tymor 2013-2018:**

| **TYMOR** | **Eifionydd** | **TYMOR** | **Eifionydd** |
|---|---|---|---|
| Gwanwyn 2013 | 16 | Gwanwyn 2016 | 9 |
| Haf 2013 | 17 | Haf 2016 | 10 |
| Hydref 2013 | 13 | Hydref 2016 | 14 |
| **Cyfanswm 2013** | **46** | **Cyfanswm** | **33** |
| Gwanwyn 2014 | 13 | Gwanwyn 2017 | 18 |
| Haf 2014 | 6 | Haf 2017 | 8 |
| Hydref 2014 | 21 | Hydref 2017 | 16 |
| **Cyfanswm 2014** | **40** | **Cyfanswm** | **40** |
| Gwanwyn 2015 | 8 | Gwanwyn 2018 | 14 |
| Haf 2015 | 13 | Haf 2018 | 15 |
| Hydref 2015 | 13 | Hydref 2018 | 17 |
| **Cyfanswm** | **34** | **Cyfanswm** | **46** |

**YMGYNGHORI**

O ganlyniad, fe ddaru'r Adran Addysg lunio 5 opsiwn gwahanol ar gyfer ail-strwythuro'r gwasanaeth i'r dyfodol, gan ymgynghori gyda staff a'r undebau ar yr opsiynau hynny. (Gweler 1.2 am fanylder yr opsiynau).

## 2.5 Oes yna unrhyw flychau yn y dystiolaeth sydd angen ei gasglu?

Rydym wedi nodi ein bod yn rhagweld diffyg pellach o £35,000 yn y grant o Fedi 2019 ymlaen yn sgil chwyddiant a chynnydd yng nghostau pensiynau athrawon, er nad oes eglurder ar yr union amodau ar hyn o bryd.

Yn sgil ymgynghori gyda staff a'r undebau, ynghyd â briffio rhanddeiliaid, nodwyd pryder ynglŷn a'r tebygolrwydd y byddai colli strwythur o 2 athro yn effeithio ar ansawdd y ddarpariaeth. Nid oes gennym dystiolaeth i brofi na gwrth-brofi hynny ar hyn o bryd, felly byddwn yn sicrhau trefniadau cadarn i fonitro ansawdd darpariaeth y Canolfannau Iaith i'r dyfodol yn sgil unrhyw ail-strwythuro.

## 3) Adnabod yr Effaith

**3.1 Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r effaith fydd unrhyw newidiadau'n ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb isod. Beth yw'r effaith fydd y polisi/gwasanaeth newydd neu'r newidiadau arfaethedig yn ei gael ar y nodweddion hyn? Mae croeso i chwi ychwanegu nodweddion eraill os ydych chi'n dymuno.**

| Nodweddion | Sut fath o effaith? * | Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth? |
|---|---|---|
| **Hil (gan gynnwys cenedligrwydd)** | Dim | Un o egwyddorion yr ail-strwythuro yw sicrhau nad yw'n cael effaith ar argaeledd y ddarpariaeth i hwyrddyfodiaid (h.y. Bod yr un nifer neu fwy o ddysgwyr yn cael mynediad at y gwasanaeth). Rhagwelir felly y bydd y deilliant yr un fath, ac felly ni ragwelir effaith ar hwyrddyfodiaid di-Gymraeg o weddill Prydain neu wledydd eraill. |
| **Yr iaith Gymraeg** | Dim | Un o egwyddorion yr ail-strwythuro yw sicrhau nad yw'n cael effaith ar argaeledd y ddarpariaeth i hwyrddyfodiaid (h.y. Bod yr un nifer neu fwy o ddysgwyr yn cael mynediad at y gwasanaeth). Rhagwelir felly y bydd y deilliant yr un fath, sef eu bod yn cael y cyfle a'r gefnogaeth i gaffael y Gymraeg. Nid oes newid i bwrpas a hanfod y Canolfannau Iaith yn sgil yr ail-strwythuro, sef trochi hwyrddyfodiaid yn yr iaith Gymraeg. |
| **Anabledd** | Negyddol / Dim | Un o egwyddorion yr ail-strwythuro yw sicrhau nad yw'n cael effaith ar argaeledd y ddarpariaeth i hwyrddyfodiaid (h.y. Bod yr un nifer neu fwy o ddysgwyr yn cael mynediad at y gwasanaeth). Rhagwelir felly y bydd y deilliant i hwyrddyfodiaid yr un fath, boed gydag anabledd ai peidio. Er hynny, cydnabyddir y gallai gweithredu Opsiwn 1 yn benodol arwain at orfod teithio ymhellach i gyrraedd y ddarpariaeth, ac felly gallai'r Opsiwn hwn effeithio'n waeth ar rai grwpiau. |
| **Rhyw** | Dim | Cydnabyddir mai merched yw staff y Canolfannau Iaith i gyd. Nodwyd yn yr ymgynghoriad y bydd colli swydd arbenigol sy'n talu'n dda i ferched (yn y cyd-destun yma), gan roi swyddi sy'n talu llai yn eu lle.<br><br>Er hynny, rhagwelir dim effaith ar ddefnyddwyr gwasanaeth. |
| **Oedran** | Dim | Un o egwyddorion yr ail-strwythuro yw sicrhau nad yw'n cael effaith ar argaeledd y ddarpariaeth i hwyrddyfodiaid (h.y. bod yr un nifer neu fwy o ddysgwyr yn cael mynediad at y gwasanaeth). Rhagwelir felly y bydd y deilliant i hwyrddyfodiaid yr un fath. Cydnabyddir mai plant a phobl ifanc yw defnyddwyr gwasanaeth y Canolfannau Iaith, a dyma ydi'r unig nodwedd y sonnir amdano gan ddefnyddwyr. |

| | | |
|---|---|---|
| **Cyfeiriadedd rhywiol** | Dim | Rhagwelir dim effaith ar ddefnyddwyr gwasanaeth efo'r nodwedd cydraddoldeb yma. |
| **Crefydd neu gred (neu ddiffyg cred)** | Dim | Rhagwelir dim effaith ar ddefnyddwyr gwasanaeth efo'r nodwedd cydraddoldeb yma. |
| **Ailbennu rhywedd** | Dim | Rhagwelir dim effaith ar ddefnyddwyr gwasanaeth efo'r nodwedd cydraddoldeb yma. |
| **Beichiogrwydd a mamolaeth** | Dim | Rhagwelir dim effaith ar ddefnyddwyr gwasanaeth efo'r nodwedd cydraddoldeb yma. |
| **Priodas a phartneriaeth sifil** | Dim | Rhagwelir dim effaith ar ddefnyddwyr gwasanaeth efo'r nodwedd cydraddoldeb yma. |

* I'w ddileu yn ôl yr angen

**3.2 Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i gyfrannu'n bositif i gymdeithas decach trwy hybu cydraddoldeb a pherthynas dda yn ei weithgareddau ym meysydd oedran, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, hil, trawsrywedd, anabledd a beichiogrwydd a mamolaeth. Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r ffordd mae unrhyw newid yn effeithio'r dyletswyddau yma.**

| Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb | A yw'n cael effaith?* | Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth? |
|---|---|---|
| **Cael gwared â cham-wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth** | Nac ydi | Un o egwyddorion yr ail-strwythuro yw sicrhau nad yw'n cael effaith ar argaeledd y ddarpariaeth i hwyrddyfodiaid (h.y. Bod yr un nifer neu fwy o ddysgwyr yn cael mynediad at y gwasanaeth). Ni fyddai'r newid felly yn cael effaith. Byddai'r un nifer o blant yn cael mynediad i'r gwasanaeth, ac yn cael y cyfle i gaffael y Gymraeg er mwyn eu galluogi i gymhathu i'r gymdeithas ddwyieithog yng Ngwynedd, a manteisio'n llawn ar ddarpariaeth a phrofiadau addysgol yn unol â'r Polisi Iaith Addysg. |
| **Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal** | Nac ydi | Un o egwyddorion yr ail-strwythuro yw sicrhau nad yw'n cael effaith ar argaeledd y ddarpariaeth i hwyrddyfodiaid (h.y. Bod yr un nifer neu fwy o ddysgwyr yn cael mynediad at y gwasanaeth). Ni fyddai'r newid felly yn cael effaith, gan y byddai cyfle cyfartal o hyd i |

| | | |
|---|---|---|
| | | hwyrddyfodiaid. Byddai'r un nifer o blant yn cael mynediad i'r gwasanaeth, ac yn cael y cyfle i gaffael y Gymraeg er mwyn eu galluogi i gymhathu i'r gymdeithas ddwyieithog yng Ngwynedd, a manteisio'n llawn ar ddarpariaeth a phrofiadau addysgol yn unol â'r Polisi Iaith Addysg.<br><br>Nodwyd yn yr ymgynghoriad y bydd colli swydd arbenigol sy'n talu'n dda i ferched (yn y cyd-destun yma), gan roi swyddi sy'n talu llai yn eu lle. |
| **Meithrin perthnasau da** | Nac ydi | Un o egwyddorion yr ail-strwythuro yw sicrhau nad yw'n cael effaith ar argaeledd y ddarpariaeth i hwyrddyfodiaid (h.y. Bod yr un nifer neu fwy o ddysgwyr yn cael mynediad at y gwasanaeth), ni fyddai'r newid felly yn cael effaith, gan y byddai cyfle cyfartal o hyd i hwyrddyfodiaid. Byddai'r un nifer o blant yn cael mynediad i'r gwasanaeth, ac yn cael y cyfle i gaffael y Gymraeg er mwyn eu galluogi i gymhathu i'r gymdeithas ddwyieithog yng Ngwynedd, a manteisio'n llawn ar ddarpariaeth a phrofiadau addysgol yn unol â'r Polisi Iaith Addysg. Byddai galluogi'r hwyrddyfodiaid i gaffael y Gymraeg yn sicrhau eu bod yn gallu meithrin perthnasau da gyda chyfoedion a'r gymuned ddwyieithog yng Ngwynedd. |

* I'w ddileu yn ôl yr angen

## 4) Dadansoddi'r canlyniadau

### 4.1 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, bositif ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol? Beth yw'r rheswm am hyn?

Nid yw ail-strwythuro'r Canolfannau Iaith yn debygol o gael effaith sylweddol bositif ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol, yn sgil y ffaith fod argaeledd y ddarpariaeth i blant yr un fath.

### 4.2 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, negyddol ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol? Beth yw'r rheswm am hyn?

Nid yw ail-strwythuro'r Canolfannau Iaith yn debygol o gael effaith sylweddol negyddol ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol, yn sgil y ffaith fod argaeledd y ddarpariaeth i blant yr un fath.

### 4.3 Beth ddylid ei wneud?

Dewiswch un o'r canlynol:

| | |
|---|---|
| Parhau gyda'r polisi / gwasanaeth gan ei fod yn gadarn | ✓ |
| Addasu'r polisi i ddileu unrhyw rwystrau | |
| Atal a dileu'r polisi gan fod yr effeithiau niweidiol yn rhy fawr | |

| | |
|---|---|
| | |
| Parhau a'r polisi oherwydd gellir cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol | |

**4.4 Os yn parhau hefo'r cynllun, pa gamau fyddwch chi'n cymryd i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

| |
|---|
| Yn sgil ymgynghori gyda staff a'r undebau, ynghyd â briffio rhanddeiliaid, nodwyd pryder ynglŷn a'r tebygolrwydd y byddai colli strwythur o 2 athro yn effeithio ar ansawdd y ddarpariaeth. Nid oes gennym dystiolaeth i brofi na gwrth-brofi hynny ar hyn o bryd, felly byddwn yn sicrhau trefniadau cadarn i fonitro ansawdd darpariaeth y Canolfannau Iaith i'r dyfodol yn sgil unrhyw ail-strwythuro. |

**4.5 Os nad ydych yn gweithredu ymhellach i ddileu neu leihau effeithiau negyddol, esboniwch pam yma.**

| |
|---|
| Amherthnasol |

**5) Monitro**

**5.1 Pa gamau fyddwch chi'n gymryd i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi neu wasanaeth (cynllun gweithredu)?**

| |
|---|
| Yn sgil ymgynghori gyda staff a'r undebau, ynghyd â briffio rhanddeiliaid, nodwyd pryder ynglŷn a'r tebygolrwydd y byddai colli strwythur o 2 athro yn effeithio ar ansawdd y ddarpariaeth. Nid oes gennym dystiolaeth i brofi na gwrth-brofi hynny ar hyn o bryd, felly byddwn yn sicrhau |

trefniadau cadarn i fonitro ansawdd darpariaeth y Canolfannau Iaith i'r dyfodol yn sgil ail-strwythuro.

Byddwn hefyd yn cyrchu barn defnyddwyr gwasanaeth yn rheolaidd, a byddwn yn addasu'r asesiad effaith i adlewyrchu'r farn ac unrhyw wybodaeth ychwanegol a dderbynnir.

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

**Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **2 Ebrill 2019** |
| **Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Gareth Thomas** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Garem P Jackson** |
| **Rhif Ffôn Cyswllt:** | **01286 679089 est 32089** |
| **Teitl yr Eitem:** | **ADOLYGU CYFANSODDIAD PWYLLGOR CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG ADDYSG GREFYDDOL (CYSAG) GWYNEDD** |

## 1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

**(i)** A**rgymhelliad Adran Addysg a Phwyllgor CYSAG Gwynedd fyddai newid aelodaeth Grŵp A fel a nodir :**

- **Grŵp A – Cristnogaeth – cadw yn 6**
  **Cynnig gwahodd un cynrychiolydd o'r credoau**
  **Bwdaeth, Islam, Hindwaeth, Iddewiaeth, Siciaeth a'r Dyneiddwyr**
- **Grŵp B – cynrychiolaeth Athrawon a Phenaethiaid - cadw yn 5**
- **Grŵp C - Aelodau Etholedig - cadw yn 7**
- **Cyfetholedig - Pwyllgor CYSAG i gadw'r hawl i gyfethol aelodau**
- **(3 pleidlais sydd sef 1 i bob Grŵp, nid oes pleidlais gan yr aelodau Cyfetholedig)**

**(ii)** **Argymhelliad yr Addran Addysg a Phwyllgor CYSAG Gwynedd fyddai caniatáu cais y Dyneiddwyr i fod yn rhan o Grŵp A ar bwyllgor CYSAG Gwynedd**

## 2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

2.1. Nid yw'r Cyngor wedi ystyried y cyfansoddiad ers 1996.

2.2. Mae llythyr y Gweinidog Addysg 03/05/18 yn cadarnhau y gellir penodi cynrychiolwyr o systemau cred anghrefyddol i Grŵp A er mwyn sicrhau bod y CYSAG yn adlewyrchu credoau'r cymunedau a wasanaethant yn llawn, ac er mwyn cydymffurfio â deddfwriaeth bresennol. Mae'r llythyr hwn yn benodol yn disodli paragraff 103 Cylchlythyr 10/94 **[Atodiad].**

2.3. Cais Dyneiddwyr Bangor i ymuno fel aelod/au o Grŵp A ar bwyllgor CYSAG Gwynedd.

2.4 Wrth ystyried cais Dyneiddwyr i ymuno fel aelod o Grŵp A, mae'n amserol i roi ystyriaeth i gredoau eraill er mwyn rhoi sylw i amrywiath credoau Gwynedd ar bwyllgor CYSAG.

2.5 Mae angen i'r CYSAG fod yn gynhwysol gan gynnwys amrywiaeth ehangach o draddodiadau crefyddol nag sydd gennym ar hyn o bryd a'r manteision o gael yr amrywiaeth

ehangach hon wrth ddatblygu cwricwlwm addysg grefyddol sy'n paratoi ein pobl ifanc i fod yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd.

## 3. CYFLWYNIAD AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

**Cefndir**
Mae Deddf Addysg 1996 yn gosod dyletswydd ar yr awdurdod lleol i sefydlu cyngor sefydlog i'w gynghori ar addysg grefyddol.

**Swyddogaethau CYSAG**

- Cynghori'r Awdurdod Lleol ynghylch addoli mewn ysgolion a'r addysg grefyddol a roddir yn unol â'r maes llafur cytûn, gan gynnwys dulliau addysgu, cyngor ar ddeunyddiau a darparu hyfforddiant i athrawon;

- Ystyried a ddylid argymell i'r Awdurdod Lleol y dylai ei faes llafur cytûn presennol gael ei adolygu drwy alw Cynhadledd Maes Llafur Cytunedig ['CMLlC'];

- Ystyried ceisiadau gan ysgolion i ddod i benderfyniad (i gael eu heithrio o'r gofyniad i addoli crefyddol fod yn "Gristnogol");

- Adrodd yn ôl i'r Awdurdod Lleol a Llywodraeth Cymru ar ei weithgareddau'n flynyddol.

**Aelodaeth CYSAG**
Mae'r Ddeddf yn nodi y dylai CYSAG gynnwys cynrychiolwyr o blith y canlynol:

- Grŵp o bersonau i  gynrychioli'r enwadau Cristnogol a'r crefyddau eraill hynny sydd, ym marn yr awdurdod, yn cynrychioli prif draddodiadau crefyddol  yr ardal ('grŵp A')

- Grŵp o bersonau i i gynrychioli'r cymdeithasau athrawon hynny y cred yr awdurdod a ddylai gael eu cynrychioli, o ystyried amgylchiadau'r ardal

- Grŵp o bersonau i gynrychioli'r awdurdod

Dim ond y grwpiau cynrychioladol uchod sydd â'r hawl i bleidleisio, a bydd gan bob grŵp un bleidlais.

Gall y CYSAG ei hun hefyd gyfethol aelodau (ond ni fydd ganddynt bleidlais)

**Cylchlythyr 10/94**
Yn ogystal â'r ddarpariaeth statudol, yn 1994  cyhoeddodd yr hen Swyddfa Gymreig arweiniad ar Addysg Grefyddol a Chydaddoli ar ffurf Cylchlythyr 10/94, sy'n cynnwys darpariaethau yn ymwneud â gweithrediad CYSAG.

**CYSAG Cyngor Gwynedd**
Penderfynwyd ar aelodaeth y CYSAG gan Bwyllgor Addysg Cyngor Gwynedd yn 1996 ac mae'r aelodaeth bresennol fel a ganlyn:

**Cristnogion a Chrefyddau Eraill (Grŵp A)**
Yr Eglwys Fethodistaidd (1) - disgwyl enwebiad
Yr Annibynwyr (1) – disgwyl enwebiad
Eglwys Bresbyteraidd Cymru (1)
Undeb Bedyddwyr Cymru (1)

Yr Eglwys Gatholig (1)
Yr Eglwys yng Nghymru (1)

**Athrawon yn cynrychioli'r Undebau canlynol**
ASCL (1)
NAS/UWT (1)
UCAC (1)
NUT (1)
ATL (1) – disgwyl enwebiad

**Aelodaeth Aelodau Etholedig (7)**
(Ar sail cydbwysedd gwleidyddol)
Plaid Cymru (4)
Annibynnol (3)
(Aelodau ex-officio Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyngor)
Nid yw cyfansoddiad y CYSAG wedi ei adolygu ers hynny.

**Datblygiadau Diweddar**
Mae Dyneiddwyr wedi bod yn awyddus i gael eu cynrychioli ar CYSAGau fel aelodau o Grŵp A. Tra bod nifer yn eu cynnwys fel aelodau cyfetholedig, yr arfer cyffredinol yw peidio â'u caniatáu i fod yn aelodau llawn. Mae hyn ar sail arweiniad yr hyn sydd yn y ddeddfwriaeth a'r dehongliad ac arweiniad a roddir yng Nghylchlythyr 10/94, lle mae paragraff 103 yn darparu:

"*Byddai cynnwys cynrychiolwyr systemau cred megis hiwmanistiaeth, nad ydynt yn gyfystyr â chrefydd neu enwad crefyddol, ar ...grŵp A CYSAG, yn groes i'r darpariaethau cyfreithiol y cyfeirir atynt ym mharagraff 102 o'r cylchlythyr".*

Mae'r mater wedi bod yn destun cryn drafod ar lefel genedlaethol gan gynnwys her gyfreithiol gan Humanists UK yn erbyn Cyngor Bro Morgannwg ar y sail bod gwrthodiad i gynnwys dyneiddiwr fel aelod llawn yn groes i Ddeddf Hawliau Dynol a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

Fel canlyniad, ysgrifennodd Cymdeithas CYSAGau Cymru at Kirsty Williams AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg Llywodraeth Cymru, yn gynharach eleni yn gofyn am gyngor ac arweiniad clir yn wyneb y gwrthdaro yma rhwng dwy gyfundrefn gyfreithiol.

Mewn ymateb, ysgrifennodd at Gyfarwyddwyr Addysg Awdurdodau Lleol ar 3 Mai 2018, yn cadarnhau barn Llywodraeth Cymru, y gellir penodi cynrychiolwyr o systemau cred anghrefyddol i Grŵp A er mwyn sicrhau bod y CYSAG yn adlewyrchu credoau'r cymunedau a wasanaethant yn llawn, ac er mwyn cydymffurfio â deddfwriaeth bresennol. Mae'r llythyr hwn yn benodol yn disodli paragraff 103 Cylchlythyr 10/94 **[Atodiad]**

*Mewn perthynas â chredoau anghrefyddol mae'n datgan "...fod yn rhaid i gredoau anghrefyddol a goleddir gan yr unigolyn i'w benodi fod yn gydweddol â chred grefyddol, megis dyneiddiaeth. Er mwyn bod yn "gydweddol", ystyriwn fod yn rhaid i'r credoau anghrefyddol, yn unol â'r gyfraith achosion o dan y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol a Deddf Hawliau Dynol 1998, gyrraedd y lefel angenrheidiol o ran grym, difrifoldeb, cydlyniant a phwysigrwydd i sicrhau diogelwch o dan Hawliau'r Confensiwn.*

Derbyniwyd cais gan Ddyneiddwyr Bangor i benodi dyneiddiwr fel aelod llawn o'r CYSAG. Mae arweiniad diweddar Llywodraeth Cymru yn golygu y gall yr awdurdod ystyried y cais **[Atodiad]**

Nid oes adolygiad o aelodaeth CYSAG wedi bod ers 1996, byddai hefyd yn briodol ac amserol felly i ystyried cyfansoddiad y CYSAG yn ei gyfanrwydd.

**Ystyriaethau**
Bydd nifer y cynrychiolwyr a benodir i Grŵp A i gynrychioli pob enwad neu grefydd sydd angen eu cynrychioli, yn adlewyrchu'n fras gryfder cyfrannol yr enwad neu'r grefydd yn yr ardal leol. Mae llythyr 3 Mai 2018 yn egluro:

- *mae penodiad yn dibynnu ar farn yr awdurdod lleol perthnasol ynglŷn ag a fyddai cynrychiolydd o'r fath yn helpu i sicrhau bod y traddodiadau perthnasol yn ardal yr awdurdod lleol yn cael eu hadlewyrchu'n briodol yng Ngrŵp A. Yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am benderfynu ar benodiadau, gan ei fod yn y sefyllfa orau i asesu a oes gan CYSAG yr arbenigedd a'r profiad angenrheidiol i gyflawni ei swyddogaeth yn briodol."*

**Tystiolaeth**
Penderfynwyd ar gyfansoddiad y CYSAG yn 1996 ar sail y wybodaeth ganlynol

| | |
|---|---|
| Yr Eglwys Gatholig Rufeinig | 11.1% |
| Yr Eglwys yng Nghymru | 18.4% |
| Eglwys Bresbyteraidd Cymru | 43.3% |
| Yr Eglwys Fethodistaidd | 5.6% |
| Undeb yr Annibynwyr | 16.3% |
| Undeb y Bedyddwyr | 4.3% |
| Enwadau Eraill | 1% |

Y ffigyrau diweddaraf sydd gennym yw'r rhai o Gyfrifiad Gwynedd 2011, a cheir crynodeb ohonynt isod. Nid oes categori penodol ar gyfer y Dyneiddwyr yn y sensws isod gallant fod o dan y categorïau *Crefydd arall, Dim crefydd neu Heb nodi crefydd.*

| | **SIROL** | **ARFON** | **DWYFOR** | **MEIRION** |
|---|---|---|---|---|
| Cristnogaeth | 59.5% | 55.6% | 64.6% | 62.3% |
| Bwdhaeth | 0.3% | 0.4% | 0.3% | 0.3% |
| Hindŵaeth | 0.2% | 0.3% | 0.1% | 0.1% |
| Iddewiaeth | 0.0% | 0.1% | 0.0% | 0.0% |
| Islam | 1.1% | 1.9% | 0.4% | 0.3% |
| Siciaeth | 0.0% | 0.0% | 0.0% | 0.0% |
| Crefydd arall | 0.5% | 0.5% | 0.4% | 0.6% |
| Dim crefydd | 29.7% | 32.5% | 25.8% | 27.8% |
| Heb nodi crefydd | 8.6% | 8.6% | 8.4% | 8.6% |

## 4. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

4.1 Cyflwyno'r penderfyniad i'r Pwyllgor CYSAG.
4.2 Gweithredu ar y newid i'r Cyfansoddiad yn unol a phenderfyniad y Cabinet.

## 5. YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

5.1 **Barn Adran Addysg Gwynedd ac Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant (gydag arbenigedd Addysg Grefyddol):**

- Mae'r Adran Addysg yn awyddus i sicrhau bod yr addysg grefyddol a gyflwynir yn ein hysgolion yn adlewyrchu natur y gymdeithas leol a safbwyntiau trigolion Gwynedd. Mae angen adlewyrchu'r gymuned grefyddol amrywiol sydd yng Ngwynedd.

- Byddai'r pwyllgor yn manteisio o glywed lleisiau gwahanol grefyddau yn eu trafodaethau sydd yn greiddiol i gwricwlwm Maes Dysgu Addysg Grefyddol.

- Byddai'n hybu cyswllt rhwng Penaethiaid, Athrawon a Disgyblion â gwahanol gredoau yn uniongyrchol wyneb yn wyneb yn hytrach nag o lyfrau yn unig.

- Byddai'n gyfle i greu pontydd a hybu cymdeithas fwy goddefgar o gredoau amrywiol.

- Mae'r maes llafur cytûn presennol (sy'n seiliedig ar y Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol) yn cyfeirio at yr angen i roi cyfleoedd i'r disgyblion i "dynnu ar eu profiadau eu hunain ac ar amrywiaeth o ffynonellau crefyddol ac anghrefyddol eraill, gan gynnwys disgyblaethau eraill, er mwyn casglu tystiolaeth a datblygu dadleuon priodol" (CA3).
- Mae'r fanyleb bresennol ar gyfer Astudiaethau Crefyddol TGAU yn cyfeirio at yr angen i gyflwyno safbwyntiau anghrefyddol i'r disgyblion. Bydd cael mewnbwn gan Ddyneiddwyr lleol yn sicrhau bod safbwyntiau'r Dyneiddwyr yn cael eu cynrychioli'n gywir yn y gwersi.

5.2 **Barn Pwyllgor CYSAG Gwynedd a'r wahodd crefyddau eraill -** Byddai'n gyfle i CYSAG Gwynedd fod yn fwy cynhwysol gan gynnwys amrywiaeth ehangach o draddodiadau crefyddol nag sydd gennym ar hyn o bryd a'r manteision o gael yr amrywiaeth ehangach hon wrth ddatblygu cwricwlwm addysg grefyddol sy'n paratoi ein pobl ifanc i fod yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd.

5.3 **Barn Pwyllgor CYSAG Gwynedd a'r wahodd credoau sy'n gydweddol â chred grefyddol** - *fod yn rhaid i gredoau anghrefyddol a goleddir gan unigolyn i'w benodi fod yn gydweddol a chred grefyddol megis dyneiddiaeth* (yn unol â barn Llywodraeth Cymru), gyda amod fod y credoau anghrefyddol rheini yn cael eu dysgu yn Ysgolion Gwynedd. Cadarnhawyd fod Dyneiddiaeth yn cael ei gyflwyno yn rhai o ysgolion Gwynedd ac felly fod Pwyllgor CYSAG Gwynedd yn gefnogol i gais y Dyneiddwyr am sedd yn Grŵp A

5.3 **Cymdeithas CYSAGau Cymru**, mae'r Gymdeithas wedi ymholi am arweiniad gan y Gweinidog Addysg sydd yn ei llythyr 03/05/18 yn cadarnhau y gellir penodi cynrychiolwyr o systemau cred anghrefyddol i Grŵp A er mwyn sicrhau bod y CYSAG yn adlewyrchu credoau'r cymunedau a wasanaethant yn llawn, ac er mwyn cydymffurfio â deddfwriaeth bresennol. Mae'r llythyr hwn yn benodol yn disodli paragraff 103 Cylchlythyr 10/94 **[Atodiad]**

5.4 **Barn y Swyddogion Statudol:**

**i. Y Swyddog Monitro:** Mae'r Gwasanaeth Cyfreithiol wedi cael mewnbwn i fewn i'r adroddiad ac felly dim pellach i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb
**ii. Y Pennaeth Cyllid:** Dim i'w ychwanegu i'r adroddiad o safbwynt priodoldeb ariannol.

**Dogfen Gefndir**

Cylchlythyr 10/94 y Swyddfa Gymreig

**Atodiadau Perthnasol i'r Argymhelliad**

Llythyr cais Dyneiddwyr Bangor Hydref 2017

Llythyr Kirsty Williams, Llywodraeth Cymru

Ystadegau Crefyddol Cyfrifiad 2011 Gwynedd

Mr Richard D. Speight

14 Cilfodan

Bethesda

Bangor

Gwynedd

LL57 3SL

Dear Cllr Rowlinson

**Humanist Membership of Gwynedd County Council SACRE**

I am writing to you in my capacity as Chairperson of Dyneiddwyr Bangor Humanists to invite Gwynedd County Council Standing Advisory Council on RE (SACRE) to join the majority of other such advisory councils across England & Wales and appoint a humanist as a full member to work alongside those members who represent the religious groups in our county.

We are a group of citizens, parents, grandparents, students and teachers who wish to contribute in a positive manner to the continuing development of a modern and inclusive religious literacy education for our children. Non-religious people now outnumber those with religious beliefs in Wales, and we as members of Humanists UK work in a spirit of tolerance and co-operation to promote the interests and perspectives of people of all races, nationalities, languages and political affiliations who wish to live a good and moral life without subscribing to a religious worldview.

You will be aware of the recent move by Vale of Glamorgan County Council to withdraw its decision to decline Mrs Kathy Riddick's request to join its SACRE as a humanist member. They have now chosen not to contest her claim that their original decision to exclude her unlawfully discriminates against humanists, relegating the nonreligious to a status below the religious, in the High Court.

I am therefore confident that you and your colleagues will wish welcome a humanist member onto your advisory council with full voting rights, rather than being co-opted or as an observer. We also expect that the precedent set by the Vale of Glamorgan will mean that Welsh Office Circular10/94 cannot now be used as a pretext to refuse this request.

At the meeting of Bangor Humanists on 4th October, 2017, our group endorsed our Communications Officer, Mr Edward Pari-Jones, as our preferred humanist nominee for the Gwynedd SACRE. Mr Pari-Jones is an experience educator and parent of a child in a Gwynedd County school who has the skills, background and motivation to contribute fully and positively to the work of the SACRE.

I have copied the Leader of Cyngor Gwynedd, our Westminster MPs and Assembly Members, Mrs Riddick in her capacity as Wales Humanists national co-ordinator, and Andrew Copson, Chair of Humanists UK, so that they are aware of our request and I look forward with anticipation to your timely response.

Yours sincerely,

Richard D. Speight

Chairperson, Dyneiddwyr Bangor Humanists

Annwyl y Cyng Rowlinson

Aelodaeth Dyniaethol CYSAG Cyngor Sir Gwynedd

Rwyf yn ysgrifennu atoch yn fy nghapas fel Cadeirydd Dyneiddwyr Bangor Humanists i wahodd Cyngor Ymgynghorol Sefydlog Cyngor Sir Gwynedd ar AG (CYSAG) i ymuno â'r mwyafrif o gynghorau ymgynghorol o'r fath ledled Cymru a Lloegr a phenodi dynyddwr fel aelod llawn i weithio ochr yn ochr â'r aelodau hynny sy'n cynrychioli'r grwpiau crefyddol yn ein sir.

Rydym yn grŵp o ddinasyddion, rhieni, neiniau a theidiau, myfyrwyr ac athrawon sy'n dymuno cyfrannu'n gadarnhaol at ddatblygiad parhaus addysg llythrennedd grefyddol fodern a chynhwysol i'n plant. Mae pobl nad ydynt yn grefyddol bellach yn fwy na'r rheiny â chredoau crefyddol yng Nghymru, ac rydym ni fel aelodau Humanists UK yn gweithio mewn ysbryd goddefgarwch a chydweithrediad i hyrwyddo diddordebau a safbwyntiau pobl o bob hil, cenedl, ieithoedd a chysylltiadau gwleidyddol sy'n dymuno i fyw bywyd da a moesol heb danysgrifio i weledfa grefyddol.

Byddwch yn ymwybodol o'r symudiad diweddar gan Gyngor Sir Bro Morgannwg i dynnu'n ôl ei benderfyniad i wrthod cais Mrs Kathy Riddick i ymuno â'i CYSAG fel aelod dyniaethwr. Maent bellach wedi dewis peidio â herio ei haisiad bod eu penderfyniad gwreiddiol i wahardd iddi wahaniaethu yn anghyfreithlon yn erbyn dynionwyr, gan ddirprwyo'r rhai nad ydynt yn anfodlon i statws islaw'r crefyddol, yn yr Uchel Lys.

Felly, yr wyf yn hyderus y byddwch chi a'ch cydweithwyr yn dymuno croesawu aelod dyneiddiol i'ch cyngor cynghori â hawliau pleidleisio llawn, yn hytrach na chael eu cyfetholedig neu fel sylwedydd. Rydym hefyd yn disgwyl y bydd y cynsail a osodir gan Fro Morgannwg yn golygu na ellir defnyddio Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig10 / 94 yn awr fel esgus i wrthod y cais hwn.

Yn y cyfarfod o Ddyniadurwyr Bangor ar 4 Hydref, 2017, cymeradwyodd ein grŵp ein Swyddog Cyfathrebu, Mr Edward Pari-Jones, fel ein hen enwebai dyneiddiol ar gyfer CYSAG Gwynedd. Mae Mr Pari-Jones yn brofiad o addysgwr a rhiant plentyn mewn ysgol yn Sir Gwynedd sydd â sgiliau, cefndir a chymhelliant i gyfrannu'n llawn ac yn gadarnhaol i waith y CYSAG.

Rwyf wedi copïo Arweinydd Cyngor Gwynedd, ein ASau San Steffan ac Aelodau'r Cynulliad, Mrs Riddick yn rhinwedd ei swydd fel cydlynydd cenedlaethol Dyniaethau Cymru, ac Andrew Copson, Cadeirydd Humanists UK, fel eu bod yn ymwybodol o'n cais ac yr wyf yn edrych ymlaen gyda rhagweld i'ch ymateb amserol.

Yr eiddoch yn gywir,

Richard D. Speight

Cadeirydd, Dyniadurwyr Dyneiddwyr Bangor

**Cylchlythyr rhif 10/94**

# Addysg Grefyddol a Chydaddoli

**Crynodeb o'r cynnwys**

Rhaid i bob ysgol a gynhelir ddarparu addysg grefyddol a chydaddoliad beunyddiol i'r holl ddisgyblion cofrestredig a hybu eu datblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol.

Yn y dyfodol rhaid i feysydd llafur cytûn lleol AG ar gyfer ysgolion sirol a'r ysgolion cyfatebol a gynhelir â grant adlewyrchu'r ffaith bod traddodiadau crefyddol y wlad yn Gristnogol yn bennaf, gan gymryd i ystyriaeth ddysgeidiaeth ac arferion y prif grefyddau eraill. Rhaid adolygu meysydd llafur o bryd i'w gilydd.

Rhaid i gydaddoli mewn ysgolion sirol a'r ysgolion cyfatebol a gynhelir â grant fod yn gyfan gwbl neu'n bennaf yn Gristnogol ei gymeriad, ond heb gynrychioli unrhyw enwad Cristnogol arbennig.

Nid yw hawl rhieni i dynnu eu plant yn ôl o AG a chydaddoli na'r mesurau diogelwch i athrawon wedi'u newid.

Cyrff lleol sy'n cynghori ar AG a chydaddoli ac yn argymell meysydd llafur AG newydd. Mae'r rhain yn cynrychioli grwpiau crefyddau, athrawon, yr AALI ac ysgolion a gynhelir â grant.

Mae'r gofynion ynglŷn â gwybodaeth ac arolygu yn gymwys i AG a chydaddoli.

**Pwnc:**
Addysg grefyddol a chydaddoli yng Nghymru

**Dyddiad cyhoeddi:**
Medi 1994

**Dogfennau cysylltiedig:**
Cylchlythyr 26/89
Llythyr y SG 19/11/91
Cylchlythyr 45/92
Cylchlythyr 66/93
Cylchlythyr 37/93
Cylchlythyr 44/93
Cylchlythyr 45/93
Cylchlythyr 62/93

**Dpgfennau a ddisodlwyd:**
Cylchlythyr 6/89

Unrhyw lythyron, cyngor neu ganllawiau a gyhoeddwyd rhwng 3/89 a 6/94

**Cynulleidfa:**
Awdurdodau Addysg Lleol
CYSAG
Penaethiaid a Chyrff Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir
Sefydliadau Hyfforddi Athrawon
Cyrff Esgobaethol
Cyrff Eraill

Nid yw'r canllawiau hyn yn rhoi dehongliad cyfreithiol awdurdod o ddarpariaethau'r Deddfau Addysg neu ddeddfiadau a rheoliadau eraill; mater i'r llysoedd yn unig yw hynny.

# Cynnwys

**Pwyntiau gweithredu i benaethiaid**
**Pwyntiau gweithredu i lywodraethwyr**
**Pwyntiau gweithredu i AALI**
**Pwyntiau gweithredu i CYSAG**

**Cyflwyniad**
Nodau'r Llywodraeth
Cwmpas y Cylchlythyr
Cychwyn darpariaethau Deddf Addysg 1993

**Addysg Grefyddol**
Nodau AG
Cyfrifoldeb dros ddarparu AG
Statws AG
Gofynion AG ar gyfer gwahanol ysgolion
Y maes llafur cytûn lleol
Gofynion newydd i adolygu meysydd llafur y cytunwyd arnynt cyn 1988
Adolygiad o'r maes llafur AG bob pum mlynedd
Pŵer yr Ysgrifennydd Gwladol i ymyrrid mewn adolygiad o'r maes llafur AG
Cynnwys AG
Deunydd enghreifftiol
Amser ar gyfer AG
TGAU a meysydd llafur cytûn
AG ar ôl 16, arholiadau a'r maes llafur cytûn
Yr hawl i dynnu'n ôl
Ymarfer yr hawl i dynnu'n ôl

**Cydaddoli**
Nodau
Cyfrifoldeb dros ddarparu cydaddoliad dyddiol
Trefnu cydaddoli
Ystyr cydaddoli
Cymeriad cydaddoli (heblaw mewn ysgolion gwirfoddol a gynhelir gan AALI
Eithriadau rhag cydaddoli cyffredinol Gristnogol ('penderfyniadau')
Gwneud cais am benderfyniad
Gwybodaeth ar benderfyniadau
Cymeriad a threfniadaeth cydaddoli statudol amgen
Pŵer yr Ysgirfennyd Gwladol i gyfarwyddo CYSAG i ddiddymu penderfyniad
Cymeriad cydaddoli mewn ysgolion gwirfoddol a gynhelir gan AALI ac ysgolion cyfatebol AGAG
Yr hawl i dynnu'n ôl
Ymarfer yr hawl i dynnu'n ôl
Addoli amgen i ddisgyblion sydd wedi'u tynnu'n ôl

**Cyrff lleol: CYSAG a chynadleddau meysydd llafur cytûn**
Dyletswydd i sefydlu CYSAG a chynhedledd
Swyddogaeth CYSAG
Adroddiad blynyddol CYSAG

Swyddogaeth cynhadledd mae llafur cytûn
Cyfansoddiad CYSAG a chynhadledd
Cynrychiolaeth grwpiau heblaw crefyddau neu enwadau crefyddol
ar bwyllgor neu grŵp A
Ailgyfansoddi CYSAG a chynhadledd
Cynrychiolaeth ysgolion a gynhelir â grant ac ymgynghori â hwy
Gwneud penderfyniadau
Penodi i bwyllgor a grŵp
Cadeirydd CYSAG a chynhadledd
Ariannu CYSAG a chynhadledd
Cyfarfod yn gyhoeddus

**Atebolrwydd cyhoeddus**
Nodau
Darparu gwybodaeth – cyffredinol
Gwybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd yn yr ysgolion
Gwybodaeth yn llawlyfr yr ysgol
Gwybodaeth i rieni mewn adroddiadau
Arolygu ysgolion
Arolygu AG a chydaddoli enwadol
Gweithdrefn gŵynion leol
Cŵynion i'r Ysgrifennydd Gwladol

**Athrawon**
Nodau
Dyletswyddau

**Hyfforddiant cychwynnol i athrawon a datblygiad proffesiynol athrawon**
Nodau
Hyfforddiant cychwynnol i athrawon
Datblygiad proffesiynol athrawon
Rhaglen GCAH
Ysgolion a gynhelir â grant: grant dibenion arbennig

**Atodiad A:** Mathau o ysgol a gynhelir â grant
**Atodiad B:** Ysgolion arbennig
**Atodiad C:** Colegau technoleg dinas
**Atodiad D:** Colegau chweched dosbarth yn y sector AB
**Atodiad E:** Cyfieithiad o Adran 26-29 Deddf Addysg 1944 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Diwygio Addysg 1988

**Atodiad F:** Cyfieithiad o Atodlen 5 Deddf Addysg 1944 fel y'i diwygiwyd Gan Ddeddf Diwygio Addysg 1988
**Atodiad G:** Gofynion cydaddoli
**Atodiad H:** CYSAG: cyfansoddiad a threfniadau pleidleisio

**Mynegai**

## Pwyntiau Gweithredu i Benaethiaid Ysgolion a Gynhelir (heblaw Ysgolion Arbennig a Gynhelir)

Sicrhau darparu AG a chydaddoli dyddiol i'r holl ddisgyblion (paragraffau 8; 16-23; 50-67; 141-146).

**Ysgolion sirol ac ysgolion cyfatebol a gynhelir â grant**[1] – trefnu cydaddoli drwy ymgynghori â'r corff llywodraethu (paragraffau 50-67).

**Ysgolion sirol –** os yw'n briodol, gwneud cais i'r Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar AG (CYSAG) am benderfyniad ar gydaddoli (paragraffau 68-75).

Gweithredu cais rhiant i dynnu plentyn yn ôl o AG neu gydaddoli (paragraffau 82-87).

Trefnu bod y maes llafur AG ar gael os gwneir cais (paragraff 124).

Cyflwyno adroddiadau i rieni ar gynnydd plentyn mewn AG (paragraffau 24-125).

**Ysgolion a gynhelir â grant** – ystyried cŵynion cwricwlwm ynghylch AG a chydaddoli (paragraffau 133-139).

## Deddf Addysg 1993 – Gofynion newydd

**Ysgolion a gynhelir â grant sy'n cyfateb i ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir** – rhoi gwybod i'r CYSAG os ydynt yn defnyddio maes llafur yr AALI ar gais y rhieni (paragraff 23).

**Ysgolion a gynhelir â grant sy'n cyfateb i ysgolion sirol –** os yw'n briodol, gwneud cais i'r CYSAG am benderfyniad ar gydaddoli (paragraffau 70-75).

[1] Nid oes unrhyw ymadrodd hwylus i ddisgrifio'r mathau o ysgolion a gynhelir â grant y mae'r gwahanol ofynion ynghylch AG a chydaddoli yn gymwys iddynt.  Felly disgrifir ysgolion a gynhelir â grant yn y cylchlythyr hwn mewn perthynas â'r ysgolion cyfatebol a gynhelir gan AALI: sef ysgolion sirol ac ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir.  Nodir hyn yn llawn yn Atodiad A.

## Pwyntiau Gweithredu i Lywodraethwyr Ysgolion a Gynhelir (heblaw Ysgolion Arbennig a Gynhelir)

Cyflawni eu swyddogaethau i sicrhau AG a chydaddoli dyddiol i'r holl ddisgyblion (paragraffau 8; 16-23; 50-67; 141-146).

**Ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir, ac ysgolion cyfatebol a gynhelir â grant –** penderfynu ar AG (paragraff 23).

**Ysgolion gwirfoddol ac ysgolion cyfatebol a gynhelir â grant –** trefnu cydaddoli dyddiol drwy ymgynghori â'r pennaeth (paragraff 81).

Cynnwys gwybodaeth am AG a chydaddoli yn y llawlyfr (paragraffau 122-123).

Ymateb i arolygiad SPAEM ar AG yn y cynllun gweithredu (paragraffau 126-127).

Ystyried cŵynion cwricwlwm ar AG a chydaddoli (paragraffau 133-139).

## Deddf Addysg 1993 – Gofynion newydd

**Ysgolion a gynhelir â grant sy'n cyfateb i ysgolion sirol neu ysgolion gwirfoddol a reolir –** penderfynu a ddylid parhau i ddefnyddio maes llafur yr AALI lleol (paragraffau 22-23).

**Ysgolion a gynhelir â grant sy'n cyfateb i ysgolion sirol neu ysgolion gwirfoddol a reolir –** at certain point, nominate representatives to SACRE and syllabus conference (paragraphs 105-106; 113).

**Ysgolion a gynhelir â grant sy'n cyfateb i ysgolion sirol neu ysgolion gwirfoddol a reolir –** before that point, appoint single representatives of SACRE and comment on any syllabus review (paragraphs 105-106).

**Ysgolion gwirfoddol ac ysgolion cyfatebol a gynhelir â grant –** sicrhau arolygiad o AG a chydaddoli (paragraffau 128-132).

## Pwyntiau Gweithredu i AALI

Cyflawni eu swyddogaethau i sicrhau AG a chydaddoli dyddiol i'r holl ddisgyblion (paragraffau 8; 16-23; 50-55; 141-146).

Sefydlu ac ariannu Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (paragraffau 88-96; 116).

Cytuno ar faes llafur cytûn (paragraffau 24-43); a chynnull ac ariannu cynhadledd maes llafur achlysurol (paragraffau 88-96; 116).

Penodi aelodau i'r CYSAG ac i'r gynhadledd meas llafur (paragraffau 102-106; 109-116).

Hysbysu'r Ysgrifennydd Gwladol pan gytunir ar faes llafur newydd (paragraff 27).

Ystyried cwynion cwricwlwm ar AG a chydaddoli (paragraffau 134-139).

## Deddf Addysg 1993 – Gofynion newydd

Erbyn 1 Hydref 1994 cyfansoddi CYSAG newydd fel bob grŵp A yn adlewyrchu'n fras gryfder cynharol grwpiau crefyddol lleol (paragraffau 110-111).

Erbyn 1 Hydref 1994 ail-gynnull unrhyw gynhadledd maes llafur cytûn sy'n cyfarfod ac sydd erbyn hynny heb wneud argymhelliad, fel bod pwyllgor A yn adlewyrchu'n fras gryfder cymharol grwpiau crefyddol lleol (paragraff 110-111).

O 1 Mai 1994 ymlaen sicrhau bod CYSAG a chynhadledd maes llafur cytûn yn parchu'r gofyniad y bydd cyfarfodydd yn agored i'r cyhoedd (paragraffau 26-28).

Erbyn 1 Ebrill 1995, lle nad oes maes llafur cytûn newydd wedi'i fabwysiadu ers 29 Medi 1988, cynnull cynhadledd maes llafur cytûn at y diben hwnnw; ond peidio â gweithredu'r maes llafur a argymhellir gan y gynhadledd ond os yw'n cydymffurfio ag adran 8(3) Ddeddf 1988 (paragraffau 26-28).

Cynnull cynhadledd maes llafur cytûn i adolygu'r maes llafur cytûn bob pum mlynedd ar ôl ei fabwysiadu (paragraff 29).

Ar adeg arbennig, sefydlu CYSAG newydd ac ail-gynnull unrhyw gynhadledd maes llafur gyda phwyllgor neu grŵp ychwanegol i gynrychioli ysgolion a gynhelir â grant (paragraffau 105-106).

Cyn yr adeg honno, lle ceir ysgolion a gynhelir â grant yn yr ardal a'r rheiny yn cyfateb i Ysgolion Sirol neu Ysgolion a Reolir, penodi eu henwebal i'r CYSAG (paragraffau 105-106).

Cyn yr adeg honno, lle ceir ysgolion a gynhelir â grant yn yr ardal a'r rheiny yn cyfateb i Ysgolion Sirol neu Ysgolion a Reolir, sicrhau bod y gynhadledd maes llafur yn ymgynghori â hwy ar adolygiad o'r maes llafur (paragraff 106).

## Pwyntaiu Gweithredu i CYSAG

Cynghori'r AALI ar AG a chydaddoli (paragraffau 89; 92; 94).

O dan rai amgylchiadau, gofyn i'r AALI adolygu maes llafur cytûn (paragraff 89).

Gwneud penderfyniadau ar gydaddoli a'u hadolygu ar ôl 5 mlynedd (paragraff 89).

Cyhoeddi adroddiad blynyddol (paragraffau 97-99).

## Deddf Addysg 1993 – Gofynion newydd

Anfon copi o'u cyngor i ysgolion a gynhelir â grant (paragraff 93).

Anfon copi o'u hadroddiad blynyddol i Awdurdod Cwricwlwm ac Asesu Cymru (paragraff 98).

## Cyflwyniad

1. Mae'r cylchlythyr hwn yn nodi polisi'r Llywodraeth ar addysg grefyddol a chydaddoli yn yr ysgolion, ac mae'n cynnig canllawiau i'r rhai sy'n ymwneud â'r materion hyn ar lefel leol ar y gyfraith ac ar weithredu'r gyfraith yn yr ysgolion. Nid yw'r canllawiau hyn yn ddehongliad cyfreithiol awdurdodol o'r Deddfau Addysg; mater i'r llysoedd yw hynny.

**Nodau'r Llywodraeth**

2. Y nod canolog ar gyfer y cwricwlwm ysgol mae Deddf Diwygio Addysg 1988 yn nodi y dylai hybu datblygiad ysbrydol, moesol, diwylliannol, meddyliol a chorfforol disgyblion a chymdeithas, gan baratoi disgyblion ar gyfer cyfleoedd, cyfrifoldebau a phrofiadau bywyd oedolyn. Mae'r Llywodraeth yn bryderus nad oes digon o sylw wedi'i roi i'r agweddau ysbrydol, moesol a diwylliannol ar ddatblygiad disgyblion, a hoffai annog ysgolion i roi sylw i'r ffyrdd gorau i'r cwricwlwm a gweithgareddau eraill gyfrannu at y dimensiwn holl-bwysig hwn ar addysg.

3. Bydd y set o werthoedd cyffredin y mae ysgol yn ei hybu drwy gyfrwng y cwricwlwm, drwy'r disgwyliadau sy'n llywodraethu ymddygiad y disgyblion a'r staff a thrwy'r cysylltiadau beunyddiol rhyngddynt, yn gwneud cyfraniad o bwys at ddatblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol y disgyblion a dylai fod wrth galon polisi ac arferion addysgol a bugeiliol pob ysgol. Dylid gwneud pob ymdrech i roi cyhoeddusrwydd i werthoedd yr ysgol i rieni a'r gymuned leol [2] ac i ennill cefnogaeth iddynt. Mae'r mwyafrif mawr o ysgolion yn rhoi cryn sylw i'r agwedd hon ar eu hôl.

4. Cyn bo hir yn ofynnol i ysgolion gynnwys yn eu llawlyfrau datganiad o'u hethos neu eu gwerthoedd cyffredin. Ni fydd datganiadau o'r fath yn newydd i lawer o ysgolion, ac maent yn cynnig cyfle i ysgolion nodi eu nodau ar gyfer y rhan hon o'u gwaith, a datgan sut y gwneir hyn drwy gyfrwng y cwricwlwm a gweithgareddau eraill.

5. Mae addysg grefyddol a chydaddoli yn gwneud cyfraniad pwysig, ond nid unigryw, at ddatblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol. Mae'r gweithgareddau hyn yn cynnig cyfle amlwg i'r disgyblion ystyried ymateb crefydd i gwestiynau sylfaenol am bwrpas bod, moesoldeb a safonau moesol, ac i ddatblygu eu hymateb eu hunain i faterion o'r fath.

6. Mae'n ofynnol i bob ysgol yn ôl y gyfraith ddarparu addysg grefyddol a chydaddoliad dyddiol i'w holl ddisgyblion, ac eithrio'r disgyblion hynny a dynnir yn ôl o'r gweithgareddau hyn yn digwydd mor aml ag sy'n angenrheidiol nag mor safonol ag y mae'r disgyblion yn ei haeddu mewn llawer o ysgolion. Nod y Llywodraeth felly yw gwella ansawdd cwricwlwm addysg grefyddol i ddisgyblion er mwyn sicrhau y cânt y cyfle gorau posibl i ddatblygu drwy'r maes hwn yn y cwricwlwm.

7. Mae'n briodol mai mater o gyfrifoldeb lleol yw'r trefniadau manwl ar gyfer darparu addysg grefyddol a chydaddoli. Ar y lefel leol y penderfynir ar y maes llafur addysg grefyddol, gan gynhadledd maesllafur cytûn, ac ar y lefel leol y gwneir y trefniadau ar gyfer cydaddoli a hynny gan bennaeth neu gorff llywodraethu yr ysgol. Serch hynny, mae'r Llywodraeth yn ceisio hybu gwell safonau a sicrhau cyfleoedd cyffelyb i bob disgybl mew ysgolion an-enwadol.

[2] Papur Gwyn: "Choice and Diversity: a new frameowrk for schools", Gorch 2021, Gwasg Ei Mawrhydi.

8. Mae'r ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu addysg grefyddol a chydaddoli mewn ysgolion o'r fath wedi'i dynodi:

- mwn AG i sicrhau y caiff disgyblion wybodaeth drwyadl o Gristnogaeth sy'n adlewyrchu etifeddiaeth Gristnogol y wlad, a gwybodaeth o'r prif grefyddau eraill a gynrychiolir ym Mhrydain Fawr; ac

- mewn cydaddoli i sicrhau bod disgyblion yn cymryd rhan bob dydd mewn cydaddoliad, ac mae'n rhaid i'r mwyafrif o cydaddoliadau hynny bob tymor fod yn gyfan gwbl neu'n bennaf yn Gristnogol eu cymeriad.

9. Mae'r Llywodraeth yn disgwyl i lywodraethwyr ysgolion, penaethiaid ac awdurdodau addysg lleol (AALI) gymhwyso'r ddeddfwriaeth hon yn llawn ac mewn ffordd a fydd yn arwain at welliannau sylweddol yn ansawdd addysg grefyddol a chydaddoli.

10. Rhoi pwyslais mawr hefyd gan y Llywodraeth ar swyddogaeth addysg grefyddol a chydaddoli wrth helpu i hybu ymhlith dusgyblion set eglur o werthoedd a chredoau personol. Mae i'r rhain rôl mewn hybu parch a dealltwriaeth at y rhai sydd â chredoau ac arferion crefyddol gwahanol iddynt hwythau, a hynny ar sail astudiaeth drwyadl o'r gwhanol grefyddau. Mae gan Gymru draddodiad hir o ryddid crefyddol y dylid ei gadw.

## Cwmpas y cylchlythyr

11. Mae'r gofynion a nodir yn y cylchlythyr hwn yn gynwys i dusgyblion [3] cofrestredig mewn ysgolion a gynhelir heblaw ysgolion arbennig a gynhelir. Nid ydynt ym gymwys i'r mwyafrif o golegau addysg bellach, gan gynnwys colegau trydyddol, nac i ysgolion meithrin na dosbarthiadau meithrin na dosbarthiadau meithrin mewn ysgolion cynradd.

*Deddf Diwygio Addysg 1988 a.25(2)*

12. Mae Deddf Addysg 1993 yn cynnwys gofynion ar gyfer addysg grefyddol a chydaddoli mewn ysgolion arbennig. Nodir manylion y trefniadau hyn yn Atodiad B.

*Deddf Addysg 1993 a.188(6)*

13. Mae Deddf Diwygio Addysg 1988 yn darparu i'r Ysgrifennydd Gwladol bennu gofynion ar gyfer addysg grefyddol a chydaddoli mewn colegau technoleg dinas a cholegau dinas ar gyfer technoleg y celfyddydau. Gwelir manylion y trefniadau hyn yn Atodiad C.

*Deddf Diwygio Addysg 1988 s.105*

14. Mae Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 yn cynnwys gofynion ar gyfer addysg grefyddol a chydaddoli mewn colegau chweched dosbarth yn y sector addysg bellach. Gwelir manylion y trefniadau hyn yn Atodaid D.

*Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 a.44 & 45*

[3] Mae "disgybl" yn cyfeirio at unrhyw berson y darperir addysg ar ei gyfer mewn ysgol; ac eithrio unrhyw berson pedair ar bymtheg oed neu'n fwy y darpaerir addysg bellach ar ei gyfer mewn ysgol; neu unrhyw berson dros oedran ysgol gorfodol (5-16) sy'n cael addysg ran-amser.

**Cychwyn darpariaethau Deddf Addysg 1993**

15. Gydag un eithriad, daeth darpariaethau Deddf Addysg 1993 sy'n ymwneud ag addysg grefyddol a chydaddoli i rym ar 1 Ebrill 1994. Yr eithriad yw adran 259 ynghylch arolygu addysg grefyddol enwadol (paragraffau 128-132) a gychwynnwyd ar 1 Hydref 1993.

*Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 a.14*

## Addysg Grefyddol

### Nodau AG

16. Dylai addysg grefyddol mewn ysgolion geisio datblygyu gwybodaeth, dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth y disgybl o Gristnogaeth fel prif grefydd Prydain Fawr,a'r crefyddau eraill a gynrychiolor yn y wlad; annog parch i'r rhai sy'n arddel credoau gwahanol; a helpu i hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, diwylliannol a meddyliol y disgybl.

### Cyfrifoldeb dros ddarparu AG

17. Dylai AG, fel rhan o'r cwricwlwm sylfaenol, gael ei darparu i'r holl ddisgyblion cofrestredig sy'n mynychu ysgol a gynhelir.

*Deddf Diwygio Addysg 1988 a.2(1)(a)*

18. Dyletswydd y pennaeth yw sicrhau'r ddarpariaeth hon. Rhaid hefyd i'r corff llywodraethu neu, achos ysgolion a gynhelir gan AALI, y corff llywodraethu a'r AALI, ymarfer eu swyddogaethau gyda golwg ar sicrhau'r ddarpariaeth hon.

*Deddf Diwygio Addysg 1988 a.10(1)(b)*

19. Rhaid i'r pennaeth a'r corff llywodraethu sicrhau bod digon o amser ac adnoddau'n cael eu rhoi ar gyfer AG yn yr ysgol i fodloni'r gofynion statudol.

### Statws AG

20. Mae'n ofynnol cynnwys AG, ochr-yn-ochr â'r Cwricwlwm Cenedlaethol, yn y cwricwlwm sylfaenol y mae'n rhaid i bob ysgol a gynhelir ei ddarparu ar gyfer eu disgyblion cofrestredig; mae hyn yn cynnwys plant mewn dosbarthiadau derbyn a chweched dosbarthiadau, ac nid yw wedi'i gyfyngu i ddisgyblion o oedran ysgol gorfodol. Mae statws arbennig AG fel rhan o'r cwricwlwm sylfaenol ond nid y Cwricwlwm Cenedlaethol yn bwysig. Mae hyn yn sicrhau bod i AG statws cyfertal mewn perthhynas â phynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol o fewn cwricwlwm ysgol, ond nad yw'n ddarostyngedig i'r targedau cyrhaeddiad, y rhaglenni astudio a'r trefniadau asesu cenedlaethol a bennwyd yn statudol, a fyddai'n orfodol i bob disgybl, yn ddi-eithriad.

*Deddf Diwygio Addysg 1988 a.2(1)*

**Gofynion AG ar gyfer gwahanol ysgolion**

21. Nid yw darpariaeth Deddf Addysg 1988 ynghylch yr AG y mae'n ofynnol i ysgolion sirol ac ysgolion gwirfoddol a gynhelir gan AALI ei darparu wedi'u newid gan Deddf 1993. Rhaid iddi gyd-fynd â gofynion perthnasol Deddf Addysg 1944, fel y'u diwygiwyd gan Deddf Diwygio Addysg 1988. Ceir cyfieithiad o'r adrannau diwygiedig yn Atodiad E.

*Deddf Diwygio Addysg 1944 a.26-29*

22. Mae'r gofynion mewn perthynas â rhai ysgolion a gynhelir â grant wedi'u newid gan Ddeddf 1993 i adlewyrchu'r cynnydd yn ymreolaeth yr ysgolion hyn. Caiff ysgolion a gynhelir â grant sy'n cyfateb i ysgolion sirol neu a fu gynt yn ysgolion gwirfoddol o dan reolaeth ddilyn maes llafur cytûn lleol unrhyw AALI yng Nghymru, cyhyd â bod y maes llafur hwnnw yn bodloni gofynion Deddf 1988. Wrth benderfynu pa faes llafur y dylid ei ddefnyddio, dylai corff llywodraethu ystyried y cwestiwn o barhad a dilyniant i ddisgyblion, yn ogystal ag ansawdd y maes llafur.

*Deddf Addysg 1993 a.142*

23. I grynhoi:

- Yn achos **ysgolion sirol**, rhaid i AG gyd-fynd â maes llafur cytûn lleol yr AALI maent yn ei ardal.

  *Deddf Addysg 1944 a.26(1)*

- Yn achos **ysgolion gwirfoddol a reaolir**, rhaid i'r AG a gynigir gyd-fynd â maes llafur cytûn lleol yr AALI;

  *Deddf Addysg 1944 a.27(6)(b) a.27(1)*

  - Er hynny, os ceir cais oddi wrth y rhieni, dylid trefnu i AG gael ei darparu ar gyfer eu plant yn unol ag unrhyw weithred ymddiriedolaeth neu â'r arferion a ddilynir cyn i'r ysgol ddechrau cael ei rheoli.

- Yn achos **ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir**, rhaid i'r AG a gynigir gael ei phenderfynu gan y llywodraethwyr yn unol â'r weithred ymddiriedolaeth neu (lle na ddarperir fel hyn gan weithred ymddiriedolaeth) yn unol â'r arferion cyn i'r ysgol ddod yn ysgol wirfoddol.

  *Deddf Addysg 1944 a.28(1)(a)*

  - Ond gellir gwneud darpariaeth yn unol â maes llafur cytûn lleol yr AALI lle bydd rheini'n gwneud cais amdani a lle nad yw'n gyfleus i'w plant fynychu ysgol lle defnyddir y maes llafur hwnnw, oni bai bod yr AALI yn fodlon y byddai'n afresymol gwneud y ddarpariaeth honno.

    *a.28(1)(b)*

- Yn achos **ysgolion a gynhelir â grant a oedd gynt yn ysgolion gwirfoddol a gâi eu cynorthwyo ney sydd newydd eu sefydlu o dan adran 49 Deddf 1993 gyda darpariaeth ar gyfer AG**, rhaid i'r AG a gynigir gael ei phenderfynu gan y llywodraethwyr yn unol â'r weithred ymddiriedolaeth neu (lle na ddarperir fel hyn gan weithred ymddiriedolaeth) yn unol â'r arferion cyn i'r ysgolddechrau cael ei chynnal â grant neu, yn achos ysgol newydd, â'r datganiad a gymeradwywyd. *Deddf Addysg 1993 a.140(2)*

  - Ond gellir rhoi darpariaeth yn unol â maes llafur cytûn lleol yr AALI y mae'r ysgol yn ei ardal (ond nid un ardal arall) lle bydd y rhieni'n gwneud cais amdani a lle nad yw'n gyfleus i'w plant fynychu ysgol lle defnyddir y maes llafur hwnnw, oni bai bod y corff llywodraethu yn fodlon y byddai'n afresymol gwneud darpariaeth o'r fath. Mae Deddf 1993 yn ei gwneud yn ofynnol i bennaeth ysgol o'r fath sy'n defnyddio'r maes llafur cytûn lleol i roi gwybod i'r CYSAG lleol, yn ysgrifenedig, am hyn (gweler pargraff 44.4). *a.140(3)*

*a.140(5)*

- Yn achos **ysgolion a gynhelir â grant a oedd gynt yn ysgolion gwirfoddol o dan reaolaeth**, rhaid i'r AG a gynigir gyd-fynd â maes llafur cytûn lleol unrhyw AALI yng Nghymru. *Deddf Addysg 1993 a.139(2)(b) & 142 a.139(2)(a) & (3)*

  - Er hynny, os ceir cais oddi wrth y rhieni, dylid trefnu darparu AG ar gyfer eu plant yn unol ag unrhyw weithred ymddiriedolaeth neu â'r arferion a ddilynid cyn i'r ysgol ddechrau cael ei chynnal â grant.

- Yn achos **ysgolion a gynhelir â grant a oedd gynt yn ysgolion sirol neu sydd newydd eu sefydlu o dan adran 48 Deddf 1993 neu o dan adran 49 Deddf 1993 heb ddarpariaeth ar gyfer AG**, rhaid i'r AG a gynigir gyd-fynd â maes llafur cytûn lleol unrhyw AALI yng Nghymru. *Deddf Addysg 1993 a.138 & 142*

**Y maes llafur cytûn lleol**

24. Mae'r gweithdrefnau ar gyfer paraoti a gweithredu maes llafur cytûn lleol ar gyfer AG, neu ar gyfer ail-ystyried maes llafur cytûn lleol presennol, wedi'u nodi yn Atodlen 5 Deddf Addysg 1944, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Diwygio Addysg 1988 a Ddeddf Addysg 1993. Gwelir cyfieithiad o Atodlen 5 yn ei ffurf ddiwygiedig yn Atodlen F. Nid yw nodweddion allweddol y weithdrefn ynglŷn â meysydd *Deddf Addysg 1993 atodlen 5* *Deddf Addysgt 1993 a.15*

llafur cytûn wedi'u newid, er nod cyfansoddiad cynhadledd wedi'i newid gan Ddeddf 1993 er mwyn adlewyrchu'r twf yn niferoedd ysgolion a gynhelir â grant a'r cynnydd yn eu hymreolaeth. Gwelir manylion cyfansoddiad cynhadledd ym mharagraff 102.

25. Mater i'r AALI yw cynnull cynhadledd maes llafur er mwyn adolygu maes llafur. Yn ogystal â'r AALI, gall CYSAG hefyd chwarae rhan yn y broses o benderfynu pryd a sut y dylid adolygu maes llafur cytûn lleol. Os bydd y ddau grŵp ar CYSAG (heblaw'r rhai sy'n cynrychioli'r AALI neu, lle bo'n berthnasol, ysgolion a gynhelir â grant) yn gofyn yn ysgrifenedig i'r AALI ail-ystyried ei faes llafur cytûn, rhaid iddo gynnull cynhadledd at y diben hwnnw. Gan hynny mae unrhyw benderfyniad a ddylid ei gwneud yn ofynnol i'r AALI adolygu'r maes llafur cytûn ai beidio yn parhau, fel ar hyn o bryd, i gael ei gyfyngu i benderfyniad ar y cyd gan y grwpiau sy'n cynrychioli'r enwadau Cristnogol a chrefyddau eraill ac athrawon ar CYSAG.

*Deddf Diwygio Addysg 1988 a.11(1) a.11(7)*

**Gofyniad newydd i adolygu meysydd llafur cytûn y cytunwyd arnynt cyn 1988**

26. Mae Deddf 1988 yn ei gwneud yn ofynnol i bob maes llafur "adlewyrchu'r ffaith mai Cristnogol yn bennaf yw traddodiadau crefyddol Prydain Fawr, gan gymryd i ystyriaeth ddysgeidiaeth ac arferion y prif grefyddau eraill a gynrychiolir ym Mhrydain Fawr". Er hynny, nid yw'n ei gwneud yn ofynnol i unrhyw AALI adolygu ei hen faes llafur. Mae Deddf Addysg 1993 yn diwygio Atodlen 5 Deddf 1944:

*Deddf Diwygio Addysg 1988 a.8(3)*

- iw gwneud yn ofynnol i unrhyw AALI sydd heb fabwysiadu maes llafur newydd ers Medi 1988 gynnull cynhadledd maes llafur cytûn at y diben hwnnw cyn pen deuddeg mis ar ôl i adran 256 y Ddeddf honno gychwyn – hy erbyn 1 Ebrill 1995.

*Deddf Addysgt 1944 Atodlen 5 paragraff 12 Deddf Addysg 1993 a.256*

27. Ni chaiff AALI weithredu maes llafur cytûn lleol a argymhellir gan bob un o'r 3, neu'r 4, o bwyllgorau Cynhadledd ond os ymddengys i'r awdurdod ei fod yn cydymffurfio â gofynion adran 8(3) Deddf 1988.

*Deddf Addysg 1944 Atodlen 5 paragraff 12 Deddf Addysg 1988 a.8(3)*

28. Dylai AALI roi gwybod i'r Ysgrifennydd Gwladol pan gytunir ar faes llafur newydd.

**Adolygu'r maes llafur AG bob pum mlynedd**

29. Mae Deddf 1993 hefyd yn diwygio Atodlen 5 Deddf 1944 i'w gwneud yn ofynnol i bob AALI gychwyn adolygiad o'i

*Deddf Addysg 1944 Atodlen 5 paragraffau 12 &*

faes llafur cytûn lleol cyn pen pum mlynedd ar ôl yr adolygiad diwethaf, ac wedyn bob pum mlynedd ar ôl i bob adolygiad pellach gael ei gwblhau. *13*

**Pŵer yr Ysgrifennydd Gwladol i ymyrryd mewn adolygiad o faes llafur AG**

30. O dan Atodlen 5 Deddf 1944, caiff yr Ysgrifennydd Gwladol ymyrryd lle bydd AALI: *Deddf Addysg 1944 Atodlen 5 paragraffau 13(4), 10 & 11*

1. yn methu â gweithredu maes llafur cytûn newydd a argymhellwyd yn unfrydol gan Gynhadledd; neu

2. yn dweud wrtho fod Cynhadledd wedi methu â chyrraedd cytundeb unfrydol.

Lle byddai gan yr Ysgrifennydd Gwladol unrhyw reswm dros gredu bod AALI yn ymddwyn yn afresymol ynglŷn â'r adolygiad o faes llafur cytûn gan gynhadledd, byddai ei bwerau o dan adrannau 68 a 99 Deddf 1944 yn gymwys. *a.68 & 99*

**Cynnwys AG**

31. Mae Deddf Diwygio Addysg 1988 yn ei gwneud yn ofynnol i bob maes llafur newydd, hy y rhai ar 29 September, must "reflect the fact that the religious traditions in Great Britain are in the main Christian whilst taking account of the teaching and practices of the other principal religions represented in Great Britain". *Deddf Addysg 1988 a.8(3)*

32. Mae'r gyfraith wedi dwued erioed for rhaid i feysydd llafur cytûn beidio â bod yn enwadol. Felly, rhaid iddynt beidio â'i gwneud yn ofynnol addysgu drwy defnyddio unrhyw gatecism neu fformwlari sy'n nodweddu unrhyw enwad crefyddol arbennig. Nid yw addysgu am gatecism neu fformwlari penodol, er engrhaifft fel rhan o astudiaeth gymharol, wedi'i wahardd. Rhaid peidio â chynllunio meysydd llafur i droi disgyblion, nac i annog disgyblion i ymgymryd â chrefydd neu gredo crefyddol penodol. *Deddf Addysg 1944 a.26(2)*

33. Rhaid i faes llafur fod yn ddigon manwl i sicrhau ei fod yn bodloni gofynion adran 8(3) Deddf 1988 a roddir ym mharagraff 31. Nid yw'n ddigonol i addysgu sy'n dilyn y maes llafur allu bodloni gofynion y Ddeddf – rhaid i'r maes llafur gael ei ysgrifennu mewn ffordd sy'n sicrhau y bydd addysgu sy'n dilyn y maes llafur yn cyd-fynd â'r Ddeddf. Ni ellir peri bod maes llafur nad yw ar ei ben ei hun yn bodloni'r gofynion cyfreithiol yn gwneud hynny drwy ychwanegu llawlyfr sydd heb ei gytuno fel rhan o'r maes

llafur hwnnw gan y gynhadledd.

34. Effaith y darpariaethau yn Neddf 1988 yw bod rhaid i faes llafur gael ei seilio ar Gristnogaeth a'r prif grefyddau eraill a gynrychiolir yn y wlad hon ac ar eu traddodiadau, eu harferion a'u dysgeidiaeth grefyddol. Dylai'r maes llafur nodi nifer y crefyddau, yn ychwanegol at gristnogaeth, y dylid cyfeirio atynt ym mhob cyfnod allweddol, a dylai sicrhau bod y rhaglenni astudio'n darparu ar gyfer dilyniant a datblygiad priodol yng ngwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion o'r crefyddau hynny. Er hynny, nid yw hyn yn golygu bod rhaid addysgu pob crefydd yr un mor dwfn na bod rhaid addysgu pob un ohonynt ym mhob cyfnod allweddol.

*Deddf Diwygio Addysg 1988 a.8(3)*

35. Ar y cyfan ac ym mhob cyfnod allweddol, dylai'r cynnwys cymharol a neilltuir ar gyfer Cristnogaeth yn y maes llafur fod yn fwy na'r gweddill. Hefyd rhaid i'r maes llafur yn ei gyfanrwydd gynnwys yr holl brif grefyddau a gynrychiolir yn y wlad. Yn y cyd-destun hwn, dyali'r union gydbwysedd rhwng Cristnogaeth a chrefyddau eraill gymryd i ystyriaeth y sefyllfa genedlaethol a lleol. Wrth ystyried hyn, dylid cymryd i ystyriaeth y boblogaeth ysgol leol a dymuniadau rhieni lleol, gyda golwg ar leihau gymaint â phosibl ar y nifer a allai ymarfer yr hwal i dynnu eu plant yn ôl o wersi AG.

36. Ym marn yr Adran ni ddylid cyfyngu'r maes llafur i wybodaeth am grefyddau a thraddodiadau, arferion a dysgeidiaeth grefyddol, ond dylai ymestyn mewn cyd-destun crefyddol i feysydd ehangach moesoldeb, gan gynnwys y ffordd y mae credoau ac arferion crefyddol pobl yn effeithio ar eu dealltwriaeth o faterion moesol a chanlyniadau eu hymddygiad ar y teulu a'r gymdeithas.

37. Er bod cynnwys AG yn cael ei benderfynu'n lleol, yn ddarostyngedig i statudau, ac er nad oes targedau cyrhaeddiad a rhaglenni astudio a bennwyd yn genedlaethol ar ei chyfer, gall Cynhadledd maes llafur cytûn argymhell cynnwys targedau cyrhaeddiad, rhaglenni astudio a threfniadau asesu mewn ffurf y penderfynir arni yn lleol yn eu cynigion [4]

**Deunydd enghreiffitol**

38. Mae rhywfaint o ddeunyddiau ar gael i helpu Cynhadledd Maes Llafur Cytûn yn eu gwaith:

[4] Gweler canllawiau'r cyn Gyngor Cwricwlwm Cymru "Bwletin Cwricwlwm Rhif 5, Addysg Grefyddol 5-16 yng Nghymru", Gorffenaf 1991, sydd ar gael oddi wrth Awdurdod Cwricwlwm ac Asesu Cymru yr Adeiladau'r Castell, Stryd Womanby, Caerdydd.

- Bwletin Rhif 5 Cyngor Cwricwlwm Cymru (CCC) "Addysg Grefyddol 5-16 yng Nghymru" Gorffenaf 1992 ar gael oodi wrth ACAC

Yn ogystal, mae'r canlynol ar gael oddi wrth yr Awdurdod Cwricwlwm ac Asesu Ysgolion, Newcombe House, 45 Notting Hill Gate, Llundain W11 3JB.

- Enghreifftiau Cenedlaethol o Feysydd Llafur Cytûn

- Rhestr gyfeirio amlinellol ar gyfer maes llafur cytûn a baratowyd gan Gyngor y Cwricwlwm Cenedlaethol, fel rhan o ddadansoddiad o feysydd llafur cytûn.

**Amser ar gyfer AG**

39. Wrth lunio maes llafur cytûn, dylai cynhadledd gymryd yn ganiataol y bydd pennaeth a'r corff llywodraethu yn trefnu bod amser rhesymol ar gael ar gyfer astudio AG. Er y dylent gymryd i ystyriaeth bwysau gofynion addysgol eraill ar yr ysgol, dylai cynadleddau sicrhau bod y maes llafur yn ddigon trwyadl ac yn ddigon dwfn. Hwyrach y bydd o gymorth iddynt nodi'r rhagdybiaethau a wnaed yn adroddiad terfynol CCC ar y Cwricwlwm Cenedlaethol ynglŷn â'r amser i'w ganiatau ar gyfer AG. Mae argymhellion yr adroddiad yn cymryd yn ganiataol y dyali 36 awr y flwyddyn gael eu dyrannu i AG yng nghyfnod allweddol 1-3; a rhyw 5% o gyfanswm amser y cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 4. Mater i bob ysgol benderfynu arno, wrth gwrs, yw'r union amser a ddyrenir ar gyfer AG.

**TGAU a'r meysydd Llafur Cytûn**

40. Pan fydd cynhadledd yn llunio maes llafur cytûn, dyali gymryd i ystyriaeth anghenion disgyblion Cyfnod Allweddol 4 sy'n dymuno cymryd TGAU mewn astudiaethau crefyddol. Gan ei bod yn ofynnol i bob disgybl ddilyn maes llafur cytûn yn y cyfnod hwn, bydd yn ddefnyddiol cynllunio meysydd llafur i fod yn gydnaws, cyn belled â phosibl, â chyrsiau TGAU. Fel arall, bydd yn rhaid i ysgolion ddarparu addysg grefyddol i ddisgyblion o'r fath yn ogystal â'r cwrs TGAU.

*Deddf Diwygio Addysg 1988 a.5*

Rhaid i bob cymhwyster TGAU (a chymwysterau allanol eraill), a'r meysydd llafur sy'n gysylltiedig â hwy, gael eu cymeradwyo. Mae'r trefniadau ar gyfer cymeradwyo

cymwysterau wedi'u nodi yng Nghylchlythyr 37/93. [5] Ym Mehefin 1993 cyhoeddodd y Cyngor Arholiadau ac Asesu Ysgolion feini prawf diwygiedig ynglŷn â chymeradwyo cyrsiau TGAU mewn Astudiaethau Crefyddol. [5]

42. Mae'n agored i gynadleddau ddyfeisio eu meysydd llafur eu hunain ar gyfer TGAU a cheisio cymeradwyaeth ar eu cyfer, annog datblygu meysydd llafur newydd i fodloni gofynion penodol. Lle bydd cynhadledd yn dymuno hybu maes llafur newydd, dylai ymgynghori â'r Awdurdod Cwricwlwm ac Asesu Ysgolion (ACAY) neu â Grŵp Arholi TGAU. Rhaid i'r meini prawf a'r meysydd llafur ar gyfer TGAU a chyrsiau eraill sy'n arwain at gymwysterau i ddisgyblion o oedrn ysgol gorfodol gael eu hadolygu a'u cymeradwyo gan ACAY a gallant newid o bryd i'w gilydd.

**AG ar ôl 16, Arholiadau a'r Maes Llafur Cytûn**

43. Rhaid i faes llafur cytûn lleol gynnwys yr holl ddisgyblion cofrestredig mewn chweched dosbarthiadau yn yr ysgol. Mae'n bosibl y bydd rhai o'r disgyblion hyn yn dymuno cymryd arholiadau mewn Astudiaethau Crefyddol a bydd yn defnyddiol cynllunio meysydd llafur cytûn i fod yn gydnaws, cyn belled â phosibl, â chymwysterau safon A ac AS.

*Deddf Diwygio Addysg 1988 a.2(1)(a)*

**Yr hawl i dynnu'n ôl**

44. Nid oes dim yn Neddf Addysg 1993 yn effeithio ar hawliau rhieni, fel y'u sefydlwyd yn Neddf 1944 a'u hail-ddeddfu yn Neddf 1988, i dynnu eu plant yn ôl a AG os dymunant. I grynhoi:

*Deddf Diwygio Addysg 1988 a.9(3)*

1. os bydd y rhiant yn gofyn i ddisgybl gael ei esgusodi'n gyfan gwbl neu'n rhannol rhag mynychu unrhyw AG yn yr ysgol, yna rhaid i'r ysgol gydymffurfio;

   *Deddf Diwygio Addysg 1988 a.9(3)*

2. fe all disgybl, os bydd y rhiant yn gofyn, gael ei dynnu'n ôl o adeiladau'r ysgol i gael AG mewn man arall, cyhyd ag y bo'r AALI, neu yn achos ysgol a gynhelir â grant, y corff llywodraethu, yn fodlon na fydd hyn yn ymyrryd â phresenoldeb y plentyn yn yr ysgol heblaw ar ddechrau neu ar ddiwedd unrhyw sesiwn ysgol;

   *Deddf Diwygio Addysg 1988 a.9(4)*

   *a.9(6)*

3. os bydd rhiant disgybl sy'n mynychu ysgol sirol a

[5] Cylchlythyr 37/93 – The Education Reform Act 1988: Statutory Approval of Qualifications under Section 5 (sy'n disodli Cylchlythyr 26/92). Ar gael oddi wrth Adran Cwricwlwm Ysgolion 3, Y Swyddfa Gymreig, Yr Adran Addysg, Rhan II, Adeiladau'r Llywodraeth, Heol Tŷ Glas, Llanishen, Caerdydd CF4 5WE.

gynhelir gan AALI neu ysgol gyfatebol a gynhelir â grant am iddo ef neu iddi hi gael AG yn unol â daliadau enwad crefyddol arbennig ac nad oes modd ei darparu'n gyfleus mewn man arall, mae'n ofynnol i'r AALI neu i'r corff llywodraethu, yn achos ysgol a gynhelir â grant, ganiatau addysg o'r fath o fewn yr ysgol ar yr amod nad yw'n credu y byddai'n afresymol gwneud oherwydd amgylchiadau arbennig, ac nid oes rhaid iddynt dalu'r gost. *Deddf Addysg 1944 a.26(3) & (4)*

4. lle bydd rhiant i blentyn sy'n mynychu ysgol a gynorthwyir a gynhelir gan AALI neu ysgol gyfatebol a gynhelir â grant yn dymuno i'r plentyn hwnnw gael AG yn unol â'r maes llafur cytûn ac nad yw'n gyf;eus i'r plentyn fynychu ysgol lle mae'r maes llafur hwnnw yn cael ei ddefnyddio, rhaid i'r llywodraethwyr (neu, yn achos ysgolion a gynhelir gan AALI, os ydynt yn anfodlon gwneud, yr AALI) wneud trefniadau addas oni bai eu bod hwy (neu'r AALI) yn credu y byddai amgylchiadau arbennig yn ei gwneud yn afresymol gwneud (gweler paragraff 23). *Deddf Addysg 1944 a.28 (1B) & (1C)*

45. Mae ysgol yn parhau i fod yn gyfrifol am oruchwylio unrhyw blentyn a dynnir yn ôl gan ei riant o AG, oni bai bod y plentyn yn gyfreithiol yn cael addysg grefyddol mewn man arall (paragraff 44.2) *Deddf Diwygio Addysg 1988 a.9(4).*

**Ymarfer yr hawl i dynnu'n ôl**

46. Dylai hawl rhieni i dynnu yn ôl rhag cael AG fod yn hawdd i'w hymarfer a rhaid i ysgol weithredu unrhyw gais o'r fath. Nid yw'n ofynnol i rieni ddweud eu rhesymau dros geisio tynnu plentyn yn ôl.

47. Nid yw'r gyfraith yn pennu sut y dylai addysg grefyddol gael ei haddysgu neu ei threfnu yn yr ysgolion. Er hynny dylai AALI ac ysgolion gadw mewn cof fod rhaid i'r ffordd o drefnu AG adlewyrchu'r ddyletswydd i addysgu'r maes llafur cyta gynorthwyir a gynhelir gan AALI neu ysgol gyfatebol a gynhelir â grant yn dymuno i'r plentyn hwnnw gael AG yn unol â'r maes llafur cytûn neu'r hyn a ddarperir yn unol â gweithred ymddiriedolaeth, a bod rhaid galluogi rhieni i ymarfer eu hawliau i ofyn i'w plentyn gael ei esgusodi rhag AG. Ni ddylai hyn achosi problemau os addysgir AG fel pwnd ar wahân; ond bod angen gofal arbennig i sicrhau y gall rhieni ymarfer yr hawl hon lle bydd ysgolion, gan gynnwys ysgolion cynradd, yn addysgu AG ar ffurf integredig ar y cyd â phynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol (nad oes hawl i dynnu plentyn yn ôl *Deddf Diwygio Addysg 1988 a.9(3)*

rhagddynt).

48. Fe fydd achlysuron pan fydd ymholiadau digymell a wneir gan ddisgyblion ar faterion crefyddol yn codi mewn meysydd eraill yn y cwricwlwm. Bydd yr amgylchiadau'n amrywio, ond mae'n annhebygol y bydd ymatebion i ymholiadau o'r fath yn gyfystyr ag AG o fewn ystyr y ddeddfwriaeth ac ni allai rhiant fynnu bod plentyn yn cael ei dynnu'n ôl bob tro y câi materion yn ymwneud â chrefydd a gwerthoedd ysbrydol eu codi.

49. Er mwyn osgpoi camddealltwriaeth, mae profiad yn awgrymu y gall fod yn ddefnyddiol i bennaeth sefydlu gydag unrhyw riant sy'n dymuno ymarfer yr hawl i dynnu'n ôl:

- y materion crefyddol y byddai'r rhiant yn gwrthwynebu iddynt gael eu haddysgu i'w blentyn;
- goblygiadau ymarferol tynnu'r plentyn yn ôl;
- o dan ba amgylchiadau y gellir yn rhesymol ddisgwyl i'r ysgol fodloni dymuniadau'r rhieni (paragraff 48); ac
- a fydd ar y rhaint angen rhybudd ymlaen llaw am AG o'r fath, ac, os felly, faint.

## Cydaddoli

### Nodau

50. Dyali cydaddoli yn yr ysgolion anelu at gynnig cyfle i ddisgyblion addoli; ystyried materion ysbrydol a moesol ac archwilio eu credoau eu hunain; at annog disgyblion i gymryd rhan ac i ymateb, boed drwy ymwneud â chyflwyno'r addoliad neu drwy wrando, gwylio ac ymuno yn yr addoliad a gynigir; ac at ddatblygu ysbryd cymunedol, hybu ethos cyffredin a gwerthoedd cyffredin, ac atgyfnerthu agweddau cadarnhaol.

### Cyfrifoldeb dros ddarparu cydaddoliad dyddiol

51. Dylai pob disgybl cofrestredig (paragraff 11) sy'n mynychu ysgol a gynhelir gymryd rhan mewn cydaddoliad dyddiol (gweler paragraffau 82-87 ynghylch hawl rhieni i dynnu eu plant yn ôl). Gwelir cyfieithiad o'r ddeddfwriaeth berthnasol yn Atodiad G. *Deddf Diwygio Addysg 1988 a.6(1)*

52. Dyletswydd y pennaeth yw sicrhau hyn. Rhaid hefyd i'r corff llywodraethu neu, yn achos ysgolion a gynhelir gan AALI, i'r corff llywodraethu a'r AALI, ymarfer eu swyddogaethau gyda golwg ar sicrhau hyn. *Deddf Diwygio Addysg 1988 a.10(1)(a)*

53. Mae'r cyfrifoldeb dros drfenu cydaddoli yn nwylo:

- y corff llywodraethu, ar ôl ymgynghori â'r pennaeth, mewn ysgol wirfoddol neu ysgol gyfatebol a gynhelir â grant;
- y pennaeth, ar ôl ymgynghori â'r corff llywodraethu, mewn unrhyw ysgol arall.

### Trefniadaeth cydaddoli

54. Yn ddarostyngedig i'r hawl i dynnu plant yn ôl (paragraffau 82-87 isod), bwriedir i gydaddoli fod yn briodol ar gyfer yr holl ddisgyblion sy'n mynychu ysgol a'u cynnwys.

55. Gall amser a threfniadaeth y cydaddoliad dyddiol fod yn ystwyth. Nid oes angen ei gynnal ar ddechrau'r diwrnod ysgol. Gellir cael un addoliad i bob disgybl neu addoliadau gwahanol i ddisgyblion mewn gwahanol grwpiau oedran neu mewn gwahanol grwpiau ysgol. At y diben hwn, ystyr "grŵp ysgol" yw unrhyw grŵp, neu gyfuniad o grwpiau yr addysgir y disgyblion ynddynt neu y bydd y disgyblion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ysgol eraill ynddynt; *Deddf Diwygio Addysg 1988 a.6(2)* *a.6(7)*

nid yw'n golygu grŵp sy'n adlewyrchu credoau crefyddol penodol, y gellir gwneud darpariaeth wahanol ar ei gyfer (paragraffau 68-74).

56. Fel rheol, dyali pob cydaddoliad ddigwydd yn adeiladu'r ysgol. Er hynny, mae gan gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir â grant ac ysgolion a gynorthwyir ddisgresiwn i drefnu cydaddoliad mewn mannau eraill ar achlysuron arbennig. Caiff ysgolion sirol ac ysgolion a reolir sydd hefyd yn dymuno cynnal cydaddoliadau y tu allan i'r adeiladau ysgol wneud hynny hefyd, ar yr amod eu bod yn ychwanegol at y cydaddoliad statudol dyddiol sy'n dal yn gorfod cael ei gynnal yn adeiladu'r ysgol.

*Deddf Diwygio Addysg 1988 a.6(4)*

*as.6(5) & (6)*

**Ystyr cydaddoliad**

57. Ni ddiffinnir "addoliad" yn y deddfwriaeth ac yn absenoldeb unrhyw ddiffiniad o'r fath dylid cymryd yn ganiataol fod ganddo ei ystyr naturiol a chyffredin. , hynny yw, rhaid iddo mewn rhyw ffordd adlewyrchu rhywbeth sy'n arbennig neu'n wahanol i weithgareddau arferol yr ysgol a dylai ymwneud â'r parch neu'r addoliad a gynigir i fod neu bŵer duwiol. Er hynny, bydd addoliad mewn ysgolion o reidrwydd o fater gwahanol i addoliad ymhlith grŵp sydd â chredoau yn gyffredin. Mae'r ddeddfwriaeth yn adlewyrchu'r gwahaniaeth hwn drwy gyfeirio at "gydaddoliad" yn hytrach nag "addoliad corfforaethol".

*Deddf Diwygio Addysg 1988 a.6(1)*

58. Mae cydaddoli ac ymgynnull yn weithgareddau ar wahân. Er eu bod hwyrach yn digwydd fel rhan o'r un cynulliad, dylai'r gwahaniaeth rhwng y ddau fod yn glir. Er hynny, gall cydaddoliad fod yn gysylltiedig â bywyd dyddiol, dyheadau a ddiddordebau'r ysgol.

59. Mae "cymryd rhan" mewn cydaddoliad yn awgrymu mwyn na bod yn bresennol yn unig. Dylai'r addoliad a ddarperir fod yn un y mae modd i'r disgyblion ymateb iddo yn ôl eu cefndir teuluol, oedran, a gallu, er na fyd rhai o'r ddisgyblion ar adegau yn teimlo eu bod yn gallu uniaethu â'r addoliad.

*Deddf Diwygio Addysg 1988 a.6(1)*

**Cymeriad cydaddoliad (heblaw mewn ysgolion gwirfoddol a gynhelir gan AALI ac ysgolion cyfatebol a gynhelir â grant)**

60. Yng ngholeuni traddodiadau Cristnogol Prydain Fawr, dywed adran 7(1) Deddf Diwygio Addysg 1988 (ac adran gyfatebol Deddf Addysg 1993) fod rhaid i'r cydaddoliad a drefnir gan ysgol sirol neu ysgol gyfatebol a gynhelir â grant

*Deddf Diwygio Addysg 1988 a.7(1) & Deddf Addysg 1993 a.138(2) a.138(3)*

fod "yn gyfan gwbl neu'n bennaf yn gyffredinol Gristnogol ei gymeriad".

61. Ymhellach, mae'r Ddeddf yn diffinio cydaddoliad "cyffredinol Gristnogol eu cymeriad, addoliadau sy'n adlewyrchu traddodiadau bras cred Gristnogol. Serch hynny, ni ddylai unrhyw addoliad o'r fath fod yn nodweddiadol o un enwad Cristngol arbennig ar wahân. *Deddf Diwygio Addysg 1988 a.7(2) a Deddf Addysg 1993 a.138(3)*

62. Mae'n agored i ysgol gynnal addoliadau sy'n gyfan gwbl yn gyffredinol Gristnogol eu cymeriad, addoliadau sy'n gyffredinol yn nhraddodiad crefydd arall, ac addoliadau sy'n cynnwys elfennau a dynnir o sawl fydd wahanol. Mae ardan 7(3) y Ddeddf yn cymhwyso adran 7(1) trwy ddarparu fod rhaid i'r rhan fwyaf o addoliadau o fewn pob tymor ysgol fod yn gyfan gwbl neu'n bennaf yn gyffredinol Gristnogol eu cymeriad, ond nid oes rhaid i bob addoliad fod fel hynny (gweler paragraff 123). Felly, ni waeth beth yw'r pendergyniad ynghylch addoliadau unigol, rhaid i'r rhan fwyaf o'r addoliadau dros dymor fod yn gyfan gwbl neu'n bennaf yn gyffredinol Gristnogol eu cymeriad. *Deddf Diwygio Addysg 1988 a.7(3) ac (1) a Deddf Addysg 1993 a.138(4)*

63. Ar yr amod bod addoliad, sydd, at ei gilydd, yn gyffredinol Gristnogol yn adlewyrchu traddodiadau'r ffydd Gristnogol, nid oes rhaid iddo gynnwys deunydd Cristnogol yn unig. Bernir bod adran 7(1) yn caniatáu rhywfaint o elfennau anghristnogol yn y cydaddoliad heb fod hynny'n ei amddifadu o'i gymeriad cyffredinol Gristnogol. Ni fyddai cynnwys elfennau sy'n gyffredin i Gristnogaeth ac un neu ragor o grefyddau eraill yn ei amddifadu o'r cymeriad hwnnw ychwaith. Er hynny, rhaid iddo gynnwys rhai elfennau sy'n ymwneud yn benodol â thraddodiadau'r gred Gristnogol ac sy'n rhoi statws arbennig i lesu Grist. *Deddf Diwygio Addysg 1988 a.7(1) a Deddf Addysg 1993 a.138(2)*

64. Dylai graddau a dulliau adlewyrchu traddodiadau cyffredinol y gred Gristhogol mewn cydaddoliadau o'r fath fod yn briodol i gefndir teuluoedd y disgyblion a'u hoedran a'u gallu. Mater i'r pennaeth yw penferfynu ar hyn ar ôl ymgynghori â'r corff llywodraethu.

65. Dylai disgyblion nad ydynt yn bod o deuluoedd Cristnogol allu ymuno yn y cydaddoliad dyddiol er y byddai hwnnw, at ei gilydd, yn adlewyrchu traddodiadadau cyffredinol y gred Gristnogol. Bwriad y gyfraith, yn ddarostyngedig i'r eithriadau a ddarperir gan adran 9 Deddf 1988 (paragraff 82 isod), yw i bob disgybl gymryd rhan mewn cydaddoli o'r fath.

66. Yn yr holl faterion hyn, rhaid i unrhyw wyriad oddi wrth y gofyniad cyffredinol Gristnogol gael ei gyfiawnhau yn *Deddf Diwygio Addysg 1988 a.7(5) a Deddf Addysg 1993*

nhermau cefndir terluol, oedran a gallu'r disgyblion o dan sylw. Dylai'r ystyriaethau hyn lywio: *a.138(6)*

1 i ba raddau na fydd unrhyw gydaddoliadau (os o gwbl) yn yr ysgol yn gyffredinol Gristnogol eu cymeriad; *Deddf Diwygio Addysg 1988 a.7(4)(a) a Deddf Addysg 1993 a.138(5)(b)*

2 i ba raddau yr adlewyrchir traddodiadau cyffredinol y gred Gristnogol yn yr addoliadau hynny sy'n gyffredinol Gristnogol eu cymeriad; a *Deddf Diwygio Addysg 1988 a.7(4)(a) a Deddf Addysg 1993 a.138(5)(b)*

3 y ffyrdd o adlewyrchu'r traddodiadau hynny. *Deddf Diwygio Addysg 1988 a.7(4)(c) a Deddf Addysg 1993 a.138(5)(c)*

67. Rhag ofn y ceir ymholiadau, awgrymir y dylai'r pennaeth sicrhau y cedwir cynlluniau'r ysgol ar gyfer cydaddoliad dyddiol, neu ryw gofnod arall.

**Eithriadau rhag cydaddoli cyffredinol Gristnogol ("penderfyniadau")**

68. Dylai'r gogynion a ddisgrifiwyd uchod (paragraffau 60-67), y dylai cydaddoliad fod yn gyfan gwbl neu'n bennaf yn gyffredinol Gristnogol ei gymeriad, fod yn briodol ar gyfer y mwtafrif o ddisgyblion ledled y wlad. Ond mae'r weithdrefn "pendergynu" yn caniatáu atal y gofynion hyn mewn perthynas â rhai neu'r cyfan o'r disgyblion mewn ysgol lle nad ydynt yn briodol. Wrth benderfynu hyn, rhaid i'r Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) roi sylw i unrhyw amgylchiadau mewn perthynas â chefndir ffydd y disgyblion sy'n berthnasol i benderfynu pa gymeriad sy'n briodol i'w cydaddoliad. *Deddf Diwygio Addysg 1988 a.7(1)a.7(6) a 12*

69. Mae Deddf 1993 yn caniatáu i unrhyw ysgol a gynhelir â grant sy'n cyfateb i ysgol sirol (h.y. y mae adran 7(1) Deddf 1988 yn gymwys iddi) wneud cais am benderfyniad o dan amgylchiadau tebyg i ysgol sirol. *Deddf Diwygio Addysg 1988 a.148*

**Gwneud cais am benderfynaid**

70. Os cred pennaeth ysgol y gallai'r gofynion ynghylch cydaddoli ym mharagraff 59 wrthdaro â'r hyn y gofynnir amdano ym mharagraff 60, gall wneud cais i'r CYSAG am godi neu addasu'r gofynion ym mharagraff 60. Cyn gwneud hynny rhaid i'r pennaeth ymhynghori â chorff llywodraethu'r ysgol, a all fod, yn eu tro, am gael barn y rhieni. *Deddf Diwygio Addysg 1988 a.12(1) a.12(1) a.12(9)*

71. Caiff cais y pennaeth ymwneud naill ai â grŵp a

ddisgrifiwyd ac a ddiffiniwyd yn eglur neu â'r ysgol gyfan. Ond cyn ystyried gwneud cais am benderfyniad mewn perthynas â'r ysgol gyfan, dylid gofalu sicrhau nad yw hyn yn torri ar draws dymuniadau unrhyw rieni i blant y byddai cydaddoliad cyffredinol Gristnogol yn briodol iddynt. Un ffactor a all fwydo penderfyniad pennaeth i wneud cais i'r CYSAG yw nifer y plant a dynnir yn ôl o gydaddoli cyffredinol Gristnogol.

72. Wrth ystyried a ddylid caniatáu cais pennaeth, rhaid i'r CYSAG sicrhau bod y penderfyniad arfaethedig wedi'i gyfiawnhau gan unrhyw amgylchiadau perthnasol sy'n ymwneud â chefndir teuluol y disgyblion o dan sylw. Pan fydd wedi gwneud penderfyniad ar y cais – penderfyniad sy'n gorfod bod yn dderbyniad nir'n wrthodiad heb addasiad – rhaid iddynt fynegi hwnnw'n ysgrifenedig i'r pennaeth gan nodi o ba ddyddiad y dylai ddod i rym.

*Deddf Diwygio Addysg 1988 a.12(2)*

*a.12(3) a (4)*

73. Daw unrhyw benderfyniad a wneir o dan y trefniadau hyn i ben ar ôl 5 mlynedd, oni bai bod y CYSAG yn ei adnewyddu. Rhaid i'r CYSAG adolygu unrhyw benderfyniad a gyflwynwyd cyn pen 5 mlynedd; ac wedyn cyn pen 5 mlynedd ar ôl pob adolygaid. Caiff y pennaeth ofyn am adolygiad cynharach ar unrhyw amser, ar ôl ymgynghori â'r corff llywodraethu. Rhaid i'r pennaeth gael cyfle i gyflwyno sylwadau mewn unrhyw adolygiad ac, yn ei dro, mae'n ofynnol iddo yntau ymgynghori â'r corff llywodraethu a all fod am obyn barn y rhieni.

*Deddf Diwygio Addyst 1988 a.12(5)(b)*

*a.12(5)(a)*
*12(6)*

74. Mater i bob CYSAG yw penderfynu sut y dylid gwneud ceisiadau, a threfnu bod unrhyw ganllawiau angenrheidiol ar gael i'r ysgolion.

*Education Reform Act 1988 s.12(10)*

**Gwybodaeth am benderfyniadau**

75. Mae'n ddymunol i bennaeth gadw cofnodion digonol i'w alluogi i ateb unrhyw ymholiad oddi wrth riant am y rhesymau dros wneud cais, neu dros beidio â gwneud cais, am benderfyniad ar gyfer grŵp o ddisgyblion. Gofynnir i CYSAG roi gwybod i'r Ysgrifennydd Gwladol bob blwyddyn am benderfyniadau a wnaed ganddynt mewn perthynas â chydaddoli Cristnogol.

**Cymeriad a threfniadaeth cydaddoli statudol amgen**

76. Mater i'r pennaeth yw penderfynu pa ffurf y bydd yr addoli amgen yn ei chymryd, er y dylid rhoi gwybod am y trefniadau arfaethedig i'r CYSAG. Bydd y pennaeth yn dymuno cymryd camau priodol i roi gwybod i'r corff llywodraethu a'r rhieni am y trefniadau newydd.

77. Lle gwneir penderfyniad o'r fath mewn perthynas â rhai neu'r cyfan o ddisgyblion yr ysgol, rhaid darparu cydaddoliad dyddiol ar eu cyfer o hyd. Lle caniatawyd penderfyniad mewn perthynas â dosbarth neu ddisgrifiad o ddisgyblion o ffydd neu grefydd argennig, gellir darparu'r cydaddoliad amgen ar gyfer y disgyblion hynny gyda'i gilydd. Ni chaiff fod yn nodweddiadol o ffydd neu grefydd arbennig. Bydd hawl o hyd gan y rhieni i dynnu eu plant yn ôl o'r cydaddoli.

*Deddf Diwygio Addysg 1988 a.7(6)(b) 9(3)*

78. Lle caniatawyd un penderfyniad ar gyfer yr ysgol gyfan, ni chaniateir rhannu'r disgyblion yn grwpiau crefydd ar gyfer addoli. Er hynny, lle nad yw'r penderfyniad yn cynnwys on d rhan o'r ysgol, neu lle caniatawyd mwy nag un pendergyniad mewn perthynas â grwpiau gwahanol o ddistyblion yn yr ysgol, gellir darparu un addoliad ar gyfer pob grŵp o ddisgyblion a gynhwysir gan un penderthniad. Lle mae grŵp o'r fath wedi'i ddiffinio mewn perthynas â chefndir crefydd y disgyblion, mae'n dilyn y gellir darparu addoliad un-grefydd ar gyfer y disgyblion o dan sylw. Wrth gwrs fe ellir is-rannu pob grŵp y gwnaed pendergyniad ar ei gyfer ymhellach yn ôl grŵp ysgol neu grŵp oedran, os credir bod hynny'n briodol (paragraff 60 uchod).

79. Ni ddylid cymryd bod hyn yn awgrymu y gylid neu na ddylid darparu addoliadau yn ôl grwpiau crefydd. Er hynny mae'r trefniadau a nodwyd uchod wedi'u caniatáu gan Ddeddf 1988 os bernir bod hyn yn briodol.

**Pŵer yr Ysgrifennydd Gwladol i gyfarwyddo CYSAG i ddiddymu penderfyniad neu i gyflawni dyletswydd**

80. Mae Deddf Addysg 1993 yn diwygio Deddf 1988 ac o ganlyniad, lle bo'r Ysgrifennydd Gwladol yn fodlon, naill ai os ceir cwyn gan unrhyw berson neu fel arall, fod unrhyw CYSAG:

*Deddf Diwygio Addysg 1988 a.12(a)*

1 wedi gweithredu, neu'n bwriadu gweithredu, yn afresymol wrth benderfynu a yw'n briodol i'r gofyniad ynghylch cydaddoli Cristnogol fod yn gymwys yn achos ysgol neu grŵp o ddisgyblion; neu

2 wedi methu â chyflawni eu dyletswydd yn hyn o beth;

mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol bŵer i gyfarwyddo'r CYSAG i ddiddymu'r penderfyniad, i dynnu'r penderfyniad arfaethedig yn ôl, neu, yn ôl y digwydd, i gyflawni eu dyletswydd.

**Cymeriad cydaddoli mewn ysgolion gwirfoddol a gynhelir han AALI ac ysgolion cyfatebol a gynhelir â grant**

81. Y corff llywodraethu a fydd yn parhau i benderfynu ar gymeriad a chynnwys cydaddoliadau mewn unrhyw ysgol wirfoddol a gynhelir gan AALI neu unrhyw ysgol gyfatebol a gynhelir â grant.

*Deddf Diwygio Addysg 1988 a.6(3)(b)*

**Yr hawl i dynnu'n ôl**

82. Nid oes dim yn Neddf Addysg 1993 sy'n effeithio ar hawliau rhieni, fel y'u sefydlwyd yn Neddf 1944 a'u hail-ddeddfu yn Neddf 1988, i dynnu eu plant yn ôl o gydaddoli os dymunant. I grynhol:

*Deddf Diwygio Addysg 1988 a.9(3)*

1 ni all fod yn amod mynychu unrhyw ysgol a gynhelir fod plentyn yn mynychu, neu'n peidio â mynychu, unrhyw ysgol Sul neu fan addoli;

*Deddf Diwygio Addysg 1988 a.9(1)*

2 os bydd y rhiant yn gofyn i ddisgybl gael ei esgusodi'n gyfan gwbl neu'n rhannol rhag mynychu unrhyw addoliad crefyddol yn yr ysgol, yna rhaid i'r ysgol gydymffurfio. Mae hyn yn cynnwys addoliadau amgen a ddarperir gan ysgol o ganlyniad i benderfyniad gan CYSAG;

*Deddf Diwygio Addysg 1988 a.9(3)*

3 lle bydd rhiant unrhyw ddisgybl sy'n breswyliwr mewn ysgol a gynhelir yn gwneud cais i'r disgybl gael mynychu addoliadau yn unol â daliadau enwad crefyddol arbennig ar ddydd Sul neu ddyddiau cysegredig eraill, neu gael addysg grefyddol yn unol â'r daliadau hynny y tu allan i oriau ysgol, rhaid i gorff llywodraethu'r ysgol wneud trefniadau i roi cyfleoedd rhesymol i'r disgybl wneud hynny. Gellir darparu ar gyfer y trefniadau hyn yn adeiladau'r ysgol, ond ni chânt gynnwys gwariant gan yr AALI neu, yn achos ysgol a gynhelir â grant, gan ei chorff llywodraethu.

*Deddf Diwygio Addysg 1988 a.9(7) a.9(8)*

83. Mae ysgol yn parhau i fod yn gyfrifol am oruchwylio unrhyw blentyn a dynnir yn ôl gan ei riant o gydaddoli.

**Ymarfer yr hawl i dynnu'n ôl**

84. Dylai fod yn rhwydd ymarfer hawl rhiant i dynnu plentyn yn ôl rhag mynychu cydaddoliadau a rhaid i ysgol weithredu unrhyw gais o'r fath. Nid yw'n ofynnol i rieni ddatgan eu rhesymau dros geisio tynnu'n ôl.

85. Fel rheol câi'r hawl i dynnu disgybl yn ôl o gydaddoli ei hymarfer drwy dynnu'r disgybl yn gorfforol o'r fan lle y mae'r addoliad yn digwydd. Yn wir fe allai'r ysgol fynnu mai dyma'r ffordd i weithredu'r hawl. Er hynny, os bydd yr ysgol a'r rhiant yn cytuno y dylid caniatáu i'r disgybl fod yn gorfforol bresennol yn ystod y cydaddoliad heb gymryd rhan ynddo, nid oes dim yn y gyfraith yn atal hynny.

86. I osgoi camddealltwriaeth, mae profiad yn awgrymu y bydd yn ddefnyddiol i bennaeth sefydlu gydag unrhyw riant sydd am ymarfer yr hawl i dynnu plentyn yn ôl:

- yr elfennau o addoli y byddai'r rhiant yn gwrthwynebu i'r plentyn gymryd rhan ynddynt.
- goblygiadau ymarferol tynnu'r plentyn yn ôl;
- a fydd y rhiant yn gofyn am unrhyw rybudd ymlaen llaw am yr addoliad hwnnw, ac os felly, faint.

**Addoli amgen i ddisgyblion sydd wedi'u tynnu'n ôl**

87. Nid oes dim yn y ddeddfwriaeth sy'n atal unrhyw ysgol a gynhelir rhag caniatáu, yn ôl cais y rhieni a lle maent wedi tynnu disgyblion yn ôl o ddarpariaeth ststudol, i addysg grefyddol gael ei darparu neu i addoliad crefyddol ddigwydd yn ôl ffydd neu enwad arbennig. Dylai cyrff llywodraethu a phenaethiaid geisio ymateb yn gadarnhaol i geisiadau o'r fath oddi wrth rieni:

1 oni bai y byddai'n golygu bod addoli enwadol yn cymryd lle'r cydaddoli anenwadol statudol;

2 ar yr amod y gellir gwneud trefniadau o'r fath heb gost ychwanegol i'r ysgol; a

3 ar yr amod y byddai'r ddarpariaeth amgen yn gyson â dibenion cyffredinol cwricwlwm yr ysgol a nodwyd yn adran 1 Deddf 1988.

## Cyrff Lleol: Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) a Chynadleddau Meysydd Llafur Cytûn

88. Mae ar bob AALI ddylestswyddau statudol i sefydlu:

1 corff parhaol, o'r enw Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG), i gynghori'r AALI ar faterion yn ymwneud â darparu AG a chydaddoli; a — *Deddf Diwygio Addysg 1988 a.11*

2 corff achlysurol y mae'n rhaid ei gynnulli i gynhyrchu ac i argymell maes llafur cytûn ar gyfer AG, o'r enw cynhadledd maes llafur cytûn. — *Deddf Diwygio Addysg 1944, atodlen 5*

**Swyddogaeth CYSAG**

89. Prif swyddogaeth CYSAG yw:

'cynghori'r awdurdod ar y cyfryw faterion sy'n gysylltiedig ag addoli crefyddol mewn ysgolion sirol ac â'r addysg grefyddol sydd i'w rhoi yn unol â maes llafur cytûn ag y bydd yr awdurdod yn eu cyfeirio at y cyngor neu ag y gwêl y cyngor yn dda'. — *Deddf Diwygio Addysg 1988 a.11(1)(a)*

Mae hefyd

- yn gallu ei gwneud yn ofynnol i'r AALI adolygu eu maes llafur cytûn presennol (paragraff 25); a — *a.11(7)*
- rhaid iddo ystyried ceisiadau gan bennaeth, na fydd y gofyniad bod cydaddoli mewn ysgolion sirol yn gyfan gwbl neu'n bennaf yn gyffredinol Gristnogol ei gymeriad yn gymwys i'r cydaddoli a ddarperir ar gyfer rhai neu'r cyfan o'r disgyblion mewn ysgol benodol (paragraffau 70 74).4). — *a.12(1)*

90. Swyddogaeth fras CYSAG yw cefnogi darpariaeth effeithiol AG a chydaddoli yn yr ysgolion. Dylai pob AALI weithio gyda'i CYSAG i adolygu'r ddarpariaeth bresennol ar gyfer AG ac ystyried gyda'r CYSAG a oes angen gwneud unrhyw newidiadau yn y maes llafur cytûn neu yn y gefnogaeth a gynigir i ysgolion. Yn yr un modd dylai weithio gyda'i CYSAG i gadw llygad ar ddarparu cydaddoli dyddiol ac i ystyried gydag ef unrhyw gamau y gellid eu cymryd i wella darpariaeth o'r fath.

91. Mater i AALI yw penderfynu pa faterion y mae am eu cyfeirio at ei CYSAG; ond dywed Deddf 1988 y dylai'r rhain gynnwys, yn enwedig, ddulliau addysgu, y dewis o — *Deddf Diwygio Addysg 1988 a.11(2)*

ddeunydd addysgu a darparu hyfforddiant athrawon.

92. Nid yw CYSAG yn gyfyngedig i roi cyngor ar faterion a gyfeirir ato gan ei AALI; gall gynnig cyngor ar unrhyw faterion sy'n gysylltiedig â'i swyddogaethau fel y gwêl yn dda. Gall gynnig cyngor i ysgolion lleol a gynhelir â grant neu roi sylw i'r cyfryw faterion ag a gyfeiriant ato. Nid oes grym statudol i'r cyngor a gynigir gan CYSAG . er hynny, dylai'r AALI neu'r ysgol bob amser roi ystyriaeth ofalus i'r cyngor a gynigir. *Deddf Diwygio Addysg 1988 a.11(1)(a)*

93. Mae Deddf Diwygio Addysg 1993 yn diwygio Deddf 1988 i'w gwneud yn ofynnol i CYSAG anfon copi o unrhyw gyngor ar AG i unrhyw ysgol a gynhelir â grant o fewn ei ardal y mae'n ofynnol iddi ddedfnyddio maes llafur cytûn, gan gynnwys: *Deddf Diwygio Addysg 1988 a.11(12)*

- unrhyw ysgol a gynhelir â grant sy'n cyfateb i ysgol wirfoddol a gynorthwyir lle addysgir y maes llafur cytûn ar gais y rhieni; ac

- unrhyw ysgol a gynhelir â grant sydd wedi dewis defnyddio maes llafur cytûn arall.

Mae'n ofynnol hefyd i CYSAG anfon copi o unrhyw gyngor ar gydaddoli crefyddol i unrhyw ysgol a gynhelir â grant yn yr ardal sy'n cyfateb i ysgol sirol. Rhaid iddo beidio â chodi tâl ar ysgol a gynhelir â grant am y cyngor hwnnw. *a.11(11)*

94. Anogir AALI i roi gwybodaeth gyflawn a chyson i'w CYSAG ar yr holl faterion sy'n ymwneud ag AG a chydaddoli yne u hysgolion. Dylai hyn gynnwys, lle bo'n briodol, gwybodaeth am ysgolion unigol yn dilyn arolygiad gan Swyddfa Prif Arolygydd Ysgolion Ei Mawrhydi yng Nghymru (SPAEM) (paragraff 126).

95. Ni chaiff y CYSAG lleol gopi yn awtomatig o adroddiad ar arolygiad, er y bydd yr AALI yn cael copi o'r adroddiad ar gyfer unrhyw ysgol a gynhelir gan yr AALI. Mater i'r CYSAG fydd cael gafael ar gopi o unrhyw adroddiad y mae am ei weld oddi wrth ei AALI. Gellir cael copi o adroddiad arolygiad unrhyw ysgol a gynhelir â grant oddi wrth yr ysgol am ei gost. Er mwyn cynorthwyo unrhyw CYSAG sydd am gadw llygad ar adroddiadau arolygiadau, bydd SPAEM yn gofyn i bob AALI drosglwyddo rhestri arolygiadau i'w CYSAG. Bydd SPAEM yn ehangu ei darpariaeth bresennol o restri arolygiadau i gynnwys ysgolion a gynhelir â grant yn ardal y CYSAG. Y bwriad presennol yw i'r rhestri gael eu hanfon i AALI flwyddyn cyn tymor yr arolygiad.

96. Mae rhai AALI wedi rhoi rôl i'w CYSAG yn y trefniadau cwyno statudol lleol (paragraffau 133 – 138). *Deddf Diwygio Addysg 1988 a.23*

**Adroddiadau blynyddol CYSAG**

97. Rhaid i bob CYSAG gyhoeddi adroddiad blynyddol ar eu gwaith. Dylai hwnnw: *Deddf Diwygio Addysg 1988 a.11(9)*

1 pennu unrhyw faterion y mae wedi cynghori'r AALI yn eu cylch; *a.11(10)(a)*

2 disgrifio natur y cyngor hwnnw'n fras; a *a.11(10)(b)*

3 nodi eu rhesymau dros gynnig cyngor ar unrhyw faterion na chyfeiriwyd mohonynt atynt yn y lle cyntaf gan AALI. *a.11(10)(c)*

98. Mae Deddf 1993 yn diwygio Deddf 1988 i'w gwneud yn ofynnol i CYSAG anfon copi o'i adroddiad blynyddol i ACAC. Byddai'n ddefnyddiol i'r adroddiadau gynnwys y flwyddyn academaidd, a chael eu hanfon i ACAC erbyn 30 Rhagfyr bob blwyddyn. Anogir AALI i anfon copïau o adroddiad blynyddol i'r ysgolion, gan gynnwys ysgolion a gynhelir â grant, ac i sefydliadau hyfforddi athrawon lleol, yn arbennig pan fydd adroddiad yn cyfeirio at hyfforddiant cychwynnol i athrawon neu HMS, yn ogystal â threfnu nod copi ar gael i'r cyhoedd ei archwilio. *Deddf Diwygio Addysg 1988 a.11(13)(a)*

99. Ceir manylion am ofynion nwy cyffredinol ynghylch gwybodaeth ym mharagraff 143 ymlaen.

**Swyddogaeth cynhadledd maes llafur cytûn**

100. Er mwyn paratoi maes llafur cytûn ar gyfer addysg grefyddol, rhaid i AALI gynnull cynhadledd maes llafur cytûn. Mae cynhadledd yn endid cyfreithiol ar wahân i CYSAG ac, er y caniateir cyd-aelodaeth, rhaid iddo gael ei gynnull ar wahân. *Deddf Addysg 1944 atodlen 5 paragraff 1*

101. Swyddogaeth cynhadledd yw cynhyrchu ac argymell maes llafur cytûn ar gyfer AG sy'n llwyr fodloni gofynion Deddf 1988 ac yn addysgol gadarn (paragraffau 31-37). Ni ellir dirprwyo'r dasg o gynhyrchu maes llafur ac eithrio i is-bwyllgor sy'n gorfod cynnwys o leiaf un aelod o bob un o'r pwyllgorau sy'n cyfansoddi'r gynhadledd. Nid yw hyn yn atal cynhadledd rhag cymryd cyngor neu sylwadau oddi wrth grwpiau neu unigolion o'r tu allan. Dim ond cynhadledd maes llafur cytûn a gaiff argymell maes llafur cytûn a rhaid i'r pwyllgorau sy'n cyfansoddi'r gynhadledd gytuno'n unfrydol ar ei argymhellion. *Deddf Addysg 1944 atodlen 5 paragraff 7* *atodlen 5 paragraff 5*

**Cyfansoddiad CYSAG a chynhadledd**

102. Mae Deddf 1993, drwy ddiwygio Deddf 1944 a Deddf 1988, yn newid cyfansoddiad CYSAG a chynhadledd maes llafur cytûn i gynnwys, o dan rai amgylchiadau, bedwerydd grŵp neu bwyllgor. Rhaid i CYSAG a chynhadledd ill dau gynnwys tri neu bedwar grŵp neu bwyllgor a'r rheiny'n cynrychioli, yn eu tro;

*Deddf Addysg 1944 atodlen 5 paragraff 2 & Deddf Addysg 1993 a.15 & 16 & Deddf Diwygio Addysg 1988 a.11(4)*

a enwadau Cristnogol a chrefyddau ac enwadau crefyddol eraill,[6] y mae'n rhaid i nifer eu cynrychiolwyr, "cyn belled ag y bo'n gyson â chyflawni swyddogaethau'r pwyllgor yn effeithlon, adlewyrchu'n fras gryfder cyfrannol yn enwad hwnnw neu'r grefydd honno yn yr ardal";

b y cyfryw gymdeithasau sy'n cynrychioli athrawon a ddylai, ym marn yr awdurdod, gael eu cynrychioli, o roi sylw i amgylchiadau'r ardal;

c yr awdurdod addysg lleol;

d o dan rai amgylchiadau (paragraff 104), cyrff llywodraethu'r ysgolion hynny a gynhelir â grant sy'n cyfateb i ysgolion sirol neu ysgolion gwirfoddol a reolir.

Ar CYSAG, nes bod grŵp D wedi'i ffurfio, dylai unrhyw ysgolion o'r fath a gynhelir â grant benodi person i'w cynrychioli (paragraffau 105 – 106). Gall CYSAG gynnwys hefyd aelodau wedi'u cyfethol, nad ydynt yn aelodau o unrhyw un o'r pedwar grŵp. Nid oes unrhyw ddarpariaeth i gynhadledd maes llafur cytûn gynnwys aelodau sydd wedi'u cyfethol.

*Deddf Diwygio Addysg 1988 a.11(3)(b)*
*a.11(3)*

**Cynrychiolaeth grwpiau heblaw crefyddau neu enwadau crefyddol ar bwyllgor neu grŵp A**

103. Byddai cynnwys cynrychiolwyr systemau cred megis hiwmanistaeth, nad ydynt yn gyfystyr â chrefydd neu enwad crefyddol, ar bwyllgor A cynhadledd maes llafur cytûn neu grŵp A CYSAG yn groes i'r darpariaethau cyfreithiol y cyfeiriwyd atynt ym mharagraff 102.

*Deddf Addysg 1944 atodlen 5 paragraff 2(a) & Deddf Diwygio Addysg 1988 a.11(4)(a)*

**Ailgyfansoddi CYSAG a chynhadledd**

104. Cyn pen chwe mis ar ôl y dyddiad pryd y mae'r cyfrifoldeb

*Deddf Addysg 1993*

[6] Mae Deddf 1993 yn diwygio cyfeiriadau at "enwadau" drwy gydol y Deddfau Addysg i "crefyddau" ac "enwadau crefyddol" er mwyn egluro'r term yn unol â chyfeiriadau yn Neddf Addysg Bellach ac Uwh 1992.

dros sicrhau lleoedd ysgol yn naill ai'r cyfnod cynradd neu'r cyfnod uwchradd mewn ardal yn trosglwyddo i awdurdod ariannu ysgolion, rhaid i'r awdurdod lleol ailgyfansoddi ei CYSAG ac unrhyw gynhadledd maes llafur cytûn sydd mewn bodolaeth mewn adeg y trosglwyddo. Bydd y CYSAG a'r gynhadledd a ailgyfansoddir ill dau yn cynnwys pedwerydd pwyllgor neu grŵp (paragraff 102) i gynrychioli ysgolion perthnasol a gynhelir â grant. Bydd trosglwyddo fel hyn yn digwydd fel rheol pan fydd o leiaf 75% o'r lleoedd ysgol mewn ardal mewn naill ai'r sector gynradd neu'r sector uwhradd mewn ysgolion a gynhelir â grant, oni bai bod yr Ysgrifennydd Gwladol wedi cymeradwyo cais oddi wrth AALI i drosglwyddiad o'r fath ddigwydd yn gynt. *a.12(1)(b)* *a.16 & 15*

**Cynrychiolaeth ysgolion a gynhelir â grant ac ymgynghori â hwy**

105. Cyn ailgyfansoddi CYSAG o dan y trefniadau ym mharagraff 104, caiff ysgolion a gynhelir â grant sy'n cyfateb i ysgolion sirol neu ysgolion gwirfoddol a reolir eu cynrychioli ar CYSAG gan berson a benodir ganddynt. Er hynny, pan fydd grŵp ar gyfer ysgolion sy'n cael eu cynnal â grant wedi'i sefydlu, nid yw hyn yn gymwys mwyach. *Deddf Diwygio Addysg 1988 a.11(3)(b)*

106. Nid oes unrhyw ddarpariaeth i gynhadledd maes llafur cytûn gynnwys aelodau cyfoetholedig na, cyn yr ailgyfansossiad a ddisgrifiwyd ym mharagraff 104 uchod, i gynnwys person sy'n cynrychioli ysgolion a gynhelir â grant. Er hynny, cyn argymell mabwysiadu maes llafur cytûn, mae Deddf 1993 yn ei gwneud yn ofynnol i gynhadledd ymgynghori ag unrhyw ysgolion a gynhelir â grant yn eu hardal sy'n defnyddio maes llafur cytûn yr AALI. *Deddf Addysg 1993 a.146*

**Gwneud penderfyniadau**

107. Ar unrhyw gwestiwn sydd i'w benderfynu gan CYSAG, dim ond y grwpiau cynrychioliad a restrwyd ym mharagraff 102 sydd â phleidlais unigol yr un. Nid oes gan gynrychiolydd ysgolion a gynhelir â grant (cyn sefydlu grŵp ysgolion a gynhelir â grant) nac aelodau cyfoetholedig bleidlais. Nid oes rhaid sicrhau unfrydedd o fewn y grŵp am sut y caiff y bleidais honno ei bwrw. Rhaid i bob grŵp reoli ei drafodion ei hun, gan gynnwys darpariaeth ar gyfer torii dadl. *Deddf Diwygio Addysg 1988 a.11(6)*

108. Mae hyn yr un mor gymwys i gynadleddau meysydd llafur cytûn neu i unrhyw is-bwyllgor y gallent ei benodi, er bod rhaid i pob bwyllgor o'r gynhadledd gytuno'n unfrydol i argymell maes llafur cytûn i'r AALI (paragraff 27). *Deddf Addysg 1944 atodlen 5 paragraff 8* *atodeln 5 paragraff 9*

**Penodi i bwyllgor a grŵp**

109. Yr AALI sy'n penodi aelodau'r pedwar pwyllgor neu grŵp a ddisgrifiwyd ym mharagraff 102.

*Deddf Addysg 1944 atodlen 5 paragraff 2& Deddf Diwygio Addysg 1988 a.11(4)*

110. Mae Deddf 1993 yn diwygio Deddf 1944 a Deddf 1988 i'w gwneud yn ofynnol i'r AALI sicrhau bod cyfansoddiad pwyllgor A cynhadledd maes llafur cytûn a grŵp A CYSAG (enwadau Cristnogol a chrefyddau eraill ac enwadau'r crefyddau hynny) gynrychioli'r gymuned leol. Mae'n ofynnol i nifer y cynrychiolwyr o bob enwad a chrefydd adlewyrchu'n fras gryfder cyfrannol yr enwad hwnnw neu'r grefydd honno yn yr ardal leol, cyn belled ag y bo hynny'n gyson â chyflawni'n effeithlon swyddogaethau'r pwyllgor neu'r grŵp. Gan hynny, mae'r darpariaethau statudol yn cydnabod y bydd achlysuron pan fydd buddiannau effeithlonrwydd yn drech na'r gofyniad i sicrhau cynrychiolaeth uniongyrchol gyfrannol.

*Deddf Addysg 1944 atodlen 5 paragraff 2 & Deddf Diwygio Addysg 1988 a.11(5)*

111. Rhaid i bob AALI ail-gyfansoddi fel hyn, erbyn 1 Hydref 1994, unrhyw gynhadledd maes llafur cytûn sydd wedi'i chynnull heb eto wneud argymhelliad, a'u CYSAG. Wrth benderfynu ar gyfansoddiad pwyllgor neu grŵp A, gall AALI ddymuno cymryd i ystyriaeth unrhy wgofnodion o enwad vrefyddol aelodau o'r gymuned leol. Hwyrach y bydd rhai sefydliadau crefyddol cenedlaethol yn gallu cynorthwyo trwy gyfeirio at eu cofnodion eu hunain.

*Deddf Addysg 1993 a.254 &255*

112. Wrth benodi'r pwyllgor neu'r grwpiau eraill, rhaid i'r AALI gymryd pob cam rhesymol i'w sicrhau eu hunain fod y personau a benodir yn cynrychioli'r cymdeithasau athrawon neu'r ysgolion o dan sylw. Mae hunaniaeth gyfreithiol wahanol y CYSAG a'r gynhadledd yn golygu y bydd angen canfasio penodiadau i'r gwahanol gyrff ar wahân. Dylai'r AALI ymgynghori'n lleol cyn penodi; a byddai'n fanteisiol sicrhau bod yr aelodau sy'n cynrychioli cymdeithasau athrawon yn cynnwys athrawon addysg grefyddol.

*Deddf Addysg 1944 atodlen 5 paragraff 3 & Deddf Diwygio Addysg 1988 a.13(1)*

113. Dylai'r AALI benodi'r grŵp neu'r pwyllgor sy'n cynrychioli'r ysgolion perthnasol a gynhelir â grant, lle bo mdd, o blith y rhai a enwebwyd ar y cyd gan gyrff llywodraethu'r ysgolion perthnasol eu hunain, gan gynnwys unrhyw un sydd wedi dewis peidio â defnyddio'r maes llafur lleol. Mae gan yr AALI bŵer i ddiarddel o'r CYSAG neu'r gynhadledd ym marn yr AALI, yn peidio â bod yn dderbyniol i fwyafrif o'r cyrff llywodraethu yn y ysgolion perthnasol. Dylid penodi unrhyw un yn ei le yn yr un ffordd â'r penodai gwreiddiol.

*Deddf Addysg 1993 a.16(5) & 15(5) 16(6) & 15(6)*

**Cadeirydd CYSAG a chynhadledd**

114. Nid yw'r ddeddfwriaeth yn pennu sut y dylid penodi cadeirydd CYSAG neu gynhadledd. Mater i'r AALI yw hyn. Mae'n agored i'r awdurdod benodi'r cadeirydd, neu ganiatau i'r CYSAG neu'r gynhadledd benodi eu caeirydd eu hunain o blith eu haelodau. Er hynny, yn absenoldeb darpariaeth eglur i'r gwrthwyneb, dylid cymryd bod dyletswydd yr AALI i gynnull cynhadledd neu i gyfansoddi CYSAG yn cynnwys yr hawl i benodi cadeirydd.

*Deddf Addysg 1993 atodlen 5 paragraff 1 & Deddf Diwygio Addysg 1988 a.11(1)*

115. Os bwriedir i gynhadledd neu CYSAG weithredu'n effeithiol, mae'n bwysig, cyn belled â phosibl, fod gan y cadeirydd a benodir hyedr yr holl aelodau. Os bydd yr AALI dewis penodi cadeirydd, mae'n ymarfer swyddogaeth gyhoeddus a dylai fod yn fodlon gwrando ar unrhyw sylwadau ynghylch pwy y dylid ei benodi neu pam na ddylid hawl i benodi cadeirydd.

**Ariannu CYSAG a chynhadledd**

116. Mae dyletswydd yr AALI i gynnull cynhadledd neu i gyfansoddi CYSAG yn awgrymu dyletswydd i ariannu pob un o'r cyrff hyn yn foddhaol. Mae hyn yn golygu y dylai pob AALI ddarparu clerc ar gyfer pob corff a digon o arian issynt gyflawni eu swyddogaethau. Dylai'r AALI ei fodloni ei hun fod y trefniadau hynny'n ddigonol i gyflawni swyddogaethau pob corff. Rhaid peidio â chodi tâl ar ysgolion a gynhelir â grant am wasanaethau CYSAG neu gynhadledd. Mater i'r AALI yw penderfynu pa gyngor a chefnogaeth i'w darparu i'w CYSAG a'u cynhadledd.

*Deddf Addysg 1944 atodlen 5 paragraff 1 & Deddf Diwygio Addysg 1988 a.11(1)*

**Cyfarfod yn Gyhoeddus**

117. Mae Deddf 1993 yn darparu i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau i'w gwneud yn ofynnol i CYSAG a chynhadledd maes llafur cytûn gyfarfod yn gyhoeddus. Yn dilyn ymgynghori, mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi gwneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r ddau gorff gyfarfod yn gyhoeddus ac eithrio o dan rai amgylchiadau lle mae'n ymddangos iddo ef ei bod yn fwy priodol i'r materion sy'n cael eu trafod gael eu hystyried yn breifat; rhoi rhybudd am gyfarfodydd; a threfnu bod dogfennau perthnasol, megis yr agenda ac adroddiadau, ar gael i'r cyhoedd.

*Deddf Addysg 1993 a.528*

*OS 1994/1304 rheol 3*

118. Gwelir cyfeithiad o Atodlen 5 Deddf 1944 (fel y'i diwygiwyd) sy'n rhoi manylion y weithdrefn ar gyfer gweithredu maes llafur cytûn ar gyfer AG yn Atodiad F. gwelir y gofynion cyfreithiol ynghylch cyfansoddi CYSAG yn llawn yn Atodiad H.

## Atebolrwydd Cyhoeddus

### Nodau

119. Mae Siarter y Dinesydd yn pwysleisio egwyddorion atebolrwydd argaeledd gwybodaeth ac ymateb i anghenion lleol. Mae "Addysg: Siarter ar gyfer Rhieni yng Nghymru" yn cymhwyso'r egwyddorion hyn at ysgolion ac maent yr un mor gymwys at ddarparu AG a chydaddoli, a ddylai fodloni anghenion cymunedau lleol yn effeithiol.

### Darparu gwybodaeth - cyffredinol

120. Mae rheoliadau a wnaed o dan Ddeddf 1988 yn ei gwneud yn ofynnol i AALI, cyrff llywodraethu a phenaethiaid ddarparu gwybodaeth arbennig ar gyfer yr Ysgrifennydd Gwladol, rhieni a phersonau eraill a bennwyd. Bydd rhywfaint o'r wybodaeth gyffredinol y bydd ei hangen – er enghraifft ynghylch trefnu'r cwricwlwm – yn awtomatig yn cynnwys AG a chydaddoli. Ceir manylion llawn am y wybodaeth gyffredinol hon yng nghylchlythyr 33/91.[7]

*Deddf Dywigio Addysg 1988 a.22*

### Gwybodaeth ar gael i'r cyhoedd mewn ysgolion

121. O dan y Rheoliadau Addysg (Cwricwlwm Ysgol a Gwybodaeth Gysylltiedig) (Cymru) 1991 mae'n ofynnol i'r pennaeth drfenu bod y canlynol ar gael yn hwylus i rieni ac eraill:

*OS 1658 / 1991 rheol 11*

- yn achos unrhyw ysgol y mae'n ofynnol iddi defnyddio un, maes llafur cytûn priodol yr AALI ar gyfer AG; neu

- yn achos ysgol wirfoddol a gynhelir gan AALI neu ysgol gyfatebol a gynhelir â grant, gopi o'r rhan honno o'r weithred ymddiriedolaeth sy'n llywodraethu darparu AG ac unrhyw ddatganiad ysgrifenedig arall a all fod wedi'i baratoi ynghylch trefniadau ar gyfer AG, gan gynnwys unrhy wfaes llafur sy'n cael ei defnyddio yn yr ysgol.

### Gwybodaeth yn llawlyfr yr ysgol

122. O dan Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth Ysgolion) (Cymru) 1991 mae'n ofynnol i bob ysgol a gynhelir gynnwys yn eu llawlyfr blynyddol:

- datganiad am naws a gwerthoedd yr ysgol;

---

[7] Cylchlythyr 33/91 "Gwybodaeth i Rieni".

- manylion am yr addysg grefyddol a ddarperir yn yr ysgol;
- trefniadau i'r rhieni dynnu eu plant yn ôl o addoli crefyddol, naill ai'n gyfan gwbl neu'n rhannol, ac unrhyw ddarpariaeth arall ar gyfer disgyblion a dynnir yn ôl;
- manylion unrhyw benderfyniad sydd wedi'i ganiatau sy'n codi'r gofyniad ynghylch addoli cyffredinol Gristnogol mewn ysgol sirol neu cyn ysgol sirol a gynhelir â grant, naill ai ar gyfer grwpiau penodedig o ddisgyblion neu ar gyfer yr ysgol gyfan;
- lle bo'n berthnasol, cysylltiadau'r ysgol gyda chrefydd, neu enwad crefyddol, arbennig.

**Gwybodaeth i rieni mewn adroddiadau**

123. O dan y Rheoliadau Addysg (Cyraeddiadau Disgyblion Unigol) (Gwybodaeth) (Cymru) 1994 mae'n ofynnol i bennaeth anfon adroddiad ysgrifenedig blynyddol at y rhieni ynghylch cynnydd eu plentyn. Oni bai bod disgybl wedi'i dynnu yn ôl o AG, rhaid i'r adroddiadau gynnwys manylion am gynnydd y disgybl mewn AG. *OS 1994 / 959*

124. Cynigir canllawiau ar y gofynion yn y rheoliadau ynghylch adroddiadau yng Nghylchlythyr 66/93 y Swyddfa Gymreig.

**Arolygu ysgolion**

125. Cyflwynodd Deddf Addysg (Ysgolion) 1992 system newydd o arolygiadau annibynnol bob pum mlynedd i ysgolion gan ddechrau, yn achos ysgolion uwchradd, ym Medi 1993 ac, yn achos ysgolion eraill, flwyddyn wedyn. Ymhlith pethau eraill, bydd arolygiadau'n cynnwys:

- ansawdd yr addysg a'r safonau a gyrhaeddwyd;
- naws yr ysgol;
- datblygiad moesol, ysbrydol, diwylliannol a chymdeithasol ei disgyblion; ac
- a yw ysgol yn bodloni'r gyfraith wrth ddarparu AG a chydaddoliad dyddiol.

Caiff adroddiad ar arolygiad ei gyhoeddi a, ran amlaf, rhaid i'r corff llywodraethu lunio cynllun gweithredu yn nodi sut y mae'n bwriadu gweithredu yn sgîl yr arolygiad, gan gynnwys sut y mae'n bwriadu rhoi sylw i unrhyw anawsterau wrth

ddarparu AG neu gydaddoliad dyddiol. Ceir manylion llawn am y trefniadau newydd yng Nghylchlythyr 44/93.[8]

126. Prif arolygydd Ei Mawrhydi, sy'n bennaeth adran ar wahân o'r llywodraeth, sef Swyddfa Prif Arolygydd Ysgolion Ei Mawrhydi yng Nghymru (SPAEM), sy'n gyfrifol am drefnu arolygiadau (a gynhelir) gan arolygydd sydd wedi'i benodi ganddo) ac am gynnal safonau. Mae Fframwaith Arolygu SPAEM wedi'i anfon i bob ysgol yng Nghymru a gynhwyswyd o dan Ddeddf Ysgolion 1992.

*Deddf Addysg (Ysgolion)1992 a.9*

**Arolygu AG a chydaddoli enwadol**

127. Ers blynyddoedd lawer mae addysg grefyddol a/neu gydaddoli enwadol (a roir mewn rhai ysgolion gwirfoddol a rhai ysgolion cyfatebol a gynhelir â grant) wedi bod yn destun trefniadau gwahanol ynglŷn ag arolygu o dan reolaeth llywodraethwyr, ac fe gadwodd Deddf Ysgolion 1992 y sefyllfa honno.

128. Rhaid i AG enwadol (sydd wedi'i diffinio o'r newydd yn Neddf Ysgolion 1992 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf 1993) a chydaddoli enwadol gael eu harolygu bob pum mlynedd hefyd, ond y llywodraethwyr (y llywodraethwyr eglwysig mewn ysgol a reolir) yn hytrach na SPAEM sy'n gyfrifol am drefnu'r arolygiad gan arolygydd o'u dewis. Nid oes rhaid i'r arolygydd fod yn Arolygydd Cofrestredig, ond fe all fod os bydd y llywodraethwyr yn dymuno.

*Deddf Addysg (Ysgolion) 1992 a.12(3A) a*

*Deddf Addysg (Ysgolion) 1992 a.13(3) & (4)*

129. Rhaid i'r arolygiad 'adran 13' hwn gynnwys:

- AG enwadol:
  - Mewn ysgol wirfoddol a gynorthwyir neu ysgol gyfatebol a gynhelir â grant (sef ysgol nad yw'n gyfreithiol ofynnol iddi addysgu AG yn unol â maes llafur cytûn, hyd yn oed os bydd yn dewis (paragraff 23);
  - Mewn ysgol wirfoddol a reolir neu ysgol gyfatebol a gynhelir â grant lle mae AG, ar gais rhiant, yn cael ei darparu yn unol â'i gweithred ymddiriedolaeth neu ei hen arferion (paragraff 23);
- Chydadoli mewn ysgol wirfoddol neu ysgol gyfatebol a gynhelir â grant.

130. Mae ar yr Arolygydd Cofrestredig ddyletswydd (pargarff 126) i adrodd ar ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a

[8] Cylchlythyr 44/93 "Arolygu Ysgolion Arweiniad i ddarpariaethau arollygu Deddf Addysg (Ysgolion) 1992".

diwylliannol disgyblion ym mhob ysgol, ond yn yr ysgolion hynny sy'n darparu AG a/neu gydaddoli enwadol, mae'r ddyletswydd honno wedi'i chyfyngu nodi bod yr ysgol yn bodloni gofynion y gyfraith i ddarparu AG a chydaddoliad dyddiol. Nid yw'r Arolygydd Cofrestredig yn ymwneud â chynnwys darpariaeth o'r fath. Er hynny, fe gaiff yr arolygiad 'adran 13' adrodd hefyd ar ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion, os bydd y llywodraethwyr yn dymuno.

*Deddf Addysg (Ysgolion) 1992 a.13(7)*

131. Cyhoeddir yr adroddiad 'adran 13' hefyd ac anfonir crynodeb at y rhieni. Rhaid hefyd i'r corff llywodraethu gyhoeddi cynllun gweithredu ychwanegol.

**Gweithdrefn gwynion lleol**

132. Fel rheol, caiff pryderon a fynegir gan rieni ac eraill ynghylch cwricwlwm ysgol a materion cysylltiedig, gan gynnwys AG a chydaddoli eu hystyried a, cyn belled â phosibl, ymdrinir â hwy mewn trafodaeth anffurfiol gydag athrawon a phenaethiaid yn y lle cyntaf. Er hynny, fe fydd achosion lle nad oes modd datrys pryderon o'r fath yn anffurfiol, a chaiff y rhain eu hystyried fel cwynion ffurfiol.

133. O dan Ddeddf 1988 mae gan bob AALI a phob ysgol a gynhelir â grant weithdrefn gwynion leol ar gyfer ystyried unrhyw gwyn ffurfiol. Diben y weithdrefn yw cynnig i rieni ac eraill ffordd leol whylus a dealladwy i fynd ar drywydd unrhyw gwyn am gwricwlwm ysgol, gan gynnwys AG a chydaddoli, a materion cysylltiedig, megis sefydlu CYSAG neu adolygu maes llafur cytûn. Nodir manylion llawn ar gyfer AALI yng Nghylchlythyr 26/89.[9]

*Deddf Diwygio Addysg 1988 a.23 & 58*

134. Rhaid i bob AALI gael swyddog cyswllt i roi cyngor ar y trefniadau sy'n gymwys yn achos ysgolion a gynhelir gan AALI. Dylai AALI roi cyhoeddusrwydd eang i'w trefniadau ac mae rhai AALI wedi cynhyrchu taflenni sy'n esbonio sut mae cwyno. Yn ogystal, dylai fod copi cyflawn o'r weithdrefn gwynion leol ar gael ym mhob ysgol, gan gynnwys ysgolion a gynhelir â grant, a rhaid i lawlyfr yr ysgol gynnwys cyfeiriad ati.

135. Dyma gamau'r weithdrefn yn gyffredinol:

[9] Cylchlythyr 26/89 "Deddf Diwygio Addysg 1988: Trefniadau lleol ar gyefr ystyried cwynion".

| **Cwyn am ddyletswydd ysgol a gynhelir gan yr AALI** | **Cwyn am ddyletswydd ysgol a gynhelir â grant** | **Cwyn am ddyletswyddau AALI** |
|---|---|---|
| Swyddog cyswllt yr AALI | Ystyriaeth gan y pennaeth | Swyddog cyswllt yr AALI |
| Ystyriaeth gan y corff llywodraethu | Ystyriaeth gan y corff llywodraethu | - |
| Ystyriaeth gan yr AALI | - | Ystyriaeth gan yr AALI |

136. Dylai gweithdrefn gwynion AALI gydnabod yn llawn hawliau cyrff llywodraethu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir mewn orthynas â'u cyfrifoldeb dros AG ac addoli crefyddol.

137. Mynegwyd pryder y gall y trefniadau presennol ar gyfer trafod cwynion atal rhieni ac eraill rhag datrys eu pryderon am yr agwedd hon ar ddarpariaeth ysgol yn foddhaol. Dylai AALI ac ysgolion a gynhelir â grant sicrhau:

- Bod y trefniadau lleol yn syml ac nad ydynt yn peri gofid i'r rhai sy'n dymuno cwyno; a
- Bod penderfyniadau'n cael eu gwneud mor gyflym ag sy'n gyson ag ystyriaeth briodol ar y cwyn.

Caiff achwynydd wneud cwyn drwy drydydd parti chael cwmni'r parti hwnnw pan gyflwynir sylwadau yn ystod pob cam.

**Cwynion i'r Ysgrifennydd Gwladol**

138. Bydd achwynydd sy'n dal yn anfodlon ar ôl i'r cwyn gael ei ystyried yn llawn o dan y trefniadau a ddisgrifiwyd uchod yn dal yn gallu gwneud cwyn i'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 68 neu 99 Deddf Addysg 1944. Er hynny, ni fydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn gallu ystyried unrhyw gŵyn o'r fath oni bai iddo fynd yn gyntaf drwy holl gamau'r trefniadau lleol a gymeradwywyd.

*Deddf Addysg 1944 a.68 & 99*

*Deddf Diwygio Addysg 1988 a.23(2)*

## Athrawon

### Nodau

139. Mae athrawon yn chwarae rhan hanfodol yn natblygiad moesol ac ysbrydol disgyblion a gwnânt gyfraniad holl-bwysig at ethos yr ysgol. Bydd rhai athrawon, yn ogystal ag arbenigwyr AG, hefyd yn cyfrannu at y nodau hyn drwy roi AG ac arwain addoliad, ond ni ellir ei gwneud yn ofynnol i athrawon roi AG nac arwain na bod yn bresennol mewn addoliadau ac eithrio lle mae'r ddeddfwriaeth yn darparu fel arall mewn perthynas â rhai athrawon mewn ysgolion cyfatebol a gynhelir â grant.

### Dyletswyddau

140. Mae Deddf Addysg 1944, gyda rhai eithriadau penodol yn achos athrawon mewn ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac athrawon crefydd mewn ysgolion gwirfoddol a reolir, yn darparu na ddylid datgymhwyso athrawon rhag cyflogaeth ac na ddylid gwahaniaethu yn erbyn athrawon yn nhermau tâl neu ddyrchafiad ar sail eu barn neu eu harferion crefyddol wrth gymryd rhan neu wrth beidio â chymryd rhan mewn addoliadau neu addysg grefyddol. Mae Deddf Addysg 1993 yn cymhwyso'r darpariaethau hyn at ysgolion a gynhelir â grant. Pan fydd ysgol yn dechrau cael ei chynnal â grant, mae darpariaethau adran 30 Deddf Addysg 1944 sy'n gymwys i athro o dan hen statws yr ysgol yn parhau i fod yn gymwys cyhyd ag y caiff ei gyflogi fel athro yn yr ysgol.

*Deddf Addysg 1944 a.30*

*Deddf Addysg 1993 a.143-145*

*a.144(4)*

141. Un o'r dyletswyddau a ymgorfforwyd yng nghontract pob athro gan Ddogfen Tâl ac Amodau Athrawon Ysgol yw bod yn bresennol mewn gwasanaethau. Mae'r ddyletswydd hon yn ddarostyngedig i ryddid athrawon o dan Ddeddf 1944 i beidio â bod yn bresennol mewn cydaddoliad. Felly caiff pennaeth ei gwneud yn ofynnol i unrhyw athro fod yn bresennol mewn rhannau o wasanaeth ysgol pan nad oes cydaddoli'n digwydd – er enghraifft darllen hysbysiadau – ond ni allai ei gwneud yn ofynnol i athro fod yn bresennol mewn cydaddoli ond os byddai'r athro hwnnw yn un o'r categorïau eithriadol a nodwyd yn y paragraff blaenorol.

*Deddf Addysg 1944 a.30*

142. Mae'r mesurau diogelwch a nodwyd uchod yn gymwys i benaethiaid fel i bob athro arall. Mae ar benaethiaid ddyletswydd o dan Ddeddf 1988 i sicrhau bod eu hysgol yn cydymffurfio â gyfraith ar gydaddoli ac AG, ond eu eithrio yn yr achosion a bennwyd yn Neddf 1944, ni ellir eu cosbi am beidio â chymryd rhan wrth ddarparu'r naill neu'r llall.

*Deddf Addysg 1988 a.10(1)*

*Deddf Addysg 1944 a.30*

143. Wrth gynllunio staffio a datblygu staff, rhaid i'r corff

llywodraethu gymryd i ystyriaeth eu dyletswydd o dan Ddeddf 1988 i ymarfer eu swyddogaethau gyda golwg ar sicrhau bod pob disgybl yn cymryd rhan mewn cydaddoliad dyddiol a bod AG yn cael ei haddysgu. Nid yw'r darpariaethau a ddisgrifiwyd uchod (paragraffau 141 – 143) yn atal y corff llywodraethu rhag cymryd i ystyriaeth barodrwydd ymgeiswyr i addysgu AG neu arwain cydaddoli wrth lunio disgrifiadau swydd ar gyfer swyddi arbennig, ac wrth argymell a phenodi athrawon. Er hynny ni ddylai parodrwydd i addysgu AG neu i arwain cydaddoli fod yn un o ofynion swydd, er ei bod yn amlwg bod rhaid i barodrwydd i addysgu AG fod yn ofyniad wrth hysbysebu swyddi arbenigol addysgu AG.

*Deddf Diwygio Addysg 1988 a.10(1)*

144. Mater i'r pennaeth, lle nad oes digon o athrawon mewn ysgol sy'n fodlon addysgu AG neu arwain cydaddoliad, yw sicrhau bodloni'r gofynion ar gyfer y gweithgareddau hyn beth bynnag. O dan yr amgylchiadau hyn, gall penaethiaid fod am ofyn cyngor eu AALI neu eu CYSAG.

145. O ran cydaddoli, o dan amgylchiadau o'r fath dylai'r pennaeth gymryd pob cam rhesymol i ddod o hyd i bersonau priodol o'r gymuned leol a fyddai'n fodlon ac yn gallu arwain cydaddoliad. Er hynny dylid cymryd i ystyriaeth, nid yn unig barodrwydd y personau hynny i arwain cydaddoliad, ond hefyd:

- Gallu'r person i gynnal addoliad o'r fath ar gyfer y disgyblion o'r cefndiroedd teuluol, yr oedrannau a'r galluoedd o dan sylw; ac

- I ba raddau y byddai unrhyw gostau yn dod i ran yr AALI neu i'r ysgol.

146. Gall y disgyblion hynaf cydaddoliadau lle'r ymddengys bod hynny'n briodol.

147. Er hynny, pa drefniadau bynnag a wneir, nid oes dim yn drech na chyfrifoldeb yr ysgol mewn perthynas ag iechyd a diogelwch y disgyblion. Bydd penaethiaid, er enghraifft, yn dymuno ystyried yr angen am bresenoldeb aelod o'r staff meewn addoliadau sy'n cael eu harwain gan unigolion o'r tu allan i'r ysgol.

# Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon a Datblygiad Proffesiynol Athrawon

## Nodau

148. Mae'r Llywodraeth am sicrhau bod athrawon sy'n addysgu AG ac yn arwain cydaddoli wedi'u paratoi i wneud hynny'n effeithiol ac yn dda.

## Hyfforddiant cychwynnol i athrawon

149. Mae Cylchlythyr[10] yn nodi meini prawf newydd ar gyfer cyrsiau o hyfforddiant cychwynnol i athrawon cynradd ac mae'n nodi'r cymwyseddau a ddisgrifwiyd oddi wrth bob athro sydd newydd gymhwyso, gan gynnwys sicrhau'r "sylfaen angenrheidiol i ddatblygu parodrwydd i hybu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion". Mae'r Cylchlythyr hefyd yn annog datblygiad amrywiaeth o lwybrau hyfforddi, gan gynnwys cyrsiau sy'n cynnig sylfaen sylweddol mewn chwe pwnc ar lefel is-raddedig, a all gynnwys AG ; a chyrsiau mwy arbenigol i'r rhai sy'n gobeithio cael rôl fel cydgysylltydd AG neu athro arbenigol AG. *OS 543/93*

150. Caiff y rhai sy'n hyfforddi ar gyfer addysgu mewn ysgol uwchradd arbenigo mewn AG. Dylai hyfforddiant cychwynnol i athrawon baratoi'r myfyrwyr hyn i addysgu AG yn unol â'r gofynion a'r meysydd llafur statudol yn yr ysgolion. Mae Cylchlythyr 35/92 [11] ar hyfforddiant cychwynnol i athrawon uwchradd yn nodi'r cymwyseddau a ddisgwylir oddi wrth athrawon sydd newydd gymhwyso. Mae'n pennu y dylai pob athro sydd newydd gymhwyso fod wedi sicrhau yn ei hyfforddiant cychwynnol " y sylfaen angenrheidiol i ddatblygu parodrwydd i hybu lles ysbrydol a moesol disgyblion".

## Datblygiad proffesiynol atrhawon

151. Dylai cynlluniau datblygu ysgolion nodi anghenion datblygiad staff sy'n gysylltiedig ag AG a chydaddoli. Yn ôl eu statws, gall ysgolion gael cyngor ynghylch materion datblygiad staff odii wrth y CYSAG, staff ymgynhorol yr AALI a gwahanol ffynonellau enwadol. Hwyrach bod yr un cyrff yn cynnig cyrsiau hyfforddi i athrawon sy'n gwasanaethu a chyfleoedd eraill ar gyfer datblygiad proffesiynol, fel y bydd ystod o ddarparwyr eraill. Cyn buddsoddi mewn datblygiad staff, dylai ysgolion sicrhau y bydd yn diwallu'r anghenion y maent wedi'u nodi.

---

[10] Cylchlythyr 62/93 "The Initial Training of Primary School Teachers: New Criteria for Courses".
[11] Cylchlythyr 35/92: "Initial Teacher Training (Secondary Phase)".

**Rhaglen Grantiau Cynnal Addysg a Hyfforddiant**

152. Mae cymorth ar gael ar gyfer datblygiad proffesiynol pellach athrawon drwy gyfrwng y rhaglen grantiau penodol Grantiau Cynnal Addysg a Hyoffrddiant (GCAH). Mae'r rhaglen yn cynnwys:

- ym 1993-94, yng Ngweithgarwch y Cwricwlwm 5 – 19, addasu arferion addysgu i fodloni gofynion Addysg Grefyddol.

- ymn 1994-95, unwaith eto yng Ngweithgarwch y Cwricwlwm 5 – 19, helpu i gyflwyno meysydd llafur cytûn newydd yn y flwyddyn ysgol 1994-5.

Nae'n agored i ysgolion ac AALI drefnu bod cymorth ychwanegol ar gael ar gyfer datblygiad proffesiynol. Ceir manylion llawn yng Nghylchlythyr 45/92 a Chylchkythyr drafft 45/93.[12]

**Ysgolion a gynhelir â grant: Grant Dibenion Arbennig**

153. Caiff ysgolion a gynhelir â grant gymorth ar gyfer datblygiad proffesiynol drwy grant penodol gwahanol o'r enw Grant Dibenion Arbennig (Datblygiad). Mae pob ysgol AGAG yn gymwys i gael y grant hwn. Mater i'r ysgolion unigol yw penderfynu faint i'w wario ar ddatblygiad proffesiynol ar gyfer AG, ond fe'u hanogir i roi sylw i'r blaenoriaethau a nodwyd yn y rhaglen GCAH gyfredol.

[12] Cylchlythyr 45/92 "Grants Education Support and Training 1993-4"; Cylchlythyr 45/93 "Grants for Education Support and Training 1994-5".

# Atodiad A

**Mathau o Ysgol a Gynhelir â Grant**

1. At ddibenion y gofynion ar gyfer AG a chydaddoli a ddisgrifiwyd yn y cylcjlythyr hwn, ceir pum math o ysgol a gynhelir â grant:

   1 ysgol a gynhelir â grant a oedd gynt yn ysgol sirol yn cael ei chynnal gan AALI;

   2 ysgol a gynhelir â grant a oedd yn gynt yn ysgol wirfoddol a reolid;

   3 ysgol a gynhelir â grant a oedd yn gynt yn ysgol wirfoddol a gynorthwyid;

   4 ysgol newydd yn cael ei chynnal â grant a sefydlwyd o dan adran 48 Deddf Addysg 1993 neu o dan adran 49 y Ddeddf honno lle na ddarperir ar gyfer addysg grefyddol disgyblion yn yr ysgol naill ai yn y weithred ymddiriedolaeth neu mewn unrhyw ddatganiad; disgrifir ysgol o'r fath yn y cylchlythyr hwn fel ysgol 'sy'n cyfateb i ysgol sirol'; a

   5 ysgol newydd yn cael ei chynnal â grant a sefydlwyd o dan adran 49 Deddf Addysg 1993 lle y mae naill ai'r weithred ymddiriedolaeth neu unrhyw ddatganiad yn darparu ar gyfer addysg grefyddol y disgyblion yn yr ysgol; disgrifir ysgol o'r fath yn y cylchlythyr hwn fel ysgol 'sy'n cyfateb i ysgol wirfoddol a gynorthwyir'.

2. O 1 Ebrill 1994 ymlaen daw'r gofyniad statudol i ysgolion a gynhelir â grant gyhoeddi cynigion ar gyfer newid cymeriad sylweddol o dan adran 96 Deddf Addysg 1993 i rym. Cred yr Ysgrifennydd Gwladol fod newid yng nghymeriad crefyddol ysgol yn newid cymeriad sylweddol a lle bo gan ysgol ymddiriedolwyr, y dylent roi eu caniatâd ysgrifenedig cyn cyhoeddi cynigion ar gyfer newid o'r fath. Hefyd rhaid i gyrff llywodraethu ymgynghori â'r cyfryw bersonau ag y mae'n ymddangos iddynt eu bod yn briodol cyn cyhoeddi cynigion. Argymhellir ymgynghori ag awdurdodau Esgoblaethol yn y dyddiau cynnar ynghylch unrhyw gynigion a allai ddwyn goblygiadau ar gyfer ysgolion gwirfoddol yn yr ardal.

3. O'i sefydlu, bydd gan Gyngor Ariannu Ysgolion Cymru, o dan adran 92 Deddf Addysg 1993, bŵer i gyhoeddi cynigion ar gyfer newid cymeriad sylweddol mewn sygolion a gynhelir â grant yn ardaloedd yr AALI hynny lle mae'r Cyngor naill ai'n rhannu'r cyfrifoldeb dros ddarpariaeth ysgolion cynradd neu ysgolion uwchradd gyda'r AALI neu lle bo gan y Cyngor yn gallu cyhoeddi cynigion i wneud newid sylweddol yng nghymeriad crefyddol ysgol.

4. Effaith adran 141 Deddf Addysg 1993 yw, os cymeradwyir newid yng nghymeriad crefyddol ysgol gan yr Ysgrifennydd Gwladol, y bydd darpariaethau AG y Ddeddf yn gymwys yn unol â'i chymeriad newydd. Felly, er enghraifft, os bydd corff llywodraethu:

   1 hen ysgol sirol neu hen ysgol a reolid yn sicrhau cymeradwyo cynigion i AG gyd-fynd â daliadau enwad crefyddol arbennig rhaid i'r AG yn yr ysgol gyd-fynd ag adran 140 Deddf 1993;

   2 hen ysgol a gymorthywid yn sicrhau cymeradwyo cynogion na fydd AG yn cyf-fynd â daliadau enwad crefyddol arbennig, rhaid i'r AG yn yr ysgol gyd-fynd ag adran 138 Deddf 1993.

# Atodiad B

**Ysgolion Arbennig**

**Addysg grefyddol a chydaddoli**

1. Mae Deddf Addysg 1993 yn dweud y bydd rheoliadau yn darparu, cyn belled ag y bo'n ymarferol, y dylai pob disgybl cael addysg grefyddol a bod yn bresennol mewn addoliad crefyddol; neu gael ei dynnu'n ôl rahg bod yn bresennol mewn addoliad o'r fath neu rhag cael addysg o'r fath, yn unol â dymuniadau rhiant y disgybl.

2. Gwelir y rheoliadau presennol yn Atodlen 2 y Rheoliadau Addysg (Cymeradwyo Ysgolion Arbennig) 1983. O 1 Ebrill 1994 ymlaen, caiff y rhain eu disodligan y Rheoliadau Addysg (ysgolion Arbennig) 1994 a fydd yn cynnwys gofynion union debyg. Mae'r Rheoliadau yn gymwys i bob ysgol arbennig a gynhelir, pob ysgol a gynhelir â grant a phob ysgol arbennig na chynhelir mohoni.

3. Caiff darpariaethau tebyg eu cynnwys yn y Rheoliadau Addysg (Anghenion Addysgol Arbennig) (Cymeradwyo Ysgolion Annibynnol) 1994 o 1 Ebrill 1994 ymlaen mewn perthynas ag ysgolion anibynnol a gymeradwyir i ddarparu ar gyfer plant sydd â datganiadau o anghenion addysgol arbennig.

# Atodiad C

### Colegau Technoleg Dinas

### Addysg grefyddol a chydaddoli

1. Nid yw darpariaethau'r Deddfau Addysg sy'n ymwneud ag addysg grefyddol a chydaddoli yn gymwys i golegau technoleg dinas na cholegau dinas ar gyfer technoleg y celfyddydau. Ysgolion annibynnol yw'r rhain ond, fel un o amodau grant, mae'n ofynnol iddynt ddarparu ar gyfer addysg grefyddol a chydaddoli sy'n cyd-fynd yn fras â'r hyn a geir mewn ysgolion a gynhelir. Nodir y gofynion yn y cytundebau ariannu y bydd yr Ysgrifennydd Gwladol, o dan adran 105 Deddf Diwygio Addysg 1988, yn eu gwneud gyda'r rhai sy'n sefydlu ac yn rhedeg colegau o'r fath. Nid oes coleg o'r fath yng Nghymru ar hyn o bryd.

# Atodiad D

**Colegau Chweched Dosbarth yn y Sector Addysg Bellach**

**Addysg grefyddol**

1. Mae adran 45 Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 yn ei gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu pob sefydliad addysg bellach, ac eithrio sefydliad a oedd ar 30 Medi 1992 yn goleg addysg bellach, sicrhau darparu addysg grefyddol yn y sefydliad i bob myfyriwr sy'n dymuno ei chael. Mae adran 45(3) yn dweud y bernir bod y corff llywodraethu yn cyflawni ei ddyletswydd os darperir AG ar amser neu amserau sy'n gyfleus i'r mwyafrif o'r myfyrwyr amser-llawn fod yn bresennol.

2. At ddibenion adran 45, gall AG gymryd ffurf darlithoedd neu ddosbarthiadau neu ddarlithoedd neu ddosbarthiadau unigol a ddarperir ar sail reolaidd a gall gynnwys cwrs astudio sy'n arwain at arholiad neu at ddyfarnu cymhwyster.

3. Mae'r Ddeddf yn gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu pob sefydliad benderfynu o bryd i'w gilydd ar ffurf a chynnwys yr AG a ddarperir.

    - Yn achos hen goleg chweched dosbarth gwirfoddol neu hen ysgol a gynhelid â grant a oedd yn ysgol wirfoddol cyn iddi ddechrau cael ei chynnal â grant, rhaid i'r ffurf a'r cynnwys gyd-fynd â darpariaethau unrhyw weithred ymddiriedolaeth sy'n effeithio ar y sefydliad a rhaid iddynt beidio â mynd yn groes i draddodiadau crefyddol y sefydliad cyn iddo fynd yn sefydliad addysg bellach.

    - Yn achos pob sefydliad addysg bellach y mae adran 45 yn gymwys iddo, rhaid i ffurf a chynnwys yr addysg grefyddol a ddarperir adlewyrchu'r ffaith mai Cristnogol yn bennaf yw traddodiadau crefyddol Prydain Fawr, gan gymryd i ystyriaeth ddysgeidiaeth ac arferion y prif grefyddau eraill a gynrychiolir ym Mhrydain Fawr.

**Cydaddoli**

4. Mae adran 44 Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 yn ei gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu pob sefydliad addysg bellach, ac eithrio sefydliad a oedd ar 30 Medi 1992 yn goleg addysg bellach, sicrhau, ar amser priodol ar o leiaf un diwrnod bob wythnos pryd y mae'r sefydliad ar agor, fod cydaddoliad, y gall myfyrwyr fod yn bresennol ynddo, yn cael ei gynnal yn y sefydliad.

5. Mewn hen goleg chweched dosbarth gwirfoddol neu hen ysgol a gynhelid â grant a oedd yn ysgol wirfoddol cyn iddi ddechrau cael ei chynnal â grant, rhaid i'r cydaddoliad fod ar ffurf sy'n cydymffurfio â darpariaethau unrhyw weithred ymddiriedolaeth sy'n effeithio ar y sefydliad ac adlewyrchu traddodiadau ac arferion crefyddol y sefydliad cyn iddo fynd yn sefydliad addysg bellach. Ym mhob sefydliad addysg bellach arall y mae adran 44 yn gymwys iddo, rhaid i'r cydaddoliad fod yn gyfan gwbl neu'n bennaf yn gyffredinol Gristnogol ei gymeriad yn gymaint â bod yn rhaid iddo adlewyrchu traddodiadau bras y gred Gristnogol, ond heb orfod nodweddu unrhyw enwad Cristnogol arbennig.

6. Os cred corff llywodraethu sefydliad addysg bellach ei bod yn briodol, fe gaiff, yn ychwanegol at y cydaddoliadau y cyfeirir atynt ym mharagraff 5, ddarparu ar gyfer

cydaddoliadau sy'n adlewyrchu arferion rhai neu'r cyfan o'r traddodiadau crefyddol eraill a gynrychiolir ym Mhrydain Fawr.

**Arolygu**

7. Bydd Adran Arolygwyr y cyngor cyllido addysg bellach:

- yn cadarnhau'r trefniadau a wnaed gan golegau mewn ymateb i Adrannau 44 a 45 Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 ; ac

- yn cyflwyno sylwadau ar ansawdd Addysg Grefyddol a chydaddoliadau a welwyd yn ystod arolygiadau llawn mewn colegau.

# Atodiad E

**Cyfieithiad o Adran 26-29 Deddf Addysg 1944 fel y'u diwygiwyd gan Ddeddf Diwygio Addysg 1988**

26. – (1) Yn achos ysgol sirol y ddarpariaeth ar gyfer addysg grefyddol ar gyfer disgyblion yn yr ysgol y mae adran 2(1)(a) Deddf Diwygio Addysg 1988 yn ei gwneud yn ofynnol ei chynnwys yng nghwricwlwm sylfaenol yr ysgol fydd darpariaeth ar gyfer addysg grefyddol yn unol â maes llafur cytûn a fabwysiedir ar gyfer yr ysgol neu ar gyfer y disgyblion hynny.

(2) Ni fydd unrhyw faes llafur o'r fath yn darparu ar gyfer rhoi addysg grefyddol i ddisgyblion mewn ysgol o'r fath drwy gyfrwcj unrhyw gatecism neu fformwlari sy'n nodweddu unrhyw enwad crefyddol arbennig; ond ni chymerir bod y ddarpariaeth hon yn gwahardd darpariaeth mewn maes llafur o'r fath ar gyfer astudio catecism neu fformwlari o'r fath.

(3) Mae is-adran (4) isod yn gymwys lle lleolir ysgol uwchradd sirol fel nad oes modd gwneud trefniadau cyfleus ar gyfer tynnu disgyblion yn ôl o'r ysgol yn unol ag adran 9 y Ddeddf honno i gael addysg grefyddol mewn man arall.

(4) Mewn unrhyw achos o'r fath os bydd yr awdurdod addysg lleol yn fodlon -

(a) bod rhieni disgyblion sy'n mynychu'r ysgol yn awyddus iddynt gael addysg grefyddol yn yr ysgol yn unol â daliadau enwad crefyddol arbennig; a

(b) bod trefniadau boddhaol wedi'u gwneud i ddarparu'r addysg honno i'r disgyblion hynny yn yr ysgol, ac i sicrhau na fydd cost darparu'r addysg honno ar gyfer y disgyblion hynny yn yr ysgol yn dod i ran yr awdurdod;

bydd yr awdurdod, oni bai eu bod yn fodlon y byddai'n afresymol gwnued oherwydd unrhyw amgylchiadau arbennig, yn darparu cyfleusterau i weithredu'r trefniadau hynny.

27. - (1) Lle bydd rhieni unrhyw ddisgyblion sy'n mynychu ysgol a reolir yn gofyn iddynt gael addysg grefyddol yn unol â darpariaethau'r weithred ymddiriedolaeth sy'n ymwneud â'r ysgol, neu lle na wneir darpariaeth at y diben hwnnw gan weithred o'r fath yn unol â'r arferion a gedwid yn yr ysgol cyn iddi ddod yn ysgol a reolir, bydd y llywodraethwyr eglwysig, oni bai eu bod yn fodlon y byddai'n afresymol gwneud oherwydd amgylchiadau arbennig, yn gwneud trefniadau i sicrhau rhoi'r addysg grefyddol honno i ddisgyblion yn yr ysgol yn ystod hyd at ddau gyfnod ym mhob wythnos.

(2) Heb ragfarnu't ddyletswydd i wneud trefniadau o'r fath fel y dywedwyd uchod, byeth bynnag fydd nifer y staff addysgu yn yr ysgol, lle bydd nifer y staff addysgu mewn ysgol a reolir yn fwy na dau, bydd y staff addysgu yn cynnwys personau (y cyfeirir atynt yma wedi hyn fel 'athrawon crefydd') a ddewiswyd oherwydd eu ffitrwydd a'u cymhwysedd i roi'r gyfryw addysg grefyddol ag y mae'n ofynnol ei rhoi o dan y trefniadau hynny ac a benodir yn benodol i wneud hynny: ar yr amod na fydd nifer yr athrawon crefydd mewn unrhyw ysgol a reolir yn fwy nag un rhan o bump o nifer y staff addysgu yn yr ysgol gan gynnwys y pennaeth, er mwyn i nifer y staff addysgu, lle nad yw'n lluosrif o bump, gael ei drin at ddibenion yr is-adran hon fel pe bai y lluosrif uwch nesaf o bump.

(3) Ni fydd pennaeth ysgol a reolir, tra bydd yn dal y swydd honno, yn athro crefydd, [ond cyn penodi unrhyw berson i fod yn bennaeth ysgol o'r fath bydd yr awdurdod addysg lleol yn rhoi gwybod i lywodraethwyr yr ysgol am y person y bwriant ei benodi a byddant yn ystried unrhyw sylwadau a wneir gan y llywodraethwyr mewn perthynas â'r penodiad arfaethedig].

(4) Lle bydd yr awdurdod addysg lleol yn bwriadu penodi unrhyw berson i fod yn athro crefydd mewn ysgol a reolir, bydd yr awdurdod yn ymgynghori â llywodraethwyr hynny yn fodlon ar ffitrwydd a chymhwysedd y person i roi'r gyfryw adyysg grefyddol ag y mae gofyn madani yn unol â'r trefniadau hynny a nodwyd uchod rhaid i'r awdurdod beidio â phenodi'r person hwnnw i fod yn athro crefydd.

(5) Os bydd llywodraethwyr eglwysig ysgol a reolir o'r farn bod unrhyw athro crefydd wedi methu â rhoi'r gyfryw addysg grefyddol ag a nodwyd uchod yn effeithlon ac yn addas, cânt ei gwnued yn ofynnol i'r awdurdod ei ddiswyddo o'i gyflogaeth fel athro crefydd yn yr ysgol.

(6) Yn achso ysgol a reolir y ddarpariaeth ar gyfer addysg grefyddol ar gyfer disgyblion yn yr ysgol y mae adran 2(1)(a) Deddf Diwygio Addysg 1988 yn ei gwneud yn foynnol ei chynnwys yng nghwricwlwm sylfaenol yr ysgol fydd darpariaeth ar gyfer addysg grefyddol -

(a) yn unol ag unrhyw drefniadau a wnaed o dan is-adran (1) yr adran hon; neu

(b) yn ddarostyngedig i unrhyw drefniadau o'r fath, yn unol â maes llafur cytûn a fabwysiedir ar gyfer yr ysgol neu ar gyfer y disgyblion hynny.

**[Noder: mae'r geiriau mewn cromfachau sgwâr yn is-adran (3) wedi'u diddymu ymlaen llaw gan Ddeddf Addysg (rhif 2) 1986, ac nid ydynt yn gymwys i ysgolion a reolir sydd wedi mabwysiadu offerynnau ac erthyglau llywodraethu newydd o dan y Deddf].**

28. - (1) Yn achos ysgol a gynorthwyir neu ysgol cytundeb arbennig y ddarpariaeth ar gyfer addysg grefyddol ar gyfer disgyblion yn yr ysgol y mae adran 2(1)(a) Deddf Diwygio Addysg 1988 yn ei gwnued yn ofynnol ei chynnwys yng nghwricwlwm sylfaenol yr ysgol fydd darpariaeth ar gyfer addysg grefyddol -

(a) yn unol ag unrhyw darpariaeth yn y weithred ymddiriedolaeth sy'n ymwneud â'r ysgol neu, lle na wneir darpariaeth at y diben hwnnw gan weithred o'r fath, yn unol â'r arferion a gedwid yn yr ysgol cyn iddi ddod yn ysgol wirfoddol; neu

(b) yn unol ag unrhyw drefniadau o dan yr adran hon.

(1A) Yn ddarostyngedig i is-adran (1C) yr adran hon, bydd yr addysg grefyddol a roir i ddisgyblion mewn ysgol o'r fath o dan reolaeth llywodraethwyr yr ysgol.

(1B) Lle bydd rhieni disgyblion sy'n mynychu ysgol o'r fath -

(a) yn awyddus iddynt gael addysg grefyddol yn unol ag unrhyw faes llafur cytûn a fabwysiadwyd gan yr awdurdod addysg lleol; a

(b) yn methu, yn weddol gyfleus, ag achosi i'r disgyblion hynny fynychu unrhyw ysgol lle mae'r maes llafur hwnnw'n cael ei ddefnyddio;

yna, oni bai bod yr awdurdod yn fodlon y byddai'n afresymol gwneud oherwydd unrhyw amgylchiadau arbennig, gwneir trefniadau ar gyfer addysg grefyddol yn unol â'r addysg grefyddol honno yn yr ysgol yn unol â'r ddarpariaeth at y diben hwnnw a gynhwyswyd yng nghwricwlwm sylfaenol yr ysgol yn rhinwedd adran 2(1)(a) y Ddeddf honno.

(1C) Gwneir y trefniadau hynny gan lywodraethwyr yr ysgol, oni bai bod yr awdurdod addysg lleol yn fodlon bod y llywodraethwyr yn anfodlon gwneud y trefniadau, ac os felly cânt eu gwneud gan yr awdurdod.

(2) Os bydd athro a benodwyd i roi addysg grefyddol mewn ysgol a gymorthwyir, heblaw addysg yn unol â maes llafur cytûn, yn methu â rhoi'r addysg honno'n effeithlon ac yn addas, gellir ei ddiswyddo ar y sail honno gan lywodraethwyr yr ysgol heb ganiatâd yr awdurdod addysg lleol.

(3) Lle mae'r cytundeb arbennig a wnaed mewn perthynas ag unrhyw ysgol cytundeb arbennig yn darparu ar gyfer cyflogi athrawon crefydd, bydd yr awdurdod addysg lleol, pan fyddant yn bwriadu penodi unrhyw berson i fod yn athro o'r fath yn yr ysgol, yn ymgynghori â llywodraethwyr eglwysig yr ysgol, ac oni bau bod y llywodraethwyr hynny yn fodlon ar ffitrwydd a chymhwysedd y person hwnnw i roi'r gyfryw addysg grefyddol ag a nodwyd uchod, rhaid i'r awdurdod beidio â phenodi'r person hwnnw i fod yn athro o'r fath.

(4) Os yw llywodraethwyr eglwysig ysgol cytundeb arbennig o'r farn bod unrhyw athro crefydd fel a nodwyd uchod wedi methu â rhoi, yn effeithlon ac yn addas, y gyfryw addysg grefyddol ag y'i penodwyd i'w rhoi, cânt ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod ei ddiswyddo o'i gyflogaeth fel athro crefydd yn yr ysgol.

29. - (1) Bydd darpariaethau Pumed Atodlen y Ddeddf hon mewn grym mewn perthynas â pharatoi, mabwysiadu ac ailystyried maes llafur cytûn addysg grefyddol.

# Atodiad F

**Cyfieithiad o Atodlen 5 Deddf Addysg 1944 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Diwygio Addysg 1988 a Deddf Addysg 1993** [13]

1. Er mwyn paratoi unrhyw faes llafur addysg grefyddol i'w fabwysiadu gan awdurdod addysg lleol, bydd yr awdurdod yn peri cynnull cynhadledd a gyfansoddir yn unol â darpariaethau'r Atodlen hon.

2. Er mwyn cyfansoddi'r gyfryw gynhadledd ag a nodwyd uchod, bydd yr awdurdod addysg lleol yn penodi cyrff cyfansoddol (y cyfeirir atynt yma wedi fel 'pwyllgorau') a fydd yn cynnwys personau sy'n cynrychioli yn eu tro -

   (a) y cyfryw **enwadau** Cristnogol **a chrefyddau ac enwadau eraill o'r cyfryw grefyddau** ag a fydd, ym marn yr awdurdod, yn adlewyrchu'n briodol brif draddodiadau crefyddol yr ardal;

   (b) y cyfryw gymdeithasau sy'n cynrychioli athrawon ag a ddylai, ym marn yr awdurdod, gael eu cynrychioli, o roi sylw i amgylchiadau'r ardal; ac

   (c) yr awdurdod;

3. Cyn penodi person i gynrychioli unrhyw **grefydd**, enwad neu gymdeithasau fel aelod o unrhyw bwyllgor o'r fath, rhaid i awdurdod addysg lleol gymryd pob cam rhesymol i'w sicrhau eu hunan ei fod yn eu cynrychioli, ond ni fydd unrhyw drafodion o dan yr Atodlen hon yn annilys ar y sail nad oedd aelod o bwyllgor o'r fath yn cynrychioli'r enwadau neu'r cymdeithasau y'i penodwyd i'w cynrychioli oni bai y dangosir bod yr awdurdod addysg lleol wedi methu â chymryd y cyfryw gamau ag a nodwyd uchod.

4. Caiff person a benodir fel hyn ymddiswyddo o'i aelodaeth o unrhyw bwyllgor o'r fath neu gellir ei dynnu'n ôl o'r pwyllgor gan yr awdurdod addysg lleol os bydd ym marn yr awdurdod yn peidio â chynrychioli'r **grefydd**, yr enwad neu'r cymdeithasau y'i penodwyd i'w cynrychioli, neu'r awdurdod, yn ôl y digwydd; a lle **bydd person yn ymddiswyddo neu'n cael ei dynnu'n ôl o'r pwyllgor rhaid i'r awdurdod benodi rhywun yn ei le yn yr un modd ag a wnaethant y penodiad gwreiddiol.**

5. Bydd y gynhadledd yn cynnwys y pwyllgorau a nodwyd uchod a bydd yn ddyletswydd ar y gynhadledd i geisio cytundeb unfrydol ar faes llafur addysg grefyddol i'w argymell i'w fabwysiadu gan yr awdurdod addysg lleol.

6. Lle bydd yr awdurdod addysg lleol yn bwriadu mabwysiadu mwy nag un maes llafur addysg grefyddol i'w defnyddio mewn ysgolion a gynhelir ganddynt, rhaid i'r awdurdod roi gwybod i'r gynhadledd am yr ysgolion neu yn achos maes llafur y bwriedir ei ddefnyddio ar gyfer rhai disgyblion yn unig, am y dosbarth neu'r disgrifiad o ddisgyblion y defnyddir maes llafur a baratoi gan y gynhadledd ar eu cyfer.

7. Bydd unrhyw is-bwyllgorau a benodir gan y gynhadledd yn cynnwys o leiaf un aelod o bob un o'r pwyllgorau sy'n ffurfio'r gynhadledd.

[13] Diwygiadau Deddf 1993 mewn print tywyll.

8. Ar unrhyw gwestiwn sydd i'w benderfynu gan y gynhadledd neu gan unrhyw is-bwyllgor o'r gynhadledd, un bleidlais yn unig a fwrir ar gyfer pob un o'r pwyllgorau sy'n ffurfio'r gynhadledd.

9. Os bydd y gynhadledd yn unfrydol yn argymell unrhyw faes llafur addysg grefyddol, caiff yr awdurdod ei fabwysiadu i'w ddefnyddio yn yr ysgolion, neu ar gyfer y dosbarth neu'r disgrifiad o ddisgyblion y paratowyd ef ar eu cyfer.

10. Os bydd yr awdurdod yn cyflwyno adraoddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol fo dy gynhadledd yn methu â chyrraedd cytundeb unfrydol fel y nodwyd uchod, neu os ymddengys i'r Ysgrifennydd Gwladol fod awdurdod wedi methu â mabwysiadu unrhyw faes llafur a argymhellwyd yn unfrydol iddynt gan y gynhadledd, bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn penodi i baratoi maes llafur addysg grefyddol, gorff o bersonau sydd â phrofiad mewn addysg grefyddol a fydd, cyn belled ag y bo'n ymarferol, o gymeriad cynrychioliadol tebyg yn unol â gofynion paragraff 2 yr Atodlen hon yn achos cynhadledd.

11. Bydd y corff o bersonau a benodir fel hyn:

(a) yn rhoi i'r awdurdod, y gynhadledd, a phob pwyllgor sy'n ffurfio'r gynhadledd, gyfl;e i gyflwyno sylwadau idynt ond, ac eithrio fel a nodwyd uchod, cânt gynnal y trafodion yn y cyfryw fodd ag y gwelant yn dda;

(b) ar ôl ystyried unrhyw sylwadau o'r fath a gyflwynir iddynt, yn paratoi maes llafur addysg grefyddol;

(c) yn trosglwyddo copi o'r maes llafur a enwyd i'r awdurdod ac i'r Ysgrifennydd Gwladol;

ac o'r cyfryw ddyddiad ag a gyfarwyddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol, bernir mai'r maes llafur a baratowyd fel hyn fydd y maes llafur cytûn a fabwysiedir i'w ddefnyddio yn yr ysgolion, neu ar gyfer y dosbarth neu'r disgrifiad o ddisgyblion y paratowyd ef ar eu cyfer nes paratoi maes llafur pellach i'w ddefnyddio yn yr ysgolion hynny, neu ar gyfer y disgyblion o'r dosbarth neu'r disgrifiad hwnnw, yn unol â darpariaethau'r Atodlen hon.

**12. (1) Bydd awdurdod addysg lleol yn peri cynnull cynhadledd ar unrhyw amser y gofynir amdano gan is-baragraff (2) neu (3) y paragraff hwn er mwyn ystyried unrhyw faes llafur cytûn a fabwydiadwyd ganddynt am y tro ac a fabwysiadwyd cyn y dyddiad penodedig.**

**(2) Lle bu iddynt fabwysiadu'r maes llafur cyn 29 Medi 1988 neu ar ôl hynny, byddant yn cynnull cynhadledd o fewn y cyfnod o flwyddyn sy'n dechrau gyda'r dyddiad penodedig.**

**(3) Lle bu iddynt fabwysiadu'r maes llafur ar 29 Medi 1988 ar ôl hynny, byddant yn cynnull cyfarfod -**

**(a) o fewn y cyfnod o bum mlynedd sy'n dechrau gyda'r dyddiad pryd y bu iddynt ei fabwysiadu, neu**

**(b) o fewn y cyfnod o flwyddyn yn dechrau gyda'r dyddiad penodedig,**

**p’un bynnag sydd hwyraf.**

**(4) Bydd awdurdod addysg lleol o bryd i’w gilydd yn peri cynull cynadleddau pellach er mwyn ailystyried unrhyw faes llafur cytûn a fabwysiadwyd am y tro ganddynt (p’un a fabwysiadwyd ef cyn, ar neu ar ôl y dyddiad penodedig); a rhaid cynnull unrhyw gynhadledd o’r fath cyn y daw’r cyfnod o bum mlynedd i ben sy’n dechrau gyda’r dyddiad neu ar ôl y dyddiad penodedig pryd -**

**(a) y mabwysiadodd yr awdurdod y maes llafur, neu**

**(b) y gweithredodd yr awdurdod argymhelliad o dan baragraff 13 yr Atodlen hon y dylai’r maes llafur barhau i fod yn faes llafur cytûn.**

**(5) Yn y paragraff hwn -**

**(a) ystyr "dyddiad penodedig" yw’r dyddiad a bennir i adran 256 Deddf Addysg 1993 gychwyn, a**

**(b) mae cyfeiriadau at y dyddiad pryd y mae awdurdod addysg lleol yn mabwysiadu maes llafur yn cynnwys cyfeiriad at y dyddiad pryd y mae’r Ysgrifennydd Gwladol yn cyfarwyddo mai dyna’r dyddiad y bernir mai maes llafur a baratowyd o dan baragraff 11 yr Atodlen hon yw’r maes llafur cytûn.**

13. (1) Mae darpariaethau canlynol y paragraff hwn yn gymwys lle bydd awdurdod addysg lleol yn peri cynnull cynhadledd o’r fath er mwyn ailystyried unrhyw faes llafur cytûn, naill ai o dan baragraff 12 yr Atodlen hon neu o dan adran 11(8) Deddf Diwygio Addysg 1988 (dyletswydd awdurdod i beri cynnull cynhadledd o’r fath os gofynnir ido wneud gan grwpiau cynrychioliadol ar y cyngor ymgynghorol sefydlog ar addysg grefyddol).

(2) Os bydd y gynhadledd yn unfrydol yn argymell mai’r maes llafur presennol a ddylai barhau i fod yn faes llafur cytûn **ac os yw’n ymddangos i’r awdurdod addysg lleol fod y maes llafur yn adlewyrchu’r ffaith bod traddodiadau crefyddol Prydain Fawr yn Gristnogol yn bennaf, gan gymryd i ystyriaeth ddysgeidiaeth ac arferion y prif grefyddau eraill a gynrychiolir ym Mhrydain Fawr**, caiff yr awdurdod weithredu’r argymhelliad.

(3) Os -

(a) bydd yn gynhadledd yn unfrydol yn argymell mabwysiadu maes llafur newydd yn lle’r maes llafur bresennol; a

(b) os ymddengys i’r awdurdod fod y maes llafur newydd yn cydymffurfio ag adran 8(3) y Ddeddf honno (maes llafur cytûn i adlewyrchu traddodiadau crefyddol Cristnogol yn bennaf);

caiff yr awdurdod weithredu’r argymhelliad.

(4) Os -

(a) bydd yr awdurdod yn cyflwyno adroddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol na all y gynhadledd ddod i gytundeb unfrydol.

**(aa) os bydd y gynhadledd yn unfrydol yn argymell y dylai'r maes llafur presennol barhau i fod yn faes llafur cytûn ond bod yr awdurdod addysg lleol o'r farn bod is-baragraff (2) y paragraff hwn yn eu hatal rhag gweithredu'r argymhelliad; neu**

(b) os ymddengys i'r Ysgrifennydd Gwladol fod yr awdurdod wedi methu ag ymarfer eu pŵer o dan is-baragraff (2) neu (3) uchod i weithredu argymhelliad unfrydol y gynhadledd;

bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn bwrw ymlaen yn unol â darpariaethau paragraff 10 yr Atodlen hon, a bydd paragraff 11 yr Atodlen hon yn gymwys yn unol â hynny..

**Darpariaethau yn adran 15 Deddf Addysg 1993 ar gyfer ail-gynnull cynhadledd**

14. - (1) Mae'r adran hon mewn grym mewn perthynas ag ardal awdurdod addysg lleol os yw gorchymyn o dan adran 12(1)(b) Ddeddf hon yn gymwys i'r ardal.

(2) Cyn pen chwe mis ar ôl dyddiad y gorchymyn cyntaf o'r fath bydd yr awdurdod addysg lleol yn ail-gynnull unrhyw gynhadledd -

(a) y maent wedi'i chynnull at y diben a nodwyd ym mharagraff 1 neu 12 Pumed Atodlen Deddf Addysg 1944 (gweithdrefn paratoi a gweithredu maes llafur cytûn addysg grefyddol) neu adran 11(8) y Deddf Diwygio Addysg (cynghorau ymgynghorol sefydlog ar addysg grefyddol), a

(b) y mae is-adran (3) isod yn gymwys iddi.

(3) Mae'r is-adran hon yn gymwys i unrhyw gynhadledd -

(a) sydd heb wneud argymhelliad o dan baragraff 9 neu 13(2) yr Atodlen honno, a

(b) nad yw'r awdurdod wedi cyflwyno adroddiad mewn perthynas â hi o dan baragraff 10 neu 13(4) yr Atodlen honno.

(4) Lle caiff cynhadledd eu chynnull (neu ei hail-gynnull) ar ôl dyddiad gorchymyn -

(a) bydd paragraff 2 yr Atodlen honno mewn grym fel petai'n ei gwneud yn ofynnol penodi pwyllgor, yn ogystal â'r rhai a restrwyd yn is-baragraffau (a) – (d) y paragraff hwnnw, yn cynnwys personau yn cynrychioli ysgolion perthnasol sy'n cael eu cynnal â grant, a

(b) bydd adran 146 y Deddf hon mewn grym yn unig mewen perthynas ag ysgolion a gynhelir â grant, neu â disgyblion yn yr ysgolion hynny, lle mae'r maes llafur yn cael ei ddefnyddio yn unol ag adran 140(3) y Ddeddf hon.

(5) Cyn penodi person i gynrychioli ysgolion perthnasol sy'n cael eu cynnal â grant yn unol ag is-adran (4)(a) uchod, bydd yr awdurdod addysg lleol yn cymryd pob cam rhesymol

i'w sicrhau eu hunain ei fod yn dderbyniol i gyrff llywodraethu'r mwyafrif o ysgolion o'r fath; ond ni fydd unrhyw drafodion o dan yr Atodlen honno yn annilys ar y sail nad oedd y person yn dderbyniol oni bai y dangosir bod yr awdurdod addysg lleol wedi methu â chymryd camau o'r fath.

(6) Caiff person a benodir fel hyn ymddiswyddo o'i aelodaeth o'r pwyllgor neu os yw, ym marn yr awdurdod addysg lleol, yn peidio â bod yn dderbyniol fel cynrychiolydd yr ysgolion perthnasol a gynhelir â grant i gyrff llywodraethu'r mwyafrif o'r ysgolion hynny, gall gael ei dynnu'n ôl o'r pwyllgor gan yr awdurdod; a lle bydd person yn ymddiswyddo neu'n cael ei dynnu'n ôl o'r pwyllgor bydd yr awdurdod yn penodi rhywun yn ei le yn yr un modd ag a wnaethant y penodiad gwreiddiol.

(7) At ddibenion yr adran hon, ystyr "ysgolion perthnasol a gynhelir â grant" yw'r ysgolion hynny a gynhelir â grant yn ardal yr awdurdod addysg lleol y mae adran 138 neu 139 y Ddeddf hon yn gymwys iddynt.

# Atodiad G

## Gofynion Cydaddoli

### Cyfieithiad o'r Ddeddf Diwygio Addysg 1988, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Addysg 1993 [14]

6. -(1) Yn ddarostyngedig i adran 9 y Ddeddf hon, rhaid i bob disgybl sy'n mynychu ysgol a gynhelir gymryd rhan mewn cydaddoliad ar bob diwrnod ysgol.

(2) Caiff y trefniadau ar gyfer cydaddoliad mewn ysgol sy'n ofynnol yn ôl yr adran hon, mewn perthynas â phob diwrnod ysgol, ddarparu ar gyfer un addoliad ar gyfer pob disgybl neu ar gyfer gwahanol addoliadau ar gyfer disgyblion mewn gwahanol grwpiau oedran neu mewn gwahanol grwpiau ysgol.

(3) Rhaid i'r trefniadau ar gyfer y cydaddoliad mewn ysgol sirol neu ysgol wirfoddol sy'n ofynnol yn ôl yr adran hon gael eu gwneud -

(a) yn achos ysgol sirol, gan y pennaeth ar ôl ymgynghori â'r corff llywodraethu; a

(b) yn achos ysgol wirfoddol, gan y corff llywodraethu ar ôl ymgynghori â'r pennaeth.

(4) Yn ddarostyngedig i is-adran (5) isod, bydd y cydaddoliad ym mhob ysgol a gynhelir sy'n ofynnol yn ôl yr adran hon yn digwydd yn adeiladu'r ysgol.

(5) Os bydd corff llywodraethu -

(a) ysgol a gynorthwyir; neu

(b) ysgol a gynhelir â grant.

O'r farn ei bod yn ddymunol i unrhyw gydaddoliad yn yr ysgol sy'n ofynnol yn ôl yr adran hon, ar achlysur arbennig, ddigwydd mewn man arall heblaw yn adeiladau'r ysgol, cânt wneud y cyfryw drefniadau at y diben hwnnw ag y credant eu bod yn briodol.

(6) Rhaid peidio ag ymarfer pwerau corff llywodraethu o dan is-adran (5) uchod mewn modd sy'n tynnu oddi ar y rheol, ym mhob ysgol o'r fath ag a grybwyllir yno, fod rhaid fel rheol i'r cydaddoliad sy'n ofynnol yn ôl yr adran hon ddigwydd ar eiddo'r ysgol.

(7) At ddibenion yr adran hon -

nid yw "ysgol a gynhelir" yn cynnwys ysgol arbennig a gynhelir; ac

ystyr "grŵp ysgol" yw unrhyw grŵp y caiff disgyblion eu haddysgu ynddo neu y byddant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau eraill yr ysgol ynddo.

7. - (1) Yn ddarostyngedig i darpariaethau canlynol yr adranhon, yn achos ysgol sirol bydd y cydaddoliad sy'n ofynnol yn yr ysgol yn ôl adran 6 y Ddeddf hon yn gyfan gwbl neu'n bennaf o gymeriad cyffredinol Gristnogol.

[14] Mae'r diwygiadau mewn print tywyll.

(2) At ddibenion is-adran (1) uchod, mae cydaddoliad o gymeriad cyffredinol Gristnogol os yw'n adlewyrchu traddodiadau bras y gred Gristnogol heb nodweddu unrhyw enwad Cristnogol arbennig.

(3) Nid oes angen i bob cydaddoliad sy'n ofynnol yn ôl adran 6 y Ddeddf hon yn achos ysgol sirol gydymffurfio ag is-adran (1) uchod ar yr amod, o gymryd unrhyw dymor ysgol yn ei grynswth, fod y mwyafrif o'r cydaddoliadau hynny sy'n digwydd yn yr ysgol yn cydymffurfio â'r is-adran honno.

(4) Yn ddarostyngedig i is-adrannau (1) a (3) uchod fe fydd -

(a) i ba raddau (os o gwbl) y mae unrhyw gydaddoliadaau sy'n ofynnol yn ôl adran 6 y Ddeddf hon nad ydynt yn cydymffurfio ag is-adran (1) uchod yn digwydd mewn ysgol sirol;

(b) i ba raddau y mae unrhyw gydaddoliad mewn ysgol sirol sy'n cydymffurfio ag is-adran (1) uchod yn adlewyrchu traddodiadau bras y gred Gristnogol; ac

(c) y ffyrdd y caiff y traddodiadau hynny eu hadlewyrchu mewn unrhyw gydaddoliad o'r fath;

yn gyfryw ag y bydd yn briodol o roi sylw i unrhyw ystyriaethau perthnasol sy'n ymwneud â'r disgyblion o dan sylw y methir â'u cymryd i ystyriaeth yn unol ag is-adran (5) isod.

(5) Yr ystyriaethau hynny yw -

(a) unrhyw amgylchiadau sy'n ymwneud â chefndir teuluol y disgyblion o dan sylw sy'n berthnasol ar gyfer penderfynu ar gymeriad y cydaddoli sy'n briodol yn eu hachos hwy; a

(b) eu hoedran a'u cymwyseddau.

(6) Lle bydd cyngor ymgynghorol sefydlog ar addysg grefyddol yn penderfynu o dan 12 y Ddeddf hon nad yw'n briodol i is-adran (1) uchod fod yn gymwys yn achos unrhyw ysgol sirol, neu yn achos unrhyw ddosbarth neu ddisgrifiad o ddisgyblion mewn ysgol o'r fath, yna, cyhyd ag y bydd y penderfyniad hwnnw mewn grym -

(a) ni fydd yr is-adran honno'n gymwys mewn perthynas â'r ysgol honno neu (yn ôl y digwydd) mewn perthynas â'r disgyblion hynny; a

(b) ni fydd y cydaddoli sy'n ofynnol yn ôl adran 6 y Ddeddf hon yn achos yr ysgol honno neu'r disgyblion hynny yn nodweddu unrhyw enwad Cristnogol arbennig neu unrhyw enwad crefyddol arall (ond ni chymerir bod hyn yn atal yr addoli hwnnw rhag nodweddu unrhyw ffyrdd arbennig).

12. - (1) Bydd ar y cyngor, os ceir cais a wneir gan:

**(a) pennaeth unrhyw ysgol sirol; neu**

**(b) pennaeth unrhyw ysgol a gynhelir â grant y mae adran 138 Deddf Addysg 1993 yn gymwys iddi ac sydd yn ardal yr awdurdod addygs lleol a gyfansoddodd y cyngor,**

ar ôl ymgynghori â'r corf llywodraethu, ddyletswydd i ystyried a yw'n briodol i'r gofyniad ynghylch cydaddoli Cristnogol fod yn gymwys yn achos yr ysgol honno, neu yn achos unrhyw ddosbarth neu ddisgrifiad o ddisgyblion yn yr ysgol honno.

Mae cyfeiriadau yn yr adran hon at y gofyniad ynghylch cydaddoliad Cristnogol yn gyfeiriadau at y gofyniad a orfodir gan adran 7(1) **y Ddeddf hon neu, yn ôl y digwydd, adran 138(2) Deddf Addysg 1993.**

(2) Wrth benderfynu a yw'n briodol i'r gofyniad hwnnw fod yn gymwys yn achos unrhyw ysgol o'r fath neu yn achos unrhyw ddosbarth neu ddisgrifiad o ddisgyblion mewn ysgol o'r fath, rhaid i'r cyngor roi sylw i unrhyw amgylchiadau sy'n ymwneud â chefndir teuluol disgyblion yn yr ysgol beu ddisgyblion yn y odsbarth neu'r disgrifiad arbennig o dan sylw sy'n berthnasol er mwyn penderfynu ar gymeriad y cydaddoli sy'n briodol yn eu hachos hwy.

(3) Rhaid i'r cyngor roi i unrhyw bennaeth sydd wedi gwneud cais iddynt o dan yr adran hon hysbysiad ysgrifenedig o'u penderfyniad ar y cais.

(4) Lle bydd y cyngor yn penderfynu ar unrhyw gais o dan yr adran hon nad yw'n briodol i'r gofyniad ynghylch cydaddoli Cristnogol fod yn gymwys yn achos yr ysgol neu unrhyw ddosbarth neu ddisgrifiad o ddisgyblion yn yr ysgol o dan sylw, bydd y penderfyniad hwwn mewn grym at ddibenion adran 7 **y Ddeddf hon neu, yn ôl y digwydd, adran 138 Deddf Addysg 1993** ar y cyfryw ddyddiad ag a bennir yn yr hysbysiad o'u penderfyniad o dan is-adran (3) uchod.

(5) Rhaid i unrhyw benderfyniad gan y cyngor o dan yr adran hon na fydd y gofyniad ynghylch cydaddoli Cristnogol yn gymwys yn ei sgil am y tro yn achos unrhyw ysgol neu unrhyw ddosbarth neu ddisgrifiad o ddisgyblion mewn unrhyw ysgol gael ei adolygu gan y cyngor -

(a) ar unrhyw adeg ar gais a wneir gan bennaeth yr ysgol ar ôl ymgynghori â'r corff llywodraethu; a

(b) beth bynnag cyn pen diwedd y cyfnod o bum mlynedd sy'n dechrau ar y dyddiad pryd y daeth y penderfyniad i rym gyntaf neu (lle mae wedi'i adolygu o dan yr is-adran hon) gyda dyddiad gweithredol y penderfyniad ar yr adolygiad diwethaf o'r fath.

(6) Ar unrhyw adolygiad o dan is-adran (5)(b) uchod rhaid i'r cyngor roi cyfle i'r pennaeth gyflwyno sylwadau mewn perthynas â'r penderfyniad sy'n cael ei adolygu; a rhaid i'r pennaeth ymgynghori â'r corff llywodraethu cyn cyflwyno unrhyw sylwadau o'r fath.

(7) Ar unrhyw adolygiad o dan is-adran (5) uchod caiff y cyngor gadarnhau (gydag amrywiad neu hebddo) neu ddiddymu'r penderfyniad sy'n cael ei adolygu (heb ragfarn,

mewn achos lle byddant yn diddymu'r penderfyniad, i unrhyw benderfyniad pellach o dan yr adran hon); a rhaid iddynt roi i bennaeth yr ysgol hysbysiad ysgrifenedig o'u penderfyniad gan bennu'r dyddiad gweithredol ar gyfer y penderfyniad hwnnw at ddibenion is-adran (5)(b) uchod.

(8) Bydd unrhyw benderfyniad gan y cyngor y mae'n ofynnol ei adolygu o dan is-adran (5)(b) uchod yn peidio â bod mewn grym, os na chaiff ei gadarnhau ar adolygiad o'r fath, ar ddiwedd y cyfnod y cyfeiriwyd ato ynddo.

(9) Mae corff llywodraethu unrhyw ysgol sirol **neu unrhyw ysgol a gynhelir â grant y mae is-adran (1) uchod yn gymwys iddi**, pan ymgynghorir â hwy gan y pennaeth o dan yr adran hon, os credant ei bod yn briodol, yn cymryd y cyfryw gamau ag y credant eu bod yn briodol i ymgynghori â'r holl bersonau y mae'n ymddangos iddynt eu bod yn rhieni i ddisgyblion cofrestredig yn yr ysgol.

(10) Bydd unrhyw gais a wneir i'r cyngor o dan yr adran hon yn cael ei wneud yn y cyfryw fodd a ffurf ag y bydd y cyngor yn gofyn amdanynt.

**(11) Lle gwneir cais o dan is-adran (1)(a) uchod mewn perthynas ag ysgol sy'n dod yn ysgol a gynhelir â grant cyn i'r cais gael ei benderfynu, fe fydd yn parhau i gael ei ystyried fel pe bai wedi'i wneud o dan is-adran (1)(b) uchod oni bai ei fod yn cael ei dynnu'n ôl gan y pennaeth.**

**12A. -(1) Lle mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn fodlon, naill ai ar gwyn gan unrhyw berson neu fel arall, fod unrhyw gyngor ymgynghorol sefydlog ar addysg grefyddol -**

**(a) wedi gweithredu, neu'n bwriadu gweithredu, yn afresymol wrth benderfynu at ddibenion is-adran (1) neu (5) adran 12 y Ddeddf hon a yw'n briodol i'r gofyniad ynghylch cydaddoli Cristnogol fod yn gymwys yn achos unrhyw ysgol neu unrhyw ddosbarth neu ddisgrifiad o ddisgyblion mewn ysgol, neu**

**(b) wedi methu â chyflawni unrhyw ddyletswydd a orfodir o dan yr adran honno,**

**caiff roi i'r cyngor y cyfryw gyfarwyddiadau ynghylch diddymu'r penderfyniad neu dynnu'r penderfyniad arfaethedig yn ôl neu (yn ôl y digwydd) ynghylch cyflawni'r ddyletswydd ag sy'n ymddangos yn gyfleus iddo; a rhaid i'r cyngor gydymffurfio â'r cyfarwyddiadau.**

**(2) Gall cyfarwyddiadau o dan is-adran (1) uchod ddarparu i'r cyngor wneud penderfyniad newydd i ddod i rym yn lle'r penderfyniad neu'r penderfyniad arfaethedig sydd i'w ddiddymu neu i'w dynnu'n ôl ganddynt.**

**(3) Yn yr adran hon, ystyr "gofyniad ynghylch cydaddoli Cristnogol" yw'r gofyniad a orfodir gan adran 7(1) y Ddeddf hon neu, yn ôl y digwydd, adran 138(2) Deddf Addysg 1993.**

# Atodiad H

**Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol: Cyfansoddiad a Threfniadau Pleidleisio**

**Cyfieithiad o is-adrannau o adran 11 Deddf Diwygio Addysg 1988, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Addysg 1993** [15]

(3) Bydd y cyngor yn cynnwys -

(a) yr aelodau cynrychioliadol y gofynir amdanynt gan is-adran (4) isod; a and

**(b) person a benodir gan gyrff llywodraethu'r ysgolion a gynhelir â grant o fewn ardal yr awdurdod addysg lleol y mae adran 138 neu 139 Deddf Addysg 1993 yn gymwys iddynt;**

a gall hefyd gynnwys aeloday cyfetholedig.

(4) Yn ddarostyngedig i is-adran (5) isod, yr aelodau cynrychioliadol y gofynnir amdanynt gan yr is-adran hon yw bersonau a benodir gan yr awdurdod i gynrychioli yn eu tro -

(a) y cyfryw **enwadau** Cristnogol **a chrefyddau eraill ac enwadau crefyddau eraill** ag a fydd, ym marn yr awdurdod, yn adlewyrchu'n briodol brif draddodiadau crefyddol yr ardal;

(b) ac eithrio yn achos ardal yng Nghymru, Eglwys Lloegr;

(c) y cyfryw gymdeithasau sy'n cynrychioli athrawon ag a ddylai, ym marn yr awdurdod ac o gofio amgylchiadau'r ardal, gael eu cynrychioli; a

(d) yr awdurdod;

ac mae'r cyfeiriadau isod yn yr adran hon at grwpiau cynrychioliadol ar y cyngor yn gyfeiriadau at yr aelodau a benodir yn rhinwedd paragraffau (a), (c) a (d) uchod yn eu tro, a lle mae'n ofynnol penodi aelodau yn rhinwedd paragraff (b) uchod, yr aelodau a benodir felly **a bydd nifer yr aelodau a benodir i unrhyw grŵp cynrychioliadol o dan baragraff (a) yr is-adran honno i gynrychioli pob enwad neu grefydd y mae'n ofynnol eu cynrychioli, cyn belled ag y bo'n gyson â chyflawni swyddogaethau'r grŵp yn effiethlon, yn adlewyrchu'n fras gryfder cyfrannol yr enwad hwnnw neu'r grefydd honno yn yr ardal.**

(5) Lle mae'n ofynnol penodi aelodau yn rhinwedd paragraff (b) is-adran (4) uchod, ni fydd yr aelodau cynrychioliadol y gofynnir amdanynt gan baragraff (a) yr is-adran honno yn cynnwys personau a benodir i gynrychioli Eglwys Lloegr.

[15] Mae'r diwygiadau mewn print tywyll.

(6) Ar unrhyw gwestiwn sydd i'w benderfynu gan y cyngor dim ond y grwpiau cynrychioliadol ar y cyngor a fydd â'r hawl i bleidleisio, ac un bleidlais a fydd gan bob grŵp o'r fath.

(7) Caiff y grwpiau cynrychioliadol ar y cyngor, heblaw hwnnw sy'n cynnwys personau a benodir i gynrychioli'r awdurdod, ar unrhyw amser, ei gwneud yn ofynnol cynnal adolygiad o unrhyw faes llafur cytûn a fabwysiadwyd am y tro gan yr awdurdod.

Un bleidlais a fydd gan bob grŵp cynrychioliadol o dan sylw ar y cwestiwn a ddylid ei gwneud yn ofynnol cynnal adolygiad o'r fath.

**Darpariaethau atodol yn Adran 13 Deddf 1988**

(1) Cyn penodi person i gynrychioli unrhyw **grefydd**, enwad neu gymdeithasau fel aelod o'r cyngor rhaid i'r awdurdod addysg lleol o dan sylw gymryd pob cam rhesymol i'w sicrhau eu hunain ei fod yn cynrychioli'r **grefydd**, yr enwad neu'r cymdeithasau o dan sylw.

(2) Gellir diswyddo aelod o'r cyngor a benodwyd gan yr awdurdod o'i aelodaeth gan yr awdurdod os bydd ym marn yr awdurdod yn peidio â chynrychioli'r **grefydd**, yr enwad neu'r cymdeithasau y'i penodwyd i'w cynrychioli neu (yn ôl y digwydd) yr awdurdod.

(3) Gall unrhyw aelod o'r cyngor y gofynnir amdano gan adran (11)(3)(b) y Ddeddf hon ar unrhyw amser gael ei ddswyddo o'i aelodaeth gan corff llywodraethu neu (yn ôl y digwydd) gan gyrff llywodraethu yr ysgol neu'r ysgolion a gynhelir â grant o dan sylw.

(4) Yn is-adran (3) yr adran honno sytyr "aelod cyfetholedig" yw person a gyfetholwyd yn aelod o'r cyngor gan aelodau'r cyngor nad ydynt eu hunain wedi'u cyfethol, a bydd person a gyfetholir fel hyn yn dal ei swydd ar y cyfryw delerau ag a bennir gan yr aelodau sy'n ei gyfethol.

(5) Caiff unrhyw aelod o'r cyngor ymddiswyddo o'i swydd ar unrhyw amser.

(6) Yn is-adran (3) yr adran honno, caiff y cyngor ac, mewn perthynas ag unrhyw gwestiwn sydd i'w benderfynu gan aelodau'r cyngor o unrhyw gategori penodol, caiff aelodau'r categori hwnnw reoli eu trafodion eu hunain.

(7) Nid effeithir ar ddilysrwydd trafodion y cyngor neu draffoion aelodau'r cyngor o unrhyw gategori penodol -

   (a) gan swydd wag ar gyfer unrhyw aelod o'r cyngor y gofynnir amdano gan is-adran (3) yr adran honno; neu

   (b) ar y sail nad yw aelod o'r cyngor a benodwyd i gynrychioli unrhyw **grefydd**, enwad neu gymdeithasau, adeg y trafodion, yn cynrychioli'r **grefydd**, yr enwad neu'r cymdeithasau o dan sylw.

**Darpariaethau yn Adran 16 Deddf Addysg 1993 ar gyfer ailgyfansoddi CYSAG**

16. – (1) Mae'r adran hon mewn grym mewn perthynas ag ardal awdurdod addysg leol os oes gorchymyn o dan adran 12(1)(b) y Ddeddf hon yn gymwys i'r ardal.

(2) Cyn pen chwe mis ar ôl dyddiad y gorchymyn cyntaf o'r fath bydd yr awdurdod addysg lleol yn cyfansoddi cyngor newydd o dan adran 11 Deddf Diwygio Addysg 1988 (cynghorau ymgynghorol sefydlog ar addysg grefyddol).

(3) At ddibenion y cyfansoddiad y gofynnir amdano gan is-adran (2) uchod (ac unrhyw gyfansoddiad dilynol) bydd yr adran honno mewn grym -

(a) fel pe bai is-adran (3)(b) wedi'i hepgor;

(b) fel pe bai is-adran (4) yn gofyn am benodi grwp cynrychioliadol, yn ogystal â'r rhai a restrwyd ym mharagraffau (a) – (d) yr is-adran honno, yn cynnwys personau sy'n cynrychioli ysgolion perthnasol a gynhelir â grant; ac

(c) yn is-adran (7) -

(i) fel petai "hwnnw y rhai" wedi'u disodli gan "hynny", a

(ii) fel pe bai "neu'r ysgolion perthnasol a gynhelir â grant" wedi'i ddodi ar ôl "i gynrychioli'r awdurdod".

(4) At ddibenion is-adran (3) uchod, ystyr "ysgolion perthnasol a gynhelir â grant" yw'r ysgolion a hynny a gynhelir â granto fewn ardal yr awdurdod addysg lleol y mae adran 138 neu 139 y Ddeddf hon yn gymwys iddynt.

(5) Cyn penodi person i gynrychioli'r ysgolion perthnasol a gynhelir â grant yn unol ag is-adran (3) uchod rhaid i'r awdurdod addysg lleol gymryd pob cam rhesymol i'w sicrhau eu hunain ei fod yn dderbyniol fel y cyfryw i gyrff llywodraethu y mwyafrif o'r ysgolion hynny; ond nid effeithir ar ddilysrwydd y trafodion am nad oedd y person yn dderbyniol fel hyn oni bai y dangosir bod yr awdurdod addysg lleol wedi methu â chymryd camau o'r fath.

(6) Gall person a benodir i gynrychioli ysgolion perthnasol a gynhelir â grant yn unol ag is-adran (3) uchod gael ei ddiswyddo o'i aelodaeth o'r cyngor os bydd ym marn yr awdurdod addysg lleol yn peidio â bod yn dderbyniol fel y cyfryw i gyrff llywodraethu y mwyafrif o'r ysgolion hynny.

## Mynegai


| | | |
|---|---|---|
| **A** | ACAC | 8, 15, 25 |
| | Addysg enwadol | 31-32 |
| | Addysg foesol | 9, 11, 15, 18, 32, 34, 36 |
| | Addysg grefyddol (AG) | 5-17, 23-26, 28-33, 34, 36-37 |
| | Addysg grefyddol mewn: | |
| | - Colegau Chweched Dosbarth | 10, 42, 43 |
| | - Colegau Technoleg Dinas | 10, 41 |
| | - Ysgolion AGAG sy'n cyfateb i ysgolion a gynorthwyir | 12, 32 |
| | - Ysgolion AGAG sy'n cyfateb i ysgolion sirol | 11, 12 |
| | - Ysgolion arbennig | 10, 40 |
| | - Ysgolion gwirfoddol a gymorthwyir (ac ysgolion cytundeb arbennig) | 11, 12, 31, 32 |
| | - Ysgolion gwirfoddol a reolir | 11, 12, 31-32 |
| | - Ysgolion sirol | 11, 12 |
| | Addysg ysbrydol | 9, 11, 17, 18, 30-32, 34, 36 |
| | Adolygiad o'r maes llafur cytûn | 6-8, 13-14, 24, 32, 57 |
| | Adrodddiad blynyddol (CYSAG) | 8, 25 |
| | Adroddiadau i rieni | 5, 31 |
| | Ailgynnull cynhadledd maes llafur cytûn | 7, 50-51 |
| | Amser ar gyfer Addysg Gefyddol | 11, 15 |
| | Arholiad safon A ac AS | 16 |
| | Arolygu | 6, 10, 25, 31-32, 43 |
| | Arolygydd "Adran 13" | 32 |
| | Athrawon | 34-37 |
| | Awdurdod Addysg Lleol | 5-8, 11-14, 16-17, 18, 22, 24-28, 30, 32, 32-33, 34-35, 36-39, 44-51, 53, 56-58 |
| | Awdurdod Cwricwlwm ac Asesu Ysgolion (ACAY) | 15 |
| **C** | Corff Llywodraethu | 5-6, 10, 11-12, 15-16, 18-19, 21-22, 31-33, 34, 38-39, 42, 52-54, 56-58 |
| | Cwricwlwm sylfaenol | 11, 44, 45 |
| | Cwynion | 5-7, 22, 25, 32-33, 55 |
| | Cydaddoli | 5-10, 18-23, 30-32, 34-36 |
| | Cydaddoli mewn: | |
| | - Colegau Chweched Dosbarth | 10, 42, 43 |
| | - Colegau Technoleg Dinas | 10, 41 |
| | - Ysgolion AGAG sy'n cyfateb i ysgolion a gynorthwyir | 18, 22, 23, 32 |
| | - Ysgolion AGAG sy'n cyfateb i ysgolion sirol | 18, 22-23, 31-32 |
| | - Ysgolion arbennig | 10, 40 |
| | - Ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir (ac ysgolion cytundeb arbennig) | 18, 22, 23, 32 |
| | - Ysgolion gwirfoddol a reolir | 18, 22, 23, 32 |

| | | |
|---|---|---|
| | - Ysgolion sirol | 18-22 |
| | Cyngor Cwricwlwm Cymru | (gweler ACAC) |
| | Cyngor Cyllido Addysg Bellach | 43 |
| | Cyngor y Cwricwlwm Cenedlaethol | (gweler ACAY) |
| | Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) | 5-8, 12, 13, 20-22, 24-29, 32, 34, 36, 49, 50, 53, 55-58 |
| | Cynhadledd maes llafur cytûn | 7, 10, 13, 15, 24, 26-29 |
| | Cynlluniau datblygu | 36 |
| | CYSAG | 7, 24-29, 56, 58 |
| **D** | Deddf Addysg 1944 | 11-14, 16, 22, 24, 26-29, 33-34, 44-47, 50 |
| | Deddf Addysg 1992 | 31-32 |
| | Deddf Addysg 1993 | 5-8, 10-13, 16, 19, 20, 22, 25-29, 34, 38-40, 49-50, 52, 56 |
| | Deddf Diwygio Addysg 1988 | 7, 9-11, 13-28, 30, 32-34, 41, 44-45, 47, 49, 52, 56 |
| | Disgybl cofrestredig | 10, 11, 16, 18, 54 |
| **E** | Ethos | 9, 18, 30-31, 34 |
| **G** | Grant Dibenion Arbennig | (ysgolion AGAG) 37 |
| | Grŵp A CYSAG | 7, 26, 27, 28 |
| **H** | Hawliau rhiant | 16-18, 22-23, 30 |
| | Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon | 24, 25, 36-37 |
| | Hyfforddiant Mewn-swydd | 25 |
| **Ll** | Llawlyfr (ysgol) | 6, 9, 30-31, 32 |
| **M** | Maes llafur cytûn | 7, 8, 12-17, 24-27, 30, 32, 36, 44-46, 48-50, 57 |
| | Meysydd Llafur engreifftiol | 15, 16 |
| **P** | Penderfyniadau | 8, 20-22, 30, 53-54 |
| | Pennaeth | 5, 6, 10-12, 15, 17-21, 23, 24, 30-35, 44-45, 52-55 |
| | Pwyllgor A cynhadledd maes llafur | 7, 26-28 |
| **Rh** | Rhaglen Grantiau Cynnal Addysg a Hyfforddiant | 36-37 |
| **S** | Siarter y Dinesydd | 30 |
| | Siarter y Rhieni | 30 |
| | Swyddfa Prif Arolygydd Ei Mawrhydi (SPAEM) | 6, 25, 31 |
| **T** | TGAU | 15-16 |
| | Tynnu plant yn ôl | 5, 14-18, 20, 22-23, 30, 40, 44 |

| | | |
|---|---|---|
| **Y** | Ysgolion a gynhelir â grant | 5-8, 11-13, 16, 22, 31-32, 34, 37, 38-39 |
| | Ysgolion a gynhelir â grant a maes llafur cytûn | 26-28, 50-51 |
| | Ysgrifennydd Gwladol | 7, 10, 13, 14, 22, 27, 29, 30, 33, 38, 39, 48, 49, 50 |

**Kirsty Williams AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**
**Cabinet Secretary for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cyfarwyddwyr Addysg Awdurdodau Lleol

3 Mai 2018

Annwyl Gydweithwyr

Ysgrifennaf i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am drefniadau llywodraethu ac aelodaeth y Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol ("CYSAG") a Chynadleddau Meysydd Llafur Cytûn ("CMLlC").

Fel y gwyddoch, mae'r canllawiau perthnasol yn ymwneud ag aelodaeth CYSAG wedi'u nodi yng Nghylchlythyr 10/94 (a gyhoeddwyd gan yr hen Swyddfa Gymreig ym 1994). Nid yw'r cylchlythyr anstatudol hwn yn rhwymo mewn cyfraith nac yn awdurdodol, ond codwyd nifer o gwestiynau'n ddiweddar yn ymwneud ag aelodaeth Grŵp A CYSAG. Yn benodol, codwyd cwestiynau ynglŷn ag a ddylai personau â chredoau anghrefyddol (fel Dyneiddwyr) gael caniatâd i fod yn aelodau llawn o Grŵp A ar sail Deddf Hawliau Dynol 1998. Er gwybodaeth, mae manylion aelodaeth CYSAG i'w gweld yn Atodiad A.

Mae paragraff 103 yn datgan:

> "Byddai cynnwys cynrychiolwyr systemau cred megis hiwmanistaeth, nad ydynt yn gyfystyr â chrefydd neu enwad crefyddol, ar bwyllgor A cynhadledd maes llafur cytûn neu grŵp A CYSAG yn groes i'r darpariaethau cyfreithiol y cyfeiriwyd atynt ym mharagraff 102."

Awdurdodau lleol a'r CYSAGau sy'n gyfrifol am benodi personau i CYSAG. Fodd bynnag, o ystyried cyngor cyfreithiol, rwyf o'r farn y gellir penodi cynrychiolwyr o systemau cred anghrefyddol i Grŵp A CYSAG neu CMLlC er mwyn sicrhau bod y CYSAG/CMLlC yn adlewyrchu credoau'r cymunedau a wasanaethant yn llawn, ac er mwyn cydymffurfio â deddfwriaeth bresennol.

Ym marn Llywodraeth Cymru:

- er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â Deddf Hawliau Dynol 1998, dylid dehongli bod y darpariaethau yn ymwneud â chyfansoddiad CYSAG a CMLlC yn Neddf 1996 yn caniatáu penodi personau sy'n cynrychioli'r rhai â chredoau anghrefyddol yn yr un

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

modd ag y maent yn caniatáu penodi personau sy'n cynrychioli'r rhai â chredoau crefyddol; (adran 390(4)(a) a pharagraff 4(2)(1) o Atodlen 31 i Ddeddf 1996). Fodd bynnag, ystyriwn fod yn rhaid i gredoau anghrefyddol a goleddir gan yr unigolyn i'w benodi fod yn gydweddol â chred grefyddol, megis dyneiddiaeth. Er mwyn bod yn "gydweddol", ystyriwn fod yn rhaid i'r credoau anghrefyddol, yn unol â'r gyfraith achosion o dan y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol a Deddf Hawliau Dynol 1998, gyrraedd y lefel angenrheidiol o ran grym, difrifoldeb, cydlyniant a phwysigrwydd i sicrhau diogelwch o dan Hawliau'r Confensiwn.

- mae penodiad yn dibynnu ar farn yr awdurdod lleol perthnasol ynglŷn ag a fyddai cynrychiolydd o'r fath yn helpu i sicrhau bod y traddodiadau perthnasol yn ardal yr awdurdod lleol yn cael eu hadlewyrchu'n briodol yng Ngrŵp A. Yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am benderfynu ar benodiadau, gan ei fod yn y sefyllfa orau i asesu a oes gan CYSAG yr arbenigedd a'r profiad angenrheidiol i gyflawni ei swyddogaeth yn briodol.

Mae'r un egwyddor yn berthnasol i benodiadau i Gynadleddau Meysydd Llafur Cytûn (CMLlC).

Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, mae'r canllaw a nodir yn y llythyr hwn yn disodli paragraff 103 o Gylchlythyr 10/04.

O safbwynt diweddaru Cylchlythyr 10/94 yn fwy cyffredinol, rwy'n ymwybodol bod meysydd eraill sy'n destun dadl yn y ddogfen sydd angen mynd i'r afael â nhw. Gan fod rhai materion yn gymhleth, rydym yn parhau i'w hystyried ac felly bydd adolygiad o'r canllawiau yn cael ei ystyried yng nghyd-destun y gwaith sy'n cael ei wneud ar y cwricwlwm newydd ar gyfer Cymru.

Gobeithio bod y llythyr hwn yn egluro'r materion hyn.

Yn gywir



**Kirsty Williams AC**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

Atodiad A

Mae swyddogaethau CYSAG wedi'u nodi yn adran 375 o Ddeddf Addysg 1996 ("Deddf 1996"). Yn gyffredinol, y swyddogaethau yw cynghori awdurdod lleol ar faterion yn ymwneud ag addysg grefyddol ac addoli ar y cyd. Mae adran 390 o Ddeddf 1996 yn pennu cyfansoddiad CYSAG fel a ganlyn:

*a)* *a group of persons to represent Christian denominations and other religions and denominations as in the opinion of the authority appropriately reflect the principal religious traditions in the area. The number of persons appointed should reflect broadly the proportionate strength of the particular denomination or religion in the area ("Group A");*

*b)* *a group of persons representing associations that represent teachers; and*

*c)* *a group of persons to represent the authority.*

Yn ogystal, gall CYSAG gynnwys aelodau cyfetholedig. Dylai'r cyfryw aelodau gael eu penodi ar y telerau y gellir eu pennu gan y rhai sy'n cyfethol yr unigolyn hwnnw h.y. y CYSAG ei hun (adran 392(5) o Ddeddf 1996). Ni all aelodau cyfetholedig gymryd rhan mewn pleidlais grŵp.

# Cyfrifiad 2011 - Ystadegau i Wynedd

## Crefydd

Diweddarwyd Chwefror 2013

**Data**

Gwynedd
Ardal
Wardiau
ACELI
Cymunedau

Cynhyrchir gan yr Uned Ymchwil Corfforaethol, Cyngor Gwynedd
Mwy o wybodaeth - ffoniwch 01286 679043
ymchwil@gwynedd.gov.uk
www.gwynedd.gov.uk/ymchwil

Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol (h) Hawlfraint y Goron
Cyfrifiad 2011, Tabl KS209EW
Gall yr ystadegau hyn gael eu defnyddio o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored.
http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/

### Diffiniadau

**Crefydd**
Crefydd presennol unigolyn yw hwn, neu os nad oes gan yr unigolyn grefydd, 'dim crefydd'. Ni phennir a oedd unigolyn yn arfer crefydd. Yn wahanol i gwestiynau eraill y cyfrifiad lle caiff ateboion ar goll eu cyfrif, roedd y cwestiwn hwn yn wirfoddol, a lle na chafwyd ateb categoreiddir yr ymateb yn 'Heb ei nodi'.

**Preswylydd arferol**
Y brif sylfaen boblogaeth ar gyfer allbynnau Cyfrifiad 2011 yw'r boblogaeth breswyl arferol ar ddiwrnod y cyfrifiad, 27 Mawrth 2011. Er bod y boblogaeth a gyfrifwyd yn cynnwys preswylwyr byrdymor nad ydynt yn dod o'r DU, caiff y boblogaeth hon ei dadansoddi ar wahân ac nid yw wedi'i chynnwys ym mhrif allbynnau Cyfrifiad 2011. Caiff yr holl allbynnau, oni nodir yn wahanol, eu cynhyrchu gan ddefnyddio preswylwyr arferol yn y DU yn unig.

At ddibenion Cyfrifiad 2011, mae preswylydd arferol y DU yn cynnwys unrhyw un a oedd, ar ddiwrnod y cyfrifiad, yn y DU ac wedi aros neu'n bwriadu aros yn y DU am gyfnod o 12 mis neu fwy, neu â chyfeiriad parhaol yn y DU a'r tu allan i'r DU ac yn bwriadu aros y tu allan i'r DU am lai na 12 mis.

# 2011 Census - Statistics for Gwynedd

## Religion

Last updated February 2013

**Data**

Gwynedd
Area
Wards
LSOA
Communities

Produced by the Corporate Research Unit, Gwynedd Council.
Further information - phone 01286 679043
research@gwynedd.gov.uk
www.gwynedd.gov.uk/research

Source: Office for National Statistics © Crown Copyright
2011 Census, Table KS209EW
These statistics may be used under the terms of the Open Government Licence.
http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/

### Definitions

**Religion**
This is a person’s current religion, or if the person does not have a religion, 'no religion'. No determination is made about whether a person was a practicing member of a religion. Unlike other census questions where missing answers are imputed, this question was voluntary, and where no answer was provided the response is categorised as 'Not stated'.

**Usual resident**
The main population base for outputs from the 2011 Census is the usual resident population as at census day 27 March 2011. Although the population base for enumeration included non-UK short-term residents, this population is analysed separately and is not included in the main outputs from the 2011 Census. All outputs, unless specified, are produced using only usual residents of the UK.

For 2011 Census purposes, a usual resident of the UK is anyone who, on census day, was in the UK and had stayed or intended to stay in the UK for a period of 12 months or more, or had a permanent UK address and was outside the UK and intended to be outside the UK for less than 12 months.

# Cyfrifiad 2011 - Ystadegau i Wynedd

## Crefydd

Diweddarwyd Chwefror 2013

Cynhyrchir gan yr Uned Ymchwil Corfforaethol, Cyngor Gwynedd
Mwy o wybodaeth - ffoniwch 01286 679043
ymchwil@gwynedd.gov.uk
www.gwynedd.gov.uk/ymchwil

Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol (h) Hawlfraint y Goron 2013
Cyfrifiad 2011, Tabl KS209EW
Gall yr ystadegau hyn gael eu defnyddio o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored.
http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/

# 2011 Census - Statistics for Gwynedd

## Religion

Last updated February 2013

Produced by the Corporate Research Unit, Gwynedd Council.
Further information - phone 01286 679043
research@gwynedd.gov.uk
www.gwynedd.gov.uk/research

Source: Office for National Statistics © Crown Copyright 2013
2011 Census, Table KS209EW
These statistics may be used under the terms of the Open Government Licence.
http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/

**Nol i dudalennau nodiadau**

**Back to notes page**

| | Gwynedd | | Cymru Wales | | Lloegr & Cymru England & Wales | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Pob preswylydd arferol** | **121,874** | | **3,063,456** | | **56,075,912** | | **All usual residents** |
| Cristnogaeth | 72,503 | 59.5% | 1,763,299 | 57.6% | 33,243,175 | 59.3% | Christian |
| Bwdhaeth | 426 | 0.3% | 9,117 | 0.3% | 247,743 | 0.4% | Buddhist |
| Hindŵaeth | 238 | 0.2% | 10,434 | 0.3% | 816,633 | 1.5% | Hindu |
| Iddewiaeth | 55 | 0.0% | 2,064 | 0.1% | 263,346 | 0.5% | Jewish |
| Islam | 1,378 | 1.1% | 45,950 | 1.5% | 2,706,066 | 4.8% | Muslim |
| Siciaeth | 39 | 0.0% | 2,962 | 0.1% | 423,158 | 0.8% | Sikh |
| Crefydd arall | 637 | 0.5% | 12,705 | 0.4% | 240,530 | 0.4% | Other religion |
| Dim crefydd | 36,163 | 29.7% | 982,997 | 32.1% | 14,097,229 | 25.1% | No religion |
| Heb nodi crefydd | 10,435 | 8.6% | 233,928 | 7.6% | 4,038,032 | 7.2% | Religion not stated |

# Cyfrifiad 2011 - Ystadegau i Wynedd
## Crefydd

Diweddarwyd Chwefror 2013

Cynhyrchir gan yr Uned Ymchwil Corfforaethol, Cyngor Gwynedd
Mwy o wybodaeth - ffoniwch 01286 679043
ymchwil@gwynedd.gov.uk
www.gwynedd.gov.uk/ymchwil

Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol (h) Hawlfraint y Goron 2013
Cyfrifiad 2011, Tabl KS209EW
Gall yr ystadegau hyn gael eu defnyddio o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored.
http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/

# 2011 Census - Statistics for Gwynedd
## Religion

Last updated February 2013

Produced by the Corporate Research Unit, Gwynedd Council.
Further information - phone 01286 679043
research@gwynedd.gov.uk
www.gwynedd.gov.uk/research

Source: Office for National Statistics © Crown Copyright 2013
2011 Census, Table KS209EW
These statistics may be used under the terms of the Open Government Licence.
http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/

Nol i dudalennau nodiadau

Back to notes page



| | Arfon | | Dwyfor | | Meirionnydd | | Gwynedd | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Pob preswylydd arferol** | **60,573** | | **27,725** | | **33,576** | | **121,874** | | **All usual residents** |
| Cristnogaeth | 33,694 | 55.6% | 17,903 | 64.6% | 20,906 | 62.3% | 72,503 | 59.5% | Christian |
| Bwdhaeth | 244 | 0.4% | 89 | 0.3% | 93 | 0.3% | 426 | 0.3% | Buddhist |
| Hindŵaeth | 199 | 0.3% | 20 | 0.1% | 19 | 0.1% | 238 | 0.2% | Hindu |
| Iddewiaeth | 33 | 0.1% | 9 | 0.0% | 13 | 0.0% | 55 | 0.0% | Jewish |
| Islam | 1,173 | 1.9% | 109 | 0.4% | 96 | 0.3% | 1,378 | 1.1% | Muslim |
| Siciaeth | 26 | 0.0% | 4 | 0.0% | 9 | 0.0% | 39 | 0.0% | Sikh |
| Crefydd arall | 309 | 0.5% | 114 | 0.4% | 214 | 0.6% | 637 | 0.5% | Other religion |
| Dim crefydd | 19,678 | 32.5% | 7,152 | 25.8% | 9,333 | 27.8% | 36,163 | 29.7% | No religion |
| Heb nodi crefydd | 5,217 | 8.6% | 2,325 | 8.4% | 2,893 | 8.6% | 10,435 | 8.6% | Religion not stated |

# Cyfrifiad 2011 - Ystadegau i Wynedd
## Crefydd
Diweddarwyd Chwefror 2013

Cynhyrchir gan yr Uned Ymchwil Corfforaethol, Cyngor Gwynedd
Mwy o wybodaeth - ffoniwch 01286 679043
ymchwil@gwynedd.gov.uk
www.gwynedd.gov.uk/ymchwil

Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol (h) Hawlfraint y Goron 2013
Cyfrifiad 2011, Tabl KS209EW
Gall yr ystadegau hyn gael eu defnyddio o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored.
http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/

# 2011 Census - Statistics for Gwynedd
## Religion
Last updated February 2013

Produced by the Corporate Research Unit, Gwynedd Council.
Further information - phone 01286 679043
research@gwynedd.gov.uk
www.gwynedd.gov.uk/research

Source: Office for National Statistics © Crown Copyright 2013
2011 Census, Table KS209EW
These statistics may be used under the terms of the Open Government Licence.
http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/

**Nol i dudalennau nodiadau**

**Back to notes page**

| | Pob preswylydd arferol | Cristnogaeth | | Bwdhaeth | | Hindŵaeth | | Iddewiaeth | | Islam | | Siciaeth | | Crefydd arall | | Dim crefydd | | Heb nodi crefydd | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | All usual residents | Christian | | Buddhist | | Hindu | | Jewish | | Muslim | | Sikh | | Other religion | | No religion | | Religion not stated | |
| **Lloegr & Cymru / England & Wales** | 56,075,912 | 33,243,175 | 59.3% | 247,743 | 0.4% | 816,633 | 1.5% | 263,346 | 0.5% | 2,706,066 | 4.8% | 423,158 | 0.8% | 240,530 | 0.4% | 14,097,229 | 25.1% | 4,038,032 | 7.2% |
| **Cymru / Wales** | 3,063,456 | 1,763,299 | 57.6% | 9,117 | 0.3% | 10,434 | 0.3% | 2,064 | 0.1% | 45,950 | 1.5% | 2,962 | 0.1% | 12,705 | 0.4% | 982,997 | 32.1% | 233,928 | 7.6% |
| **Gwynedd** | 121,874 | 72,503 | 59.5% | 426 | 0.3% | 238 | 0.2% | 55 | 0.0% | 1,378 | 1.1% | 39 | 0.0% | 637 | 0.5% | 36,163 | 29.7% | 10,435 | 8.6% |
| **Arfon** | 60,573 | 33,694 | 55.6% | 244 | 0.4% | 199 | 0.3% | 33 | 0.1% | 1,173 | 1.9% | 26 | 0.0% | 309 | 0.5% | 19,678 | 32.5% | 5,217 | 8.6% |
| **Dwyfor** | 27,725 | 17,903 | 64.6% | 89 | 0.3% | 20 | 0.1% | 9 | 0.0% | 109 | 0.4% | 4 | 0.0% | 114 | 0.4% | 7,152 | 25.8% | 2,325 | 8.4% |
| **Meirionnydd** | 33,576 | 20,906 | 62.3% | 93 | 0.3% | 19 | 0.1% | 13 | 0.0% | 96 | 0.3% | 9 | 0.0% | 214 | 0.6% | 9,333 | 27.8% | 2,893 | 8.6% |
| Aberdaron | 965 | 642 | 66.5% | 5 | 0.5% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 10 | 1.0% | 210 | 21.8% | 98 | 10.2% |
| Aberdyfi (Aberdovey) | 1,282 | 851 | 66.4% | 1 | 0.1% | 1 | 0.1% | 2 | 0.2% | 4 | 0.3% | 1 | 0.1% | 6 | 0.5% | 311 | 24.3% | 105 | 8.2% |
| Abererch | 1,354 | 931 | 68.8% | 5 | 0.4% | 0 | 0.0% | 1 | 0.1% | 10 | 0.7% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 331 | 24.4% | 76 | 5.6% |
| Abermaw (Barmouth) | 2,522 | 1,404 | 55.7% | 13 | 0.5% | 7 | 0.3% | 1 | 0.0% | 20 | 0.8% | 1 | 0.0% | 14 | 0.6% | 872 | 34.6% | 190 | 7.5% |
| Abersoch | 783 | 547 | 69.9% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 5 | 0.6% | 0 | 0.0% | 4 | 0.5% | 167 | 21.3% | 60 | 7.7% |
| Arllechwedd | 1,398 | 821 | 58.7% | 7 | 0.5% | 0 | 0.0% | 1 | 0.1% | 7 | 0.5% | 0 | 0.0% | 11 | 0.8% | 433 | 31.0% | 118 | 8.4% |
| Bala | 1,974 | 1,279 | 64.8% | 1 | 0.1% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 4 | 0.2% | 1 | 0.1% | 6 | 0.3% | 496 | 25.1% | 187 | 9.5% |
| Bethel | 1,395 | 951 | 68.2% | 0 | 0.0% | 1 | 0.1% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 1 | 0.1% | 338 | 24.2% | 104 | 7.5% |
| Bontnewydd | 1,162 | 767 | 66.0% | 4 | 0.3% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 12 | 1.0% | 0 | 0.0% | 6 | 0.5% | 291 | 25.0% | 82 | 7.1% |
| Botwnnog | 996 | 624 | 62.7% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 2 | 0.2% | 282 | 28.3% | 88 | 8.8% |
| Bowydd & Rhiw | 1,878 | 979 | 52.1% | 3 | 0.2% | 0 | 0.0% | 2 | 0.1% | 7 | 0.4% | 0 | 0.0% | 15 | 0.8% | 689 | 36.7% | 183 | 9.7% |
| Brithdir & Llanfachreth/Ganllwyd/Llanelltyd | 1,444 | 971 | 67.2% | 6 | 0.4% | 0 | 0.0% | 1 | 0.1% | 2 | 0.1% | 0 | 0.0% | 8 | 0.6% | 350 | 24.2% | 106 | 7.3% |
| Bryn-crug/Llanfihangel | 961 | 642 | 66.8% | 0 | 0.0% | 1 | 0.1% | 0 | 0.0% | 3 | 0.3% | 0 | 0.0% | 5 | 0.5% | 226 | 23.5% | 84 | 8.7% |
| Cadnant | 2,060 | 1,190 | 57.8% | 4 | 0.2% | 1 | 0.0% | 0 | 0.0% | 10 | 0.5% | 0 | 0.0% | 4 | 0.2% | 647 | 31.4% | 204 | 9.9% |
| Clynnog | 997 | 600 | 60.2% | 5 | 0.5% | 0 | 0.0% | 1 | 0.1% | 2 | 0.2% | 0 | 0.0% | 2 | 0.2% | 294 | 29.5% | 93 | 9.3% |
| Corris/Mawddwy | 1,345 | 671 | 49.9% | 8 | 0.6% | 0 | 0.0% | 2 | 0.1% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 19 | 1.4% | 468 | 34.8% | 177 | 13.2% |
| Criccieth | 1,753 | 1,176 | 67.1% | 11 | 0.6% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 7 | 0.4% | 0 | 0.0% | 11 | 0.6% | 390 | 22.2% | 158 | 9.0% |
| Cwm-y-Glo | 995 | 538 | 54.1% | 4 | 0.4% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 12 | 1.2% | 0 | 0.0% | 7 | 0.7% | 340 | 34.2% | 94 | 9.4% |
| Deiniol | 1,839 | 664 | 36.1% | 18 | 1.0% | 25 | 1.4% | 1 | 0.1% | 153 | 8.3% | 0 | 0.0% | 21 | 1.1% | 840 | 45.7% | 117 | 6.4% |
| Deiniolen | 1,909 | 1,004 | 52.6% | 9 | 0.5% | 2 | 0.1% | 3 | 0.2% | 4 | 0.2% | 0 | 0.0% | 19 | 1.0% | 644 | 33.7% | 224 | 11.7% |
| Dewi | 1,849 | 1,039 | 56.2% | 4 | 0.2% | 14 | 0.8% | 2 | 0.1% | 139 | 7.5% | 5 | 0.3% | 8 | 0.4% | 498 | 26.9% | 140 | 7.6% |
| Diffwys & Maenofferen | 1,126 | 674 | 59.9% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 1 | 0.1% | 9 | 0.8% | 0 | 0.0% | 3 | 0.3% | 342 | 30.4% | 97 | 8.6% |
| Dolbenmaen | 1,219 | 693 | 56.8% | 2 | 0.2% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 2 | 0.2% | 1 | 0.1% | 17 | 1.4% | 380 | 31.2% | 124 | 10.2% |
| Gogledd Dolgellau North | 1,204 | 738 | 61.3% | 2 | 0.2% | 2 | 0.2% | 0 | 0.0% | 1 | 0.1% | 0 | 0.0% | 3 | 0.2% | 345 | 28.7% | 113 | 9.4% |
| De Dolgellau South | 1,484 | 958 | 64.6% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 10 | 0.7% | 0 | 0.0% | 12 | 0.8% | 395 | 26.6% | 109 | 7.3% |
| Dyffryn Ardudwy | 1,540 | 1,027 | 66.7% | 2 | 0.1% | 1 | 0.1% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 5 | 0.3% | 376 | 24.4% | 129 | 8.4% |
| Efail-newydd/Buan | 1,275 | 831 | 65.2% | 1 | 0.1% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 3 | 0.2% | 0 | 0.0% | 4 | 0.3% | 336 | 26.4% | 100 | 7.8% |
| Garth | 997 | 458 | 45.9% | 4 | 0.4% | 3 | 0.3% | 0 | 0.0% | 32 | 3.2% | 1 | 0.1% | 9 | 0.9% | 397 | 39.8% | 93 | 9.3% |
| Gerlan | 2,380 | 1,173 | 49.3% | 13 | 0.5% | 6 | 0.3% | 0 | 0.0% | 7 | 0.3% | 0 | 0.0% | 16 | 0.7% | 916 | 38.5% | 249 | 10.5% |
| Glyder | 1,777 | 1,078 | 60.7% | 8 | 0.5% | 7 | 0.4% | 4 | 0.2% | 70 | 3.9% | 0 | 0.0% | 1 | 0.1% | 462 | 26.0% | 147 | 8.3% |
| Groeslon | 1,695 | 1,145 | 67.6% | 2 | 0.1% | 0 | 0.0% | 1 | 0.1% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 8 | 0.5% | 415 | 24.5% | 124 | 7.3% |
| Harlech | 1,997 | 1,180 | 59.1% | 4 | 0.2% | 1 | 0.1% | 0 | 0.0% | 4 | 0.2% | 1 | 0.1% | 21 | 1.1% | 589 | 29.5% | 197 | 9.9% |
| Hendre | 1,496 | 778 | 52.0% | 13 | 0.9% | 3 | 0.2% | 0 | 0.0% | 50 | 3.3% | 0 | 0.0% | 8 | 0.5% | 532 | 35.6% | 112 | 7.5% |
| Hirael | 1,706 | 832 | 48.8% | 6 | 0.4% | 5 | 0.3% | 0 | 0.0% | 118 | 6.9% | 2 | 0.1% | 10 | 0.6% | 584 | 34.2% | 149 | 8.7% |
| Llanaelhaearn | 1,683 | 1,025 | 60.9% | 2 | 0.1% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 2 | 0.1% | 0 | 0.0% | 8 | 0.5% | 490 | 29.1% | 156 | 9.3% |

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Llanbedr | 1,098 | 727 | 66.2% | 3 | 0.3% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 4 | 0.4% | 263 | 24.0% | 101 | 9.2% |
| Llanbedrog | 1,002 | 707 | 70.6% | 7 | 0.7% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 12 | 1.2% | 0 | 0.0% | 6 | 0.6% | 194 | 19.4% | 76 | 7.6% |
| Llanberis | 2,026 | 1,154 | 57.0% | 4 | 0.2% | 2 | 0.1% | 0 | 0.0% | 8 | 0.4% | 0 | 0.0% | 14 | 0.7% | 631 | 31.1% | 213 | 10.5% |
| Llandderfel | 1,511 | 1,110 | 73.5% | 6 | 0.4% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 3 | 0.2% | 299 | 19.8% | 93 | 6.2% |
| Llanengan | 1,206 | 799 | 66.3% | 4 | 0.3% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 8 | 0.7% | 0 | 0.0% | 2 | 0.2% | 289 | 24.0% | 104 | 8.6% |
| Llangelynnin | 2,007 | 1,250 | 62.3% | 10 | 0.5% | 2 | 0.1% | 0 | 0.0% | 6 | 0.3% | 0 | 0.0% | 10 | 0.5% | 555 | 27.7% | 174 | 8.7% |
| Llanllyfni | 1,256 | 665 | 52.9% | 3 | 0.2% | 1 | 0.1% | 1 | 0.1% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 3 | 0.2% | 434 | 34.6% | 149 | 11.9% |
| Llanrug | 1,916 | 1,277 | 66.6% | 7 | 0.4% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 5 | 0.3% | 0 | 0.0% | 5 | 0.3% | 468 | 24.4% | 154 | 8.0% |
| Llanuwchllyn | 877 | 638 | 72.7% | 1 | 0.1% | 0 | 0.0% | 1 | 0.1% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 1 | 0.1% | 147 | 16.8% | 89 | 10.1% |
| Llanwnda | 1,994 | 1,254 | 62.9% | 2 | 0.1% | 1 | 0.1% | 1 | 0.1% | 1 | 0.1% | 0 | 0.0% | 1 | 0.1% | 538 | 27.0% | 196 | 9.8% |
| Llanystumdwy | 2,080 | 1,412 | 67.9% | 7 | 0.3% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 7 | 0.3% | 485 | 23.3% | 169 | 8.1% |
| Marchog | 2,566 | 1,400 | 54.6% | 6 | 0.2% | 11 | 0.4% | 1 | 0.0% | 30 | 1.2% | 0 | 0.0% | 10 | 0.4% | 873 | 34.0% | 235 | 9.2% |
| Menai (Bangor) | 4,128 | 1,569 | 38.0% | 41 | 1.0% | 28 | 0.7% | 4 | 0.1% | 154 | 3.7% | 6 | 0.1% | 42 | 1.0% | 2,027 | 49.1% | 257 | 6.2% |
| Menai (Caernarfon) | 2,196 | 1,484 | 67.6% | 4 | 0.2% | 7 | 0.3% | 1 | 0.0% | 19 | 0.9% | 0 | 0.0% | 6 | 0.3% | 502 | 22.9% | 173 | 7.9% |
| Morfa Nefyn | 1,229 | 817 | 66.5% | 2 | 0.2% | 4 | 0.3% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 5 | 0.4% | 287 | 23.4% | 114 | 9.3% |
| Nefyn | 1,373 | 859 | 62.6% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 1 | 0.1% | 6 | 0.4% | 0 | 0.0% | 4 | 0.3% | 344 | 25.1% | 159 | 11.6% |
| Ogwen | 2,355 | 1,414 | 60.0% | 19 | 0.8% | 0 | 0.0% | 1 | 0.0% | 5 | 0.2% | 1 | 0.0% | 10 | 0.4% | 664 | 28.2% | 241 | 10.2% |
| Peblig (Caernarfon) | 2,321 | 1,111 | 47.9% | 3 | 0.1% | 8 | 0.3% | 1 | 0.0% | 11 | 0.5% | 0 | 0.0% | 2 | 0.1% | 987 | 42.5% | 198 | 8.5% |
| Penisarwaun | 1,768 | 1,018 | 57.6% | 9 | 0.5% | 2 | 0.1% | 0 | 0.0% | 1 | 0.1% | 0 | 0.0% | 15 | 0.8% | 585 | 33.1% | 138 | 7.8% |
| Penrhyndeudraeth | 2,587 | 1,495 | 57.8% | 10 | 0.4% | 0 | 0.0% | 1 | 0.0% | 1 | 0.0% | 1 | 0.0% | 18 | 0.7% | 838 | 32.4% | 223 | 8.6% |
| Pentir | 2,450 | 1,502 | 61.3% | 10 | 0.4% | 55 | 2.2% | 2 | 0.1% | 164 | 6.7% | 1 | 0.0% | 18 | 0.7% | 530 | 21.6% | 168 | 6.9% |
| Penygroes | 1,793 | 1,038 | 57.9% | 5 | 0.3% | 1 | 0.1% | 0 | 0.0% | 1 | 0.1% | 0 | 0.0% | 3 | 0.2% | 557 | 31.1% | 188 | 10.5% |
| Dwyrain Porthmadog East | 1,775 | 1,123 | 63.3% | 8 | 0.5% | 3 | 0.2% | 0 | 0.0% | 8 | 0.5% | 2 | 0.1% | 5 | 0.3% | 467 | 26.3% | 159 | 9.0% |
| Gorllewin Porthmadog West | 1,732 | 1,201 | 69.3% | 18 | 1.0% | 1 | 0.1% | 1 | 0.1% | 3 | 0.2% | 0 | 0.0% | 10 | 0.6% | 399 | 23.0% | 99 | 5.7% |
| Porthmadog-Tremadog | 1,257 | 748 | 59.5% | 4 | 0.3% | 1 | 0.1% | 1 | 0.1% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 9 | 0.7% | 389 | 30.9% | 105 | 8.4% |
| Gogledd Pwllheli North | 2,190 | 1,372 | 62.6% | 5 | 0.2% | 8 | 0.4% | 1 | 0.0% | 5 | 0.2% | 1 | 0.0% | 4 | 0.2% | 641 | 29.3% | 153 | 7.0% |
| De Pwllheli South | 1,886 | 1,162 | 61.6% | 2 | 0.1% | 3 | 0.2% | 3 | 0.2% | 7 | 0.4% | 0 | 0.0% | 4 | 0.2% | 577 | 30.6% | 128 | 6.8% |
| Seiont | 3,038 | 1,844 | 60.7% | 12 | 0.4% | 3 | 0.1% | 2 | 0.1% | 42 | 1.4% | 1 | 0.0% | 4 | 0.1% | 873 | 28.7% | 257 | 8.5% |
| Talysarn | 1,930 | 1,000 | 51.8% | 7 | 0.4% | 5 | 0.3% | 0 | 0.0% | 13 | 0.7% | 0 | 0.0% | 13 | 0.7% | 731 | 37.9% | 161 | 8.3% |
| Teigl | 1,871 | 1,089 | 58.2% | 5 | 0.3% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 10 | 0.5% | 0 | 0.0% | 13 | 0.7% | 582 | 31.1% | 172 | 9.2% |
| Trawsfynydd | 1,604 | 1,104 | 68.8% | 10 | 0.6% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 1 | 0.1% | 0 | 0.0% | 12 | 0.7% | 365 | 22.8% | 112 | 7.0% |
| Tregarth & Mynydd Llandygai | 2,218 | 1,194 | 53.8% | 5 | 0.2% | 0 | 0.0% | 1 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 13 | 0.6% | 785 | 35.4% | 220 | 9.9% |
| Tudweiliog | 970 | 634 | 65.4% | 1 | 0.1% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 29 | 3.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 200 | 20.6% | 106 | 10.9% |
| Tywyn | 3,264 | 2,119 | 64.9% | 8 | 0.2% | 4 | 0.1% | 2 | 0.1% | 14 | 0.4% | 4 | 0.1% | 36 | 1.1% | 825 | 25.3% | 252 | 7.7% |
| Waunfawr | 1,676 | 987 | 58.9% | 3 | 0.2% | 0 | 0.0% | 3 | 0.2% | 1 | 0.1% | 0 | 0.0% | 9 | 0.5% | 531 | 31.7% | 142 | 8.5% |
| Y Felinheli | 2,284 | 1,345 | 58.9% | 8 | 0.4% | 8 | 0.4% | 3 | 0.1% | 104 | 4.6% | 9 | 0.4% | 12 | 0.5% | 625 | 27.4% | 170 | 7.4% |

# Cyfrifiad 2011 - Ystadegau i Wynedd
## Crefydd
Diweddarwyd Chwefror 2013

Cynhyrchir gan yr Uned Ymchwil Corfforaethol,  Cyngor Gwynedd
Mwy o wybodaeth - ffoniwch 01286 679043
ymchwil@gwynedd.gov.uk
www.gwynedd.gov.uk/ymchwil

Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol   (h) Hawlfraint y Goron 2013
Cyfrifiad 2011, Tabl KS209EW
Gall yr ystadegau hyn gael eu defnyddio o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored.
http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/

# 2011 Census - Statistics for Gwynedd
## Religion
Last updated February 2013

Produced by the Corporate Research Unit, Gwynedd Council.
Further information - phone 01286 679043
research@gwynedd.gov.uk
www.gwynedd.gov.uk/research

Source: Office for National Statistics  © Crown Copyright 2013
2011 Census, Table KS209EW
These statistics may be used under the terms of the Open Government Licence.
http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/

**Nol i dudalennau nodiadau**

**Back to notes page**

| | **Pob preswylydd arferol** | Cristnogaeth | | Bwdhaeth | | Hindŵaeth | | Iddewiaeth | | Islam | | Siciaeth | | Crefydd arall | | Dim crefydd | | Heb nodi crefydd | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **All usual residents** | Christian | | Buddhist | | Hindu | | Jewish | | Muslim | | Sikh | | Other religion | | No religion | | Religion not stated | |
| **Lloegr & Cymru / England & Wales** | 56,075,912 | 33,243,175 | 59.3% | 247,743 | 0.4% | 816,633 | 1.5% | 263,346 | 0.5% | 2,706,066 | 4.8% | 423,158 | 0.8% | 240,530 | 0.4% | 14,097,229 | 25.1% | 4,038,032 | 7.2% |
| **Cymru / Wales** | 3,063,456 | 1,763,299 | 57.6% | 9,117 | 0.3% | 10,434 | 0.3% | 2,064 | 0.1% | 45,950 | 1.5% | 2,962 | 0.1% | 12,705 | 0.4% | 982,997 | 32.1% | 233,928 | 7.6% |
| **Gwynedd** | 121,874 | 72,503 | 59.5% | 426 | 0.3% | 238 | 0.2% | 55 | 0.0% | 1,378 | 1.1% | 39 | 0.0% | 637 | 0.5% | 36,163 | 29.7% | 10,435 | 8.6% |
| **Arfon** | 60,573 | 33,694 | 55.6% | 244 | 0.4% | 199 | 0.3% | 33 | 0.1% | 1,173 | 1.9% | 26 | 0.0% | 309 | 0.5% | 19,678 | 32.5% | 5,217 | 8.6% |
| **Dwyfor** | 27,725 | 17,903 | 64.6% | 89 | 0.3% | 20 | 0.1% | 9 | 0.0% | 109 | 0.4% | 4 | 0.0% | 114 | 0.4% | 7,152 | 25.8% | 2,325 | 8.4% |
| **Meirionnydd** | 33,576 | 20,906 | 62.3% | 93 | 0.3% | 19 | 0.1% | 13 | 0.0% | 96 | 0.3% | 9 | 0.0% | 214 | 0.6% | 9,333 | 27.8% | 2,893 | 8.6% |
| Abererch | 1,354 | 931 | 68.8% | 5 | 0.4% | 0 | 0.0% | 1 | 0.1% | 10 | 0.7% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 331 | 24.4% | 76 | 5.6% |
| Abermaw (Barmouth) 1 | 1,380 | 819 | 59.3% | 5 | 0.4% | 7 | 0.5% | 1 | 0.1% | 12 | 0.9% | 1 | 0.1% | 5 | 0.4% | 420 | 30.4% | 110 | 8.0% |
| Abermaw (Barmouth) 2 | 1,142 | 585 | 51.2% | 8 | 0.7% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 8 | 0.7% | 0 | 0.0% | 9 | 0.8% | 452 | 39.6% | 80 | 7.0% |
| Arllechwedd | 1,398 | 821 | 58.7% | 7 | 0.5% | 0 | 0.0% | 1 | 0.1% | 7 | 0.5% | 0 | 0.0% | 11 | 0.8% | 433 | 31.0% | 118 | 8.4% |
| Bala | 1,974 | 1,279 | 64.8% | 1 | 0.1% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 4 | 0.2% | 1 | 0.1% | 6 | 0.3% | 496 | 25.1% | 187 | 9.5% |
| Bethel & Cwm-y-Glo 1 | 1,171 | 805 | 68.7% | 0 | 0.0% | 1 | 0.1% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 1 | 0.1% | 280 | 23.9% | 84 | 7.2% |
| Bethel & Cwm-y-Glo 2 | 1,219 | 684 | 56.1% | 4 | 0.3% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 12 | 1.0% | 0 | 0.0% | 7 | 0.6% | 398 | 32.6% | 114 | 9.4% |
| Bontnewydd | 1,162 | 767 | 66.0% | 4 | 0.3% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 12 | 1.0% | 0 | 0.0% | 6 | 0.5% | 291 | 25.0% | 82 | 7.1% |
| Bowydd & Rhiw | 1,878 | 979 | 52.1% | 3 | 0.2% | 0 | 0.0% | 2 | 0.1% | 7 | 0.4% | 0 | 0.0% | 15 | 0.8% | 689 | 36.7% | 183 | 9.7% |
| Brithdir & Llanfachreth/Ganllwyd/Llanelltyd | 1,444 | 971 | 67.2% | 6 | 0.4% | 0 | 0.0% | 1 | 0.1% | 2 | 0.1% | 0 | 0.0% | 8 | 0.6% | 350 | 24.2% | 106 | 7.3% |
| Cadnant | 2,060 | 1,190 | 57.8% | 4 | 0.2% | 1 | 0.0% | 0 | 0.0% | 10 | 0.5% | 0 | 0.0% | 4 | 0.2% | 647 | 31.4% | 204 | 9.9% |
| Corris/Mawddwy | 1,345 | 671 | 49.9% | 8 | 0.6% | 0 | 0.0% | 2 | 0.1% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 19 | 1.4% | 468 | 34.8% | 177 | 13.2% |
| Criccieth | 1,753 | 1,176 | 67.1% | 11 | 0.6% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 7 | 0.4% | 0 | 0.0% | 11 | 0.6% | 390 | 22.2% | 158 | 9.0% |
| Deiniol | 1,839 | 664 | 36.1% | 18 | 1.0% | 25 | 1.4% | 1 | 0.1% | 153 | 8.3% | 0 | 0.0% | 21 | 1.1% | 840 | 45.7% | 117 | 6.4% |
| Deiniolen | 1,909 | 1,004 | 52.6% | 9 | 0.5% | 2 | 0.1% | 3 | 0.2% | 4 | 0.2% | 0 | 0.0% | 19 | 1.0% | 644 | 33.7% | 224 | 11.7% |
| Dewi | 1,849 | 1,039 | 56.2% | 4 | 0.2% | 14 | 0.8% | 2 | 0.1% | 139 | 7.5% | 5 | 0.3% | 8 | 0.4% | 498 | 26.9% | 140 | 7.6% |
| Diffwys & Maenofferen | 1,126 | 674 | 59.9% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 1 | 0.1% | 9 | 0.8% | 0 | 0.0% | 3 | 0.3% | 342 | 30.4% | 97 | 8.6% |
| Dolbenmaen | 1,219 | 693 | 56.8% | 2 | 0.2% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 2 | 0.2% | 1 | 0.1% | 17 | 1.4% | 380 | 31.2% | 124 | 10.2% |
| Gogledd Dolgellau North | 1,204 | 738 | 61.3% | 2 | 0.2% | 2 | 0.2% | 0 | 0.0% | 1 | 0.1% | 0 | 0.0% | 3 | 0.2% | 345 | 28.7% | 113 | 9.4% |
| De Dolgellau South | 1,484 | 958 | 64.6% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 10 | 0.7% | 0 | 0.0% | 12 | 0.8% | 395 | 26.6% | 109 | 7.3% |
| Dyffryn Ardudwy | 1,540 | 1,027 | 66.7% | 2 | 0.1% | 1 | 0.1% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 5 | 0.3% | 376 | 24.4% | 129 | 8.4% |
| Efail-newydd/Buan | 1,275 | 831 | 65.2% | 1 | 0.1% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 3 | 0.2% | 0 | 0.0% | 4 | 0.3% | 336 | 26.4% | 100 | 7.8% |
| Gerlan | 2,380 | 1,173 | 49.3% | 13 | 0.5% | 6 | 0.3% | 0 | 0.0% | 7 | 0.3% | 0 | 0.0% | 16 | 0.7% | 916 | 38.5% | 249 | 10.5% |
| Glyder | 1,777 | 1,078 | 60.7% | 8 | 0.5% | 7 | 0.4% | 4 | 0.2% | 70 | 3.9% | 0 | 0.0% | 1 | 0.1% | 462 | 26.0% | 147 | 8.3% |
| Groeslon | 1,695 | 1,145 | 67.6% | 2 | 0.1% | 0 | 0.0% | 1 | 0.1% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 8 | 0.5% | 415 | 24.5% | 124 | 7.3% |
| Harlech | 1,997 | 1,180 | 59.1% | 4 | 0.2% | 1 | 0.1% | 0 | 0.0% | 4 | 0.2% | 1 | 0.1% | 21 | 1.1% | 589 | 29.5% | 197 | 9.9% |
| Hendre | 1,496 | 778 | 52.0% | 13 | 0.9% | 3 | 0.2% | 0 | 0.0% | 50 | 3.3% | 0 | 0.0% | 8 | 0.5% | 532 | 35.6% | 112 | 7.5% |
| Hirael & Garth 1 | 1,316 | 646 | 49.1% | 4 | 0.3% | 3 | 0.2% | 0 | 0.0% | 41 | 3.1% | 1 | 0.1% | 11 | 0.8% | 489 | 37.2% | 121 | 9.2% |
| Hirael & Garth 2 | 1,387 | 644 | 46.4% | 6 | 0.4% | 5 | 0.4% | 0 | 0.0% | 109 | 7.9% | 2 | 0.1% | 8 | 0.6% | 492 | 35.5% | 121 | 8.7% |
| Llanaelhaearn | 1,683 | 1,025 | 60.9% | 2 | 0.1% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 2 | 0.1% | 0 | 0.0% | 8 | 0.5% | 490 | 29.1% | 156 | 9.3% |
| Llanbedr | 1,098 | 727 | 66.2% | 3 | 0.3% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 4 | 0.4% | 263 | 24.0% | 101 | 9.2% |
| Llanbedrog & Abersoch | 1,785 | 1,254 | 70.3% | 7 | 0.4% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 17 | 1.0% | 0 | 0.0% | 10 | 0.6% | 361 | 20.2% | 136 | 7.6% |
| Llanberis | 2,026 | 1,154 | 57.0% | 4 | 0.2% | 2 | 0.1% | 0 | 0.0% | 8 | 0.4% | 0 | 0.0% | 14 | 0.7% | 631 | 31.1% | 213 | 10.5% |
| Llandderfel & Llanuwchllyn 1 | 1,095 | 798 | 72.9% | 4 | 0.4% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 3 | 0.3% | 224 | 20.5% | 66 | 6.0% |
| Llandderfel & Llanuwchllyn 2 | 1,293 | 950 | 73.5% | 3 | 0.2% | 0 | 0.0% | 1 | 0.1% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 1 | 0.1% | 222 | 17.2% | 116 | 9.0% |

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Llanengan | 1,206 | 799 | 66.3% | 4 | 0.3% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 8 | 0.7% | 0 | 0.0% | 2 | 0.2% | 289 | 24.0% | 104 | 8.6% |
| Llangelynin | 2,007 | 1,250 | 62.3% | 10 | 0.5% | 2 | 0.1% | 0 | 0.0% | 6 | 0.3% | 0 | 0.0% | 10 | 0.5% | 555 | 27.7% | 174 | 8.7% |
| Llanllyfni & Clynnog | 2,253 | 1,265 | 56.1% | 8 | 0.4% | 1 | 0.0% | 2 | 0.1% | 2 | 0.1% | 0 | 0.0% | 5 | 0.2% | 728 | 32.3% | 242 | 10.7% |
| Llanrug | 1,916 | 1,277 | 66.6% | 7 | 0.4% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 5 | 0.3% | 0 | 0.0% | 5 | 0.3% | 468 | 24.4% | 154 | 8.0% |
| Llanwnda | 1,994 | 1,254 | 62.9% | 2 | 0.1% | 1 | 0.1% | 1 | 0.1% | 1 | 0.1% | 0 | 0.0% | 1 | 0.1% | 538 | 27.0% | 196 | 9.8% |
| Llanystumdwy | 2,080 | 1,412 | 67.9% | 7 | 0.3% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 7 | 0.3% | 485 | 23.3% | 169 | 8.1% |
| Marchog 1 | 1,426 | 825 | 57.9% | 4 | 0.3% | 4 | 0.3% | 1 | 0.1% | 15 | 1.1% | 0 | 0.0% | 5 | 0.4% | 434 | 30.4% | 138 | 9.7% |
| Marchog 2 | 1,140 | 575 | 50.4% | 2 | 0.2% | 7 | 0.6% | 0 | 0.0% | 15 | 1.3% | 0 | 0.0% | 5 | 0.4% | 439 | 38.5% | 97 | 8.5% |
| Menai (Bangor) | 4,128 | 1,569 | 38.0% | 41 | 1.0% | 28 | 0.7% | 4 | 0.1% | 154 | 3.7% | 6 | 0.1% | 42 | 1.0% | 2,027 | 49.1% | 257 | 6.2% |
| Menai (Caernarfon) | 2,196 | 1,484 | 67.6% | 4 | 0.2% | 7 | 0.3% | 1 | 0.0% | 19 | 0.9% | 0 | 0.0% | 6 | 0.3% | 502 | 22.9% | 173 | 7.9% |
| Morfa Nefyn | 1,229 | 817 | 66.5% | 2 | 0.2% | 4 | 0.3% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 5 | 0.4% | 287 | 23.4% | 114 | 9.3% |
| Nefyn | 1,373 | 859 | 62.6% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 1 | 0.1% | 6 | 0.4% | 0 | 0.0% | 4 | 0.3% | 344 | 25.1% | 159 | 11.6% |
| Ogwen 1 | 1,245 | 745 | 59.8% | 11 | 0.9% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 3 | 0.2% | 0 | 0.0% | 8 | 0.6% | 350 | 28.1% | 128 | 10.3% |
| Ogwen 2 | 1,110 | 669 | 60.3% | 8 | 0.7% | 0 | 0.0% | 1 | 0.1% | 2 | 0.2% | 1 | 0.1% | 2 | 0.2% | 314 | 28.3% | 113 | 10.2% |
| Peblig | 2,321 | 1,111 | 47.9% | 3 | 0.1% | 8 | 0.3% | 1 | 0.0% | 11 | 0.5% | 0 | 0.0% | 2 | 0.1% | 987 | 42.5% | 198 | 8.5% |
| Penisarwaun | 1,768 | 1,018 | 57.6% | 9 | 0.5% | 2 | 0.1% | 0 | 0.0% | 1 | 0.1% | 0 | 0.0% | 15 | 0.8% | 585 | 33.1% | 138 | 7.8% |
| Penrhyndeudraeth 1 | 1,054 | 573 | 54.4% | 9 | 0.9% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 1 | 0.1% | 0 | 0.0% | 7 | 0.7% | 372 | 35.3% | 92 | 8.7% |
| Penrhyndeudraeth 2 | 1,533 | 922 | 60.1% | 1 | 0.1% | 0 | 0.0% | 1 | 0.1% | 0 | 0.0% | 1 | 0.1% | 11 | 0.7% | 466 | 30.4% | 131 | 8.5% |
| Pentir 1 | 1,217 | 728 | 59.8% | 8 | 0.7% | 45 | 3.7% | 2 | 0.2% | 123 | 10.1% | 1 | 0.1% | 6 | 0.5% | 235 | 19.3% | 69 | 5.7% |
| Pentir 2 | 1,233 | 774 | 62.8% | 2 | 0.2% | 10 | 0.8% | 0 | 0.0% | 41 | 3.3% | 0 | 0.0% | 12 | 1.0% | 295 | 23.9% | 99 | 8.0% |
| Penygroes | 1,793 | 1,038 | 57.9% | 5 | 0.3% | 1 | 0.1% | 0 | 0.0% | 1 | 0.1% | 0 | 0.0% | 3 | 0.2% | 557 | 31.1% | 188 | 10.5% |
| Dwyrain Porthmadog East | 1,775 | 1,123 | 63.3% | 8 | 0.5% | 3 | 0.2% | 0 | 0.0% | 8 | 0.5% | 2 | 0.1% | 5 | 0.3% | 467 | 26.3% | 159 | 9.0% |
| Gorllewin Porthmadog West | 1,732 | 1,201 | 69.3% | 18 | 1.0% | 1 | 0.1% | 1 | 0.1% | 3 | 0.2% | 0 | 0.0% | 10 | 0.6% | 399 | 23.0% | 99 | 5.7% |
| Porthmadog - Tremadog | 1,257 | 748 | 59.5% | 4 | 0.3% | 1 | 0.1% | 1 | 0.1% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 9 | 0.7% | 389 | 30.9% | 105 | 8.4% |
| Gogledd Pwllheli North | 2,190 | 1,372 | 62.6% | 5 | 0.2% | 8 | 0.4% | 1 | 0.0% | 5 | 0.2% | 1 | 0.0% | 4 | 0.2% | 641 | 29.3% | 153 | 7.0% |
| De Pwllheli South | 1,886 | 1,162 | 61.6% | 2 | 0.1% | 3 | 0.2% | 3 | 0.2% | 7 | 0.4% | 0 | 0.0% | 4 | 0.2% | 577 | 30.6% | 128 | 6.8% |
| Seiont 1 | 1,506 | 960 | 63.7% | 2 | 0.1% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 11 | 0.7% | 0 | 0.0% | 2 | 0.1% | 427 | 28.4% | 104 | 6.9% |
| Seiont 2 | 1,532 | 884 | 57.7% | 10 | 0.7% | 3 | 0.2% | 2 | 0.1% | 31 | 2.0% | 1 | 0.1% | 2 | 0.1% | 446 | 29.1% | 153 | 10.0% |
| Talysarn | 1,930 | 1,000 | 51.8% | 7 | 0.4% | 5 | 0.3% | 0 | 0.0% | 13 | 0.7% | 0 | 0.0% | 13 | 0.7% | 731 | 37.9% | 161 | 8.3% |
| Teigl | 1,871 | 1,089 | 58.2% | 5 | 0.3% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 10 | 0.5% | 0 | 0.0% | 13 | 0.7% | 582 | 31.1% | 172 | 9.2% |
| Trawsfynydd | 1,604 | 1,104 | 68.8% | 10 | 0.6% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 1 | 0.1% | 0 | 0.0% | 12 | 0.7% | 365 | 22.8% | 112 | 7.0% |
| Tregarth & Mynydd Llandygai | 2,218 | 1,194 | 53.8% | 5 | 0.2% | 0 | 0.0% | 1 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 13 | 0.6% | 785 | 35.4% | 220 | 9.9% |
| Tywyn 1 | 1,685 | 1,171 | 69.5% | 7 | 0.4% | 0 | 0.0% | 1 | 0.1% | 5 | 0.3% | 3 | 0.2% | 17 | 1.0% | 370 | 22.0% | 111 | 6.6% |
| Tywyn 2 | 1,579 | 948 | 60.0% | 1 | 0.1% | 4 | 0.3% | 1 | 0.1% | 9 | 0.6% | 1 | 0.1% | 19 | 1.2% | 455 | 28.8% | 141 | 8.9% |
| Waunfawr | 1,676 | 987 | 58.9% | 3 | 0.2% | 0 | 0.0% | 3 | 0.2% | 1 | 0.1% | 0 | 0.0% | 9 | 0.5% | 531 | 31.7% | 142 | 8.5% |
| Y Felinheli | 2,284 | 1,345 | 58.9% | 8 | 0.4% | 8 | 0.4% | 3 | 0.1% | 104 | 4.6% | 9 | 0.4% | 12 | 0.5% | 625 | 27.4% | 170 | 7.4% |
| Aberdaron, Botwnnog & Tudweiliog | 2,931 | 1,900 | 64.8% | 6 | 0.2% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 29 | 1.0% | 0 | 0.0% | 12 | 0.4% | 692 | 23.6% | 292 | 10.0% |
| Aberdyfi (Aberdovey) & Bryn-crug/Llanfihangel | 2,243 | 1,493 | 66.6% | 1 | 0.0% | 2 | 0.1% | 2 | 0.1% | 7 | 0.3% | 1 | 0.0% | 11 | 0.5% | 537 | 23.9% | 189 | 8.4% |

# Cyfrifiad 2011 - Ystadegau i Wynedd
## Crefydd
Diweddarwyd Chwefror 2013

# 2011 Census - Statistics for Gwynedd
## Religion
Last updated February 2013

Cynhyrchir gan yr Uned Ymchwil Corfforaethol, Cyngor Gwynedd
Mwy o wybodaeth - ffoniwch 01286 679043
ymchwil@gwynedd.gov.uk
www.gwynedd.gov.uk/ymchwil

Produced by the Corporate Research Unit, Gwynedd Council.
Further information - phone 01286 679043
research@gwynedd.gov.uk
www.gwynedd.gov.uk/research

Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol (h) Hawlfraint y Goron 2013
Cyfrifiad 2011, Tabl KS209EW
Gall yr ystadegau hyn gael eu defnyddio o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored.
http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/

Source: Office for National Statistics © Crown Copyright 2013
2011 Census, Table KS209EW
These statistics may be used under the terms of the Open Government Licence.
http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/

**Nol i dudalennau nodiadau**

**Back to notes page**



| | Pob preswylydd arferol / All usual residents | Cristnogaeth / Christian | | Bwdhaeth / Buddhist | | Hindŵaeth / Hindu | | Iddewiaeth / Jewish | | Islam / Muslim | | Siciaeth / Sikh | | Crefydd arall / Other religion | | Dim crefydd / No religion | | Heb nodi crefydd / Religion not stated | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Lloegr & Cymru / England & Wales** | 56,075,912 | 33,243,175 | 59.3% | 247,743 | 0.4% | 816,633 | 1.5% | 263,346 | 0.5% | 2,706,066 | 4.8% | 423,158 | 0.8% | 240,530 | 0.4% | 14,097,229 | 25.1% | 4,038,032 | 7.2% |
| **Cymru / Wales** | 3,063,456 | 1,763,299 | 57.6% | 9,117 | 0.3% | 10,434 | 0.3% | 2,064 | 0.1% | 45,950 | 1.5% | 2,962 | 0.1% | 12,705 | 0.4% | 982,997 | 32.1% | 233,928 | 7.6% |
| **Gwynedd** | 121,874 | 72,503 | 59.5% | 426 | 0.3% | 238 | 0.2% | 55 | 0.0% | 1,378 | 1.1% | 39 | 0.0% | 637 | 0.5% | 36,163 | 29.7% | 10,435 | 8.6% |
| **Arfon** | 60,573 | 33,694 | 55.6% | 244 | 0.4% | 199 | 0.3% | 33 | 0.1% | 1,173 | 1.9% | 26 | 0.0% | 309 | 0.5% | 19,678 | 32.5% | 5,217 | 8.6% |
| **Dwyfor** | 27,725 | 17,903 | 64.6% | 89 | 0.3% | 20 | 0.1% | 9 | 0.0% | 109 | 0.4% | 4 | 0.0% | 114 | 0.4% | 7,152 | 25.8% | 2,325 | 8.4% |
| **Meirionnydd** | 33,576 | 20,906 | 62.3% | 93 | 0.3% | 19 | 0.1% | 13 | 0.0% | 96 | 0.3% | 9 | 0.0% | 214 | 0.6% | 9,333 | 27.8% | 2,893 | 8.6% |
| Aber | 240 | 138 | 57.5% | 3 | 1.3% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 1 | 0.4% | 0 | 0.0% | 4 | 1.7% | 80 | 33.3% | 14 | 5.8% |
| Aberdaron | 965 | 642 | 66.5% | 5 | 0.5% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 10 | 1.0% | 210 | 21.8% | 98 | 10.2% |
| Aberdovey | 878 | 589 | 67.1% | 0 | 0.0% | 1 | 0.1% | 2 | 0.2% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 6 | 0.7% | 207 | 23.6% | 73 | 8.3% |
| Arthog | 1,031 | 606 | 58.8% | 8 | 0.8% | 1 | 0.1% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 1 | 0.1% | 302 | 29.3% | 113 | 11.0% |
| Bala | 1,974 | 1,279 | 64.8% | 1 | 0.1% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 4 | 0.2% | 1 | 0.1% | 6 | 0.3% | 496 | 25.1% | 187 | 9.5% |
| Bangor | 16,358 | 7,818 | 47.8% | 100 | 0.6% | 96 | 0.6% | 12 | 0.1% | 746 | 4.6% | 14 | 0.1% | 109 | 0.7% | 6,213 | 38.0% | 1,250 | 7.6% |
| Barmouth | 2,522 | 1,404 | 55.7% | 13 | 0.5% | 7 | 0.3% | 1 | 0.0% | 20 | 0.8% | 1 | 0.0% | 14 | 0.6% | 872 | 34.6% | 190 | 7.5% |
| Beddgelert | 455 | 249 | 54.7% | 0 | 0.0% | 1 | 0.2% | 1 | 0.2% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 3 | 0.7% | 153 | 33.6% | 48 | 10.5% |
| Bethesda | 4,735 | 2,587 | 54.6% | 32 | 0.7% | 6 | 0.1% | 1 | 0.0% | 12 | 0.3% | 1 | 0.0% | 26 | 0.5% | 1,580 | 33.4% | 490 | 10.3% |
| Betws Garmon | 249 | 119 | 47.8% | 1 | 0.4% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 108 | 43.4% | 21 | 8.4% |
| Bontnewydd | 1,162 | 767 | 66.0% | 4 | 0.3% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 12 | 1.0% | 0 | 0.0% | 6 | 0.5% | 291 | 25.0% | 82 | 7.1% |
| Botwnnog | 996 | 624 | 62.7% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 2 | 0.2% | 282 | 28.3% | 88 | 8.8% |
| Brithdir and Llanfachreth | 751 | 505 | 67.2% | 1 | 0.1% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 2 | 0.3% | 0 | 0.0% | 4 | 0.5% | 177 | 23.6% | 62 | 8.3% |
| Bryn-crug | 622 | 418 | 67.2% | 0 | 0.0% | 1 | 0.2% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 2 | 0.3% | 143 | 23.0% | 58 | 9.3% |
| Buan | 484 | 307 | 63.4% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 2 | 0.4% | 137 | 28.3% | 38 | 7.9% |
| Caernarfon | 9,615 | 5,629 | 58.5% | 23 | 0.2% | 19 | 0.2% | 4 | 0.0% | 82 | 0.9% | 1 | 0.0% | 16 | 0.2% | 3,009 | 31.3% | 832 | 8.7% |
| Clynnog | 997 | 600 | 60.2% | 5 | 0.5% | 0 | 0.0% | 1 | 0.1% | 2 | 0.2% | 0 | 0.0% | 2 | 0.2% | 294 | 29.5% | 93 | 9.3% |
| Corris | 723 | 300 | 41.5% | 4 | 0.6% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 13 | 1.8% | 308 | 42.6% | 98 | 13.6% |
| Criccieth | 1,753 | 1,176 | 67.1% | 11 | 0.6% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 7 | 0.4% | 0 | 0.0% | 11 | 0.6% | 390 | 22.2% | 158 | 9.0% |
| Dolbenmaen | 1,343 | 766 | 57.0% | 2 | 0.1% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 2 | 0.1% | 1 | 0.1% | 18 | 1.3% | 418 | 31.1% | 136 | 10.1% |
| Dolgellau | 2,688 | 1,696 | 63.1% | 2 | 0.1% | 2 | 0.1% | 0 | 0.0% | 11 | 0.4% | 0 | 0.0% | 15 | 0.6% | 740 | 27.5% | 222 | 8.3% |
| Dyffryn Ardudwy | 1,540 | 1,027 | 66.7% | 2 | 0.1% | 1 | 0.1% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 5 | 0.3% | 376 | 24.4% | 129 | 8.4% |
| Ffestiniog | 4,875 | 2,742 | 56.2% | 8 | 0.2% | 0 | 0.0% | 3 | 0.1% | 26 | 0.5% | 0 | 0.0% | 31 | 0.6% | 1,613 | 33.1% | 452 | 9.3% |
| Ganllwyd | 179 | 109 | 60.9% | 1 | 0.6% | 0 | 0.0% | 1 | 0.6% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 1 | 0.6% | 50 | 27.9% | 17 | 9.5% |
| Harlech | 1,447 | 800 | 55.3% | 2 | 0.1% | 1 | 0.1% | 0 | 0.0% | 4 | 0.3% | 1 | 0.1% | 19 | 1.3% | 476 | 32.9% | 144 | 10.0% |
| Llanaelhaearn | 1,117 | 684 | 61.2% | 2 | 0.2% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 1 | 0.1% | 0 | 0.0% | 3 | 0.3% | 316 | 28.3% | 111 | 9.9% |
| Llanbedr | 645 | 409 | 63.4% | 3 | 0.5% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 2 | 0.3% | 167 | 25.9% | 64 | 9.9% |
| Llanbedrog | 1,002 | 707 | 70.6% | 7 | 0.7% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 12 | 1.2% | 0 | 0.0% | 6 | 0.6% | 194 | 19.4% | 76 | 7.6% |
| Llanberis | 2,026 | 1,154 | 57.0% | 4 | 0.2% | 2 | 0.1% | 0 | 0.0% | 8 | 0.4% | 0 | 0.0% | 14 | 0.7% | 631 | 31.1% | 213 | 10.5% |
| Llanddeiniolen | 5,072 | 2,973 | 58.6% | 18 | 0.4% | 5 | 0.1% | 3 | 0.1% | 5 | 0.1% | 0 | 0.0% | 35 | 0.7% | 1,567 | 30.9% | 466 | 9.2% |
| Llandderfel | 1,095 | 798 | 72.9% | 4 | 0.4% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 3 | 0.3% | 224 | 20.5% | 66 | 6.0% |
| Llandwrog | 2,539 | 1,591 | 62.7% | 4 | 0.2% | 0 | 0.0% | 1 | 0.0% | 6 | 0.2% | 0 | 0.0% | 13 | 0.5% | 726 | 28.6% | 198 | 7.8% |
| Llandygai | 2,487 | 1,339 | 53.8% | 7 | 0.3% | 0 | 0.0% | 2 | 0.1% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 15 | 0.6% | 880 | 35.4% | 244 | 9.8% |
| Llanegryn | 303 | 183 | 60.4% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 5 | 1.7% | 90 | 29.7% | 25 | 8.3% |
| Llanelltyd | 514 | 357 | 69.5% | 4 | 0.8% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 3 | 0.6% | 123 | 23.9% | 27 | 5.3% |

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Llanengan | 1,989 | 1,346 | 67.7% | 4 | 0.2% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 13 | 0.7% | 0 | 0.0% | 6 | 0.3% | 456 | 22.9% | 164 | 8.2% |
| Llanfair | 453 | 318 | 70.2% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 2 | 0.4% | 96 | 21.2% | 37 | 8.2% |
| Llanfihangel-y-Pennant | 339 | 224 | 66.1% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 3 | 0.9% | 0 | 0.0% | 3 | 0.9% | 83 | 24.5% | 26 | 7.7% |
| Llanfrothen | 437 | 200 | 45.8% | 7 | 1.6% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 7 | 1.6% | 180 | 41.2% | 43 | 9.8% |
| Llangelynin | 673 | 461 | 68.5% | 2 | 0.3% | 1 | 0.1% | 0 | 0.0% | 6 | 0.9% | 0 | 0.0% | 4 | 0.6% | 163 | 24.2% | 36 | 5.3% |
| Llangywer | 260 | 180 | 69.2% | 1 | 0.4% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 45 | 17.3% | 34 | 13.1% |
| Llanllechid | 889 | 538 | 60.5% | 2 | 0.2% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 6 | 0.7% | 0 | 0.0% | 5 | 0.6% | 258 | 29.0% | 80 | 9.0% |
| Llanllyfni | 4,135 | 2,257 | 54.6% | 13 | 0.3% | 7 | 0.2% | 1 | 0.0% | 8 | 0.2% | 0 | 0.0% | 14 | 0.3% | 1,411 | 34.1% | 424 | 10.3% |
| Llannor | 2,145 | 1,455 | 67.8% | 6 | 0.3% | 0 | 0.0% | 1 | 0.0% | 13 | 0.6% | 0 | 0.0% | 2 | 0.1% | 530 | 24.7% | 138 | 6.4% |
| Llanrug | 2,911 | 1,815 | 62.3% | 11 | 0.4% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 17 | 0.6% | 0 | 0.0% | 12 | 0.4% | 808 | 27.8% | 248 | 8.5% |
| Llanuwchllyn | 617 | 458 | 74.2% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 1 | 0.2% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 1 | 0.2% | 102 | 16.5% | 55 | 8.9% |
| Llanwnda | 1,994 | 1,254 | 62.9% | 2 | 0.1% | 1 | 0.1% | 1 | 0.1% | 1 | 0.1% | 0 | 0.0% | 1 | 0.1% | 538 | 27.0% | 196 | 9.8% |
| Llanycil | 416 | 312 | 75.0% | 2 | 0.5% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 75 | 18.0% | 27 | 6.5% |
| Llanystumdwy | 2,080 | 1,412 | 67.9% | 7 | 0.3% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 7 | 0.3% | 485 | 23.3% | 169 | 8.1% |
| Maentwrog | 631 | 416 | 65.9% | 6 | 1.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 5 | 0.8% | 164 | 26.0% | 40 | 6.3% |
| Mawddwy | 622 | 371 | 59.6% | 4 | 0.6% | 0 | 0.0% | 2 | 0.3% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 6 | 1.0% | 160 | 25.7% | 79 | 12.7% |
| Nefyn | 2,602 | 1,676 | 64.4% | 2 | 0.1% | 4 | 0.2% | 1 | 0.0% | 6 | 0.2% | 0 | 0.0% | 9 | 0.3% | 631 | 24.3% | 273 | 10.5% |
| Pennal | 404 | 262 | 64.9% | 1 | 0.2% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 4 | 1.0% | 1 | 0.2% | 0 | 0.0% | 104 | 25.7% | 32 | 7.9% |
| Penrhyndeudraeth | 2,150 | 1,295 | 60.2% | 3 | 0.1% | 0 | 0.0% | 1 | 0.0% | 1 | 0.0% | 1 | 0.0% | 11 | 0.5% | 658 | 30.6% | 180 | 8.4% |
| Pentir | 2,450 | 1,502 | 61.3% | 10 | 0.4% | 55 | 2.2% | 2 | 0.1% | 164 | 6.7% | 1 | 0.0% | 18 | 0.7% | 530 | 21.6% | 168 | 6.9% |
| Pistyll | 566 | 341 | 60.2% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 1 | 0.2% | 0 | 0.0% | 5 | 0.9% | 174 | 30.7% | 45 | 8.0% |
| Porthmadog | 4,185 | 2,750 | 65.7% | 30 | 0.7% | 4 | 0.1% | 1 | 0.0% | 11 | 0.3% | 2 | 0.0% | 20 | 0.5% | 1,064 | 25.4% | 303 | 7.2% |
| Pwllheli | 4,076 | 2,534 | 62.2% | 7 | 0.2% | 11 | 0.3% | 4 | 0.1% | 12 | 0.3% | 1 | 0.0% | 8 | 0.2% | 1,218 | 29.9% | 281 | 6.9% |
| Talsarnau | 550 | 380 | 69.1% | 2 | 0.4% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 2 | 0.4% | 113 | 20.5% | 53 | 9.6% |
| Trawsfynydd | 973 | 688 | 70.7% | 4 | 0.4% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 1 | 0.1% | 0 | 0.0% | 7 | 0.7% | 201 | 20.7% | 72 | 7.4% |
| Tudweiliog | 970 | 634 | 65.4% | 1 | 0.1% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 29 | 3.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 200 | 20.6% | 106 | 10.9% |
| Tywyn | 3,264 | 2,119 | 64.9% | 8 | 0.2% | 4 | 0.1% | 2 | 0.1% | 14 | 0.4% | 4 | 0.1% | 36 | 1.1% | 825 | 25.3% | 252 | 7.7% |
| Waunfawr | 1,427 | 868 | 60.8% | 2 | 0.1% | 0 | 0.0% | 3 | 0.2% | 1 | 0.1% | 0 | 0.0% | 9 | 0.6% | 423 | 29.6% | 121 | 8.5% |
| Y Felinheli | 2,284 | 1,345 | 58.9% | 8 | 0.4% | 8 | 0.4% | 3 | 0.1% | 104 | 4.6% | 9 | 0.4% | 12 | 0.5% | 625 | 27.4% | 170 | 7.4% |

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Cabinet Cyngor Gwynedd** |
| **DYDDIAD** | **2 Ebrill 2019** |
| **AELOD CABINET** | **Cynghorydd Gareth Thomas** |
| **SWYDDOG** | **Garem Jackson** |
| **TEITL YR EITEM** | **Cychwyn trafodaethau lleol ar agor ysgol gynradd newydd yng Nghricieth** |

**1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

a) Cymeradwyo'r hawl i gychwyn trafodaethau lleol er mwyn adnabod opsiynau ar gyfer adeiladu ysgol gynradd newydd yng Nghricieth fel canlyniad i gyflwr gwael adeiladau presennol Ysgol Treferthyr.

b) Cymeradwyo cynnwys Ysgol Llanystumdwy yn y trafodaethau lleol.

**2. CYFLWYNIAD**

**Ysgol Treferthyr**

2.1 Mae Ysgol Treferthyr wedi'i lleoli yng nghanol tref Cricieth. Mae gan yr ysgol capasiti o 119, gyda 114 o ddisgyblion rhwng 3-11 oed ar y gofrestr ar hyn o bryd (Medi 2018) a cheir pum dosbarth oed cymysg yn yr ysgol. Mae rhan fwyaf o'r disgyblion (104) yn dod o ddalgylch Ysgol Treferthyr, gyda 10 disgybl ychwanegol yn dod o ddalgylchoedd eraill cyfagos. Cafwyd arolygiad Estyn yn 2018, gyda'r 5 maes arolygu craidd wedi ei asesu yn "Da". Mae'r adolygiad hefyd yn nodi bod y disgyblion yn cyfrannu'n helaeth yn y gymuned gyda chyfraniad brwdfrydig ganddynt tuag at gyngherddau lleol a Gŵyl Cricieth.

2.2 Mae Ysgol Treferthyr yn derbyn dyraniad cyllidol o £384,101 yn y flwyddyn 2018-19 gyda cost fesul disgybl yn £3,739.

**Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif**

2.3 Yn ystod y don cyntaf o'r Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif (Band A) mae Cyngor Gwynedd wedi llwyddo i ddenu oddeutu £50m i wella cyflwr adeiladau ysgolion er mwyn lles addysg plant y Sir.

2.4 Mae Llywodraeth Cymru bellach wedi cychwyn ail wedd Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif (Band B) bydd yn cychwyn yn Ebrill 2019 ac yn rhedeg hyd at 2026. Cyflwynodd Cyngor Gwynedd gais yn dilyn cynnal ymarferiad blaenoriaethu yn seiliedig ar anghenion yr Awdurdod a gofynion Llywodraeth Cymru a arweiniodd at adnabod 5 prosiect ar gyfer cais yr Awdurdod.

2.5 Adnabuwyd yr angen i wella darpariaeth gynradd yng Nghricieth fel rhan o'r cais hwn ar y sail fod arolygon wedi adnabod fod cyflwr adeiladau Ysgol Treferthyr yng nghategori C- sy'n golygu fod nifer o ddiffygion yng nghyflwr yr adeiladau sydd gyda'i gilydd yn golygu fod

cyflwr yr adeiladau yn wael a’r bod yn aneconomaidd parhau i geisio cynnal yr adeiladau yn y dyfodol.

**Adroddiad Cabinet 16 Mehefin 2018**

2.6 Yn dilyn cadarnhad o gyfraniad ariannol Llywodraeth Cymru o Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif (Band B) cyflwynwyd adroddiad i’r Cabinet ar 16 Mehefin 2018 yn gofyn iddynt:

a) gymeradwyo mewn egwyddor blaenoriaethau cychwynnol ar gyfer Band B y Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif
b) Aros am ganlyniad y broses o sefydlu Cynllun Rheoli Asedau’r Cyngor cyn mabwysiadu rhaglen derfynol.

2.7 Yn dilyn trafod yr adroddiad, penderfyniad y Cabinet oedd i gymeradwyo y ddau argymhelliad. Mae’r Cynllun Asedau’r Cyngor bellach wedi ei fabwysiadu ac mae arian cyfatebol ar gyfer Ysgol Treferthyr yn rhan o’r Cynllun.

**Trefniadau ymgysylltu**

2.8 Mae swyddogion o’r Adran Addysg yn barod wedi cynnal nifer o gyfarfodydd cychwynnol gyda chorff llywodraethol Ysgol Treferthyr er mwyn egluro’r rhesymau am yr angen i drafod dyfodol Ysgol Treferthyr a’r drefn o gynnal trafodaethau lleol.

2.9 Yn unol â’r drefn sydd wedi ei sefydlu ar gyfer y prosesau ymgysylltu yng Ngwynedd, mae panel lleol yn cael ei sefydlu i roi cyfle i drafod a derbyn mewnbwn lleol ar gyfer dyfodol darpariaeth addysg yn yr ardal. Mae hefyd yn fwriad i sicrhau fod yr hyn sy’n cael ei drafod yn ystod y cyfarfodydd yn cael ei raeadru ymhellach i garfannau eraill lleol. Mae’r paneli yma yn cynnwys cynrychiolwyr o’r ysgolion perthnasol - sef pennaeth, cadeirydd llywodraethwyr, rhiant lywodraethwyr, aelodau etholedig lleol, a chynrychiolaeth o fudiadau eraill priodol.

**3. RHESYMAU DROS YR ANGEN I YSTYRIED DYFODOL YR YSGOL**

**Cyflwr gwael**

3.1 Mae arolygon cyflwr yn ymwneud ag adeiladau Ysgol Treferthyr wedi adnabod sawl mater sy’n golygu fod nifer o ddiffygion sylweddol i’r adeiladwaith angen sylw o fewn y 5 mlynedd nesaf. Ar sail hyn, mae’r ysgol wedi ei ddynodi yng nghategori C - o ran cyflwr.

3.2 Ychydig dros 5 mlynedd yn ôl bu gwariant o gwmpas £500k er mwyn ceisio ymestyn oes yr adeiladau am gyfnod oddeutu 5 mlynedd.

3.3 Mae rhannau o’r adeiladau o wneuthuriad coed ac o ansawdd gwael. Adeiladwyd rhan sylweddol o’r ysgol gan ddefnyddio adeiladwaith o’r fath Vic Hallam yn y 1970au, oedd ag oes o thua 25 mlynedd ond sydd erbyn hyn mewn cyflwr gwael.

3.4 Bellach mae effaith y gwaith dros dro yn dirwyn i ben. O beidio â chynllunio nawr ar gyfer datrysiad tymor hir, mae risg uchel o orfod delio gyda sefyllfa frys o fewn y 5 mlynedd nesa.

Rydym wedi gweld sefyllfaoedd tebyg yn ddiweddar yn ysgolion y Groeslon a Glan Cegin, Bangor.

**Ysgolion eraill yn yr ardal**

3.5 Wrth gydnabod gwersi o brosiectau blaenorol, mae'r Cyngor o'r farn fod rhaid i gynlluniau adeiladu ysgolion fod ar sail yr holl blant sy'n byw yn nalgylch yr ysgol bresennol yn hytrach na'r niferoedd sy'n mynychu'r ysgol ar hyn o bryd.

3.6 Mae'r wybodaeth ynglŷn â'r nifer o blant sy'n byw yn nalgylch Treferthyr yn dangos fod sawl plentyn o ddalgylch yr ysgol yn mynychu ysgolion eraill cyfagos ar hyn o bryd. Ar sail hyn, penderfynwyd hysbysu'r ddwy ysgol oedd gyda'r nifer uchaf o blant dalgylch Treferthyr ar eu cofrestr, sef Ysgol y Gorlan ac Ysgol Llanystumdwy, er mwyn iddynt allu ystyried unrhyw effaith posibl ar niferoedd eu disgyblion.

**Tabl 1 – Ysgolion cynradd mae plant dalgylch Treferthyr yn mynychu (Medi 2018)**

| **Ysgolion mae'r plant yn mynychu** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Treferthyr | Llanystumdwy | Y Gorlan | Eifion Wyn | Garndolbenmaen | Borth y Gest | Arall |
| 104 | 9 | 9 | 3 | 2 | 1 | 2 |

3.7 Mae trafodaethau cychwynnol wedi eu cynnal gyda Chorff Llywodraethol, Staff a Rhieni/Gwarchodwyr Ysgol Llanystumdwy i drafod yr effaith posib fyddai adeiladu ysgol newydd yng Nghricieth yn gallu ei gael ar niferoedd disgyblion yn eu ysgol. Fel canlyniad i'r trafodaethau hyn, mae llywodraethwyr Ysgol Llanystumdwy wedi nodi eu bod yn awyddus i fod yn rhan o'r Panel Adolygu Lleol. Bydd y panel hwn yn trafod materion megis lleoliadau posibl, anghenion ar gyfer yr ysgol newydd, yn ogystal â thrafod opsiynau perthnasol i sefyllfaoedd ysgolion Llanystumdwy a Threferthyr.

3.8 Gan fod Ysgol Llanystumdwy yn ysgol Eglwysig Wirfoddol a Reolir, mae swyddogion o'r Adran Addysg hefyd wedi cwrdd â chynrychiolwyr o Esgobaeth Bangor a bydd trafodaethau ynglŷn ag unrhyw ddatblygiadau yn parhau. Pe bai canlyniad y trafodaethau lleol yn golygu unrhyw newid i Ysgol Llanystumdwy bydd angen cynnal proses cyn-ymgynghori gyda'r eglwys yn unol a Chod Trefniadaeth Ysgolion.

## 4. YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

### 4.1 Cais am arian Llywodraeth Cymru

Mae Cyngor Gwynedd wedi derbyn cadarnhad gan Lywodraeth Cymru fod y *Cais Strategol Amlinellol* am arian sydd yn ymwneud a'r 5 prosiect wedi ei gytuno mewn egwyddor. Mae'r Llywodraeth wedi cadarnhau ymrwymiad i gyfrannu 65% at gost y prosiect yma yn ddibynnol ar gyflwyno achos fusnes llwyddiannus a fydd yn cyfiawnhau'r buddsoddiad ac yn profi gwerth am arian. Mae cais yn cynnwys cyfanswm o gwmpas £4.97m, gyda £3.23m yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru a Chyngor Gwynedd yn cyfrannu £1.74m. Bydd cyfraniad Cyngor Gwynedd wedi ei ariannu o dan Gynllun Asedau Cyngor Gwynedd 2019-2029.

**4.2 Strategaethau Addysg**

Mabwysiadwyd strategaeth *"Addysg Gynradd o Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd"* gan y Cyngor yn Ebrill 2009 gyda'r nod o osod gweledigaeth, amcanion ac egwyddorion clir ar gyfer yr ystyriaethau perthnasol i drefniadaeth ysgolion y Sir. Yn ychwanegol, datblygwyd a chefnogwyd uwch strategaeth *"Rhaglen Strategol - Tuag at 2025"* gan y Cyngor yn Hydref 2010. Darparwyd y ddogfen fel sylfaen strategol i osod cyfeiriad i ddatblygiadau ym maes addysg a hyfforddiant yng Ngwynedd am y 15 mlynedd nesaf. Cyflwynwyd y rhaglen yng nghyd-destun y polisïau a chynlluniau lleol a chenedlaethol, i drawsnewid gwasanaethau a ddarperir ar gyfer plant, pobl ifanc a'u teuluoedd i alluogi'r profiadau dysgu gorau posibl i holl ddysgwyr y Sir.

**4.3 Egwyddorion Addysg Addas i Bwrpas**

Yn ei gyfarfod ar 18 Rhagfyr 2018 bu i'r Cabinet gymeradwyo Egwyddorion Addysg Addas i Bwrpas. Mae'r egwyddorion addysg gynradd canlynol yn sail ar gyfer gwireddu gweledigaeth yr Adran Addysg a datblygu'r gyfundrefn er sicrhau addysg o ansawdd uchel i blant a phobl ifanc Gwynedd ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain.

**Newidiadau i'r Cod Trefniadaeth Ysgolion**

4.5 Mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion yn gosod gofynion y bydd angen i gyrff perthnasol (yn cynnwys Awdurdodau Lleol) weithredu yn unol â hwy. Mae'n cynnwys y canllawiau statudol y mae'n rhaid i gyrff perthnasol roi sylw penodol iddynt ac mae'n gosod y cyd-destun polisi, yr egwyddorion cyffredinol a'r ffactorau sy'n ymwneud a chynigion i ad-drefnu ysgolion.

4.6 Mae fersiwn newydd o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018) wedi'i gyhoeddi sydd yn cynnwys yr angen i wneud trefniadau arbennig ar gyfer ysgolion gwledig (a diffinnir o fewn y Cod), yn cynnwys sefydlu rhagdybiaeth weithdrefnol yn erbyn cau ysgolion gwledig. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i gynigiwr ddilyn cyfres fanylach o weithdrefnau a gofynion petai benderfyniad yn cael ei wneud a fyddai'n cynnwys cynnig i gau ysgol wledig.

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi fod Ysgol Llanystumdwy yn ysgol wledig.

## 5. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

5.1 Yn ddarostyngedig ar benderfyniad y Cabinet, bydd Panel Adolygu Lleol yn cael ei sefydlu i adnabod a thrafod opsiynau, gyda'r bwriad o adnabod opsiwn ffafriedig sy'n ymateb i anghenion addysg ar gyfer yr ardal. Mi fydd y Panel hwn yn cynnwys Aelod Cabinet Addysg, swyddogion o'r Adran Addysg ac Eiddo, a chynrychiolaeth o'r ysgolion perthnasol, Aelodau Lleol a chynrychiolydd o'r Eglwys yng Nghymru.

5.2 Yn dilyn cynnal trafodaethau lleol, bydd adroddiad yn cael ei baratoi ar gyfer y Cabinet i ofyn am ganiatâd i symud ymlaen i gynnal unrhyw broses statudol, yn unol â chanllawiau Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018), yn ôl yr angen.

5.3 Bydd achos fusnes cynhwysfawr (yn unol â chanllawiau 5 cam y Trysorlys) yn cael ei baratoi er mwyn sicrhau cyfraniad Llywodraeth Cymru o'r arian cyfalaf.

**Rhaglen waith**

| Dyddiad | Gwaith |
|---|---|
| **Ebrill – Mehefin 2019** | Cynnal cyfres o gyfarfodydd Panel Adolygu Lleol. Pwrpas y cyfarfodydd hyn fydd i drafod amcanion y gwaith, cyflwyno gwybodaeth am yr ysgolion, cytuno ar ddulliau cyfathrebu, trafod lleoliadau ac opsiynau posib, asesiadau ardrawiad, a cheisio adnabod opsiwn ffafriedig. |
| **Gorffennaf 2019** | Adrodd yn ôl i'r Cabinet yn dilyn derbyn adborth lleol i ofyn am ganiatâd i gynnal unrhyw broses statudol, yn unol â chanllawiau Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, yn ôl yr angen. |

## 6. BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

**Y Swyddog Monitro:**
Rwy'n fodlon fod yr adroddiad yn cynrychioli cam priodol ar gyfer cychwyn y drafodaeth ac adnabod y prif ffactorau fydd yn cyfrannu at y gwaith.

**Y Pennaeth Cyllid:**
Cadarnhaf gywirdeb y wybodaeth ariannol sy'n ymddangos yn rhan 2.2, 2.3, a 4.1 o'r adroddiad, gan gynnwys y cyfraniad 65% gan Lywodraeth Cymru at amcangyfrif cost y prosiect, yn ddibynnol ar gyflwyno achos busnes llwyddiannus. Rwy'n cefnogi'r penderfyniad a geisir, gan bwysleisio'r angen i lynu at yr amserlen nodir yn rhan 5.3, ac i anelu at drefniadaeth gynaliadwy.

**Barn yr Aelodau Lleol:**

**Cyng. Eirwyn Williams, Cricieth:**
Cytuno yn llwyr â'r adroddiad. Mae Cricieth wir angen ysgol gynradd newydd.

**Cyng. Aled Evans, Llanystumdwy:**
Diolch am y cyfle i roi barn . Gan gyfeirio yn benodol at bwynt 3.7 credaf ei fod yn beth cadarnhaol bod Llywodraethwyr Llanystumdwy wedi nodi eu bod yn awyddus i fod yn rhan o'r Panel Adolygu Lleol.

Hyderaf y bydd gwrandawiad teilwng i ofynion Llanystumdwy yn y trafodaethau. Roedd yn bwysig bod yr Ysgol wedi derbyn y cynnig i drafod a bydd yn ddiddorol gweld sut y bydd pethau'n datblygu.

# Asesiad Effaith Cydraddoldeb

Gweler y daflen *Sut i Wneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb* am gymorth i lenwi'r ffurflen yma. Mae croeso hefyd i chi gysylltu gyda Delyth Williams, Swyddog Polisi a Chydraddoldeb ar, est 32708, neu DelythGadlysWilliams@gwynedd.llyw.cymru, am gymorth pellach

## 1 Manylion

### 1.1 Beth yw enw'r polisi / gwasanaeth dan sylw?

| |
|---|
| Cychwyn trafodaethau lleol ar agor ysgol gynradd newydd yng Nghricieth |

### 1.2 Beth ydi pwrpas y polisi/gwasanaeth sy'n cael ei greu neu ei newid? Pa newidiadau sy'n cael eu hystyried?

| |
|---|
| Agor ysgol gynradd newydd yng Nghricieth |

### 1.3 Pwy sy'n gyfrifol am yr asesiad yma?

| |
|---|
| Gareth Jones (Swyddog Moderneiddio Addysg) |

### 1.4 Pryd wnaethoch chi gychwyn yr asesiad? Pa fersiwn yw hwn?

| |
|---|
| 18 Mawrth 2019 (fersiwn 1)<br>19 Mawrth 2019 (fersiwn 2) |

## 2) Gweithredu

### 2.1 Pwy yw'r partneriaid fydd yn rhaid gweithio hefo nhw i wneud yr asesiad yma?

| |
|---|
| Adran Addysg Cyngor Gwynedd<br><br>Staff, llywodraethwyr, rhieni a phlant fydd yn rhan o'r ymgysylltu lleol cychwynnol |

**2.2 Pa gamau ydych chi wedi ei gymryd i ymgysylltu gyda pobl hefo nodweddion cydraddoldeb?**

| |
|---|
| Wedi siarad gyda cyrff llywodraethol Ysgol Treferthyr ac Ysgol Llanystumdwy<br>Wedi diweddaru staff a rhieni y 2 ysgol.<br><br>Yn ddibynnol ar benderfyniad y Cabinet y cam nesaf fydd i sefydlu panel lleol i roi cyfle i drafod a derbyn mewnbwn lleol ar gyfer dyfodol darpariaeth addysg yn yr ardal. Mae hefyd yn fwriad i sicrhau fod yr hyn sy'n cael ei drafod yn ystod y cyfarfodydd yn cael ei raeadru ymhellach i garfannau eraill lleol. Mi fydd y paneli yma yn cynnwys cynrychiolwyr o'r ysgolion perthnasol - sef pennaeth, cadeirydd llywodraethwyr, rhiant lywodraethwyr, aelodau etholedig lleol, a chynrychiolaeth o fudiadau eraill priodol. Mi fydd y gwaith yma'n cynnwys cynnal asesiadau ieithyddol, cymunedol a chydraddoldeb o opsiynau posib.<br><br>Mi fyddwn hefyd yn cynnal sesiwn gyda disgyblion i dderbyn eu sylwadau ar opsiynau. |

**2.3 Beth oedd canlyniad yr ymgysylltu?**

| |
|---|
| Mi fydd canlyniad yr ymgysylltu ac asesiadau ar gael yn dilyn cwblhau'r sesiynau'r panel lleol. |

**2.4 Ar sail pa dystiolaeth arall ydych chi'n gweithredu?**

| |
|---|
| Rydym yn gweithredu'r prosiect ar sail cais am arian rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif. |

**2.5 Oes yna unrhyw fylchau yn y dystiolaeth sydd angen ei gasglu?**

| |
|---|
| Nac oes |

## 3) Adnabod yr Effaith

**3.1 Beth yw'r effaith fydd y polisi/gwasanaeth newydd neu'r newidiadau yn y polisi neu wasanaeth yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb? Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r effaith fydd unrhyw newidiadau'n ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb.**

| **Nodweddion** | **Sut fath o effaith?** (dylech ddileu'r rhai amherthnasol) | **Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?** |
|---|---|---|
| **Hil (gan gynnwys cenedl-igrwydd)** | Dim | Polisïau yn eu lle gan ysgolion. |

| | | |
|---|---|---|
| **Yr iaith Gymraeg** | Dim | Dim disgwyl unrhyw effaith ond bydd asesiad ieithyddol ar wahân yn cael ei gweithredu i asesu unrhyw effaith arfaethedig ar yr iaith Gymraeg. |
| **Anabledd** | Dim | Polisïau yn eu lle gan ysgolion. |
| **Rhyw** | Dim | Polisïau yn eu lle gan ysgolion. |
| **Oedran** | Dim | Y bwriad yw sefydlu ysgol newydd 3-11 oed i gymryd lle ysgol sy'n darparu addysg i blant o'r un oedran.<br><br>Mi fyddwn yn cynnal sesiynau ymgysylltu ac ymgynghori gyda disgyblion gan sicrhau eu bod yn addas i oedran y plant. |
| **Cyfeiriadedd rhywiol** | Dim | |
| **Crefydd neu gred (neu ddiffyg cred)** | Posib | Mae Ysgol Llanystumdwy yn ysgol Eglwysig Wirfoddol a Reolir. Bydd unrhyw faterion yn cael eu gwintyllu yn ystod y cyfnod ymgysylltu. |
| **Ailbennu rhywedd** | Dim | Polisïau yn eu lle gan ysgolion. |
| **Beichiogrwydd a mamolaeth** | Dim | Ddim yn berthnasol. |
| **Priodas a phartneriaeth sifil** | Dim | Ddim yn berthnasol. |

**3.2 Ydi'r polisi neu wasanaeth yn cael effaith ar eu Dyletswyddau Cyffredinol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010? Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r ffordd mae unrhyw newid yn effeithio'r dyletswyddau yma.**

| **Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb** | **A yw'n cael effaith?** (Dylid dileu'r rhai amherthnasol) | **Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?** |
|---|---|---|
| **Cael gwared â cham-wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth** | Nac ydi | Ni fydd y cynnig yn newid dyletswydd statudol yr ysgol i amddiffyn disgyblion rhag unrhyw wahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth. Y nod yw rhoi cyfle i'r disgyblion leisio'u barn mewn ffordd sy'n addas ac yn briodol o ystyried unrhyw ffactorau sy'n effeithio arnynt. Byddant yn parhau i ddefnyddio'r Cyngor Ysgol, gwersi |

| | | |
|---|---|---|
| | | ABCh, polisïau gwrth-fwlio a dulliau eraill i sicrhau bod yr ysgol yn gwahardd gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth. |
| **Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal** | Nac ydi | Mae gwersi ABCh yn digwydd yn yr ysgol fydd yn hyrwyddo cyfleoedd cyfartal. |
| **Meithrin perthnasau da** | Nac ydi | Mae gwersi ABCh yn digwydd yn yr ysgol fydd yn addysgu plant ar sut i feithrin perthynas dda. |

**4) Dadansoddi'r canlyniadau**

**4.1 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, bositif ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol a beth yw'r rheswm am hyn?**

| |
|---|
| Effaith bositif gan fydd ysgol newydd yn golygu adnoddau modern ar gyfer yr 21ain ganrif fydd yn hwyluso'r gwaith o hyrwyddo cyfleoedd cyfartal a meithrin perthynas dda rhwng yr ysgol a'r gymuned. |

**4.2 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, negyddol ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol a beth yw'r rheswm am hyn?**

| |
|---|
| Nac ydi |

**4.3 Beth ddylid ei wneud?**

Dewisiwch un o'r canlynol:

| | |
|---|---|
| Parhau gyda'r polisi / gwasanaeth gan ei fod yn gadarn | Ia |
| Addasu'r polisi i ddileu unrhyw rwystrau | |
| Atal a dileu'r polisi gan fod yr effeithiau niweidiol yn rhy fawr | |
| Parhau a'r polisi oherwydd gellir cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol | |

**4.4 Pa gamau fyddwch chi'n gymryd i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

| |
|---|
| Er nad ydym yn rhagweld unrhyw effaith negyddol mi fyddwn yn monitro ac yn gweithredu yn ôl y galw. |

**4.5 Os nad ydych yn gweithredu ymhellach i ddileu neu leihau effeithiau negyddol, esboniwch pam yma.**

| |
|---|
| Dim effaith negyddol wedi ei adnabod. |

## 5) Monitro

**5.1 Pa gamau fyddwch chi'n gymryd i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi neu wasanaeth (cynllun gweithredu)?**

| |
|---|
| Mi fyddwn yn monitro effaith unrhyw newid er mwyn sicrhau fod y deilliannau yn bositif a ddim yn cael unrhyw effaith negyddol. |

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod y Cabinet

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **2 Ebrill 2019** |
| **Aelod Cabinet** | **Cynghorydd Ioan Thomas, Aelod Cabinet Cyllid** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Dilwyn Williams, Prif Weithredwr** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Arbedion Effeithlonrwydd pellach 2019-20** |

**Penderfyniad a geisir**

Defnyddio £1,666,560 o'r Gronfa Trawsffurfio er mwyn ad-dalu'r benthyciad a ddefnyddir i gyflawni'r cynllun lampau LED ac i bontio cyfnod cyflawni'r cynllun er mwyn cymryd y cyfan o'r arbediad o £184,500 i ystyriaeth yn 2019/20.

**Cefndir**

1. Mae Strategaeth Ariannol y Cyngor yn seiliedig ar gyflawni cyfres o arbedion er mwyn cyfyngu'r cynnydd yn y Dreth Gyngor i 5.8%.

2. Fodd bynnag, er mwyn gallu cyfyngu'r cynnydd i'r lefel hwnnw mae'r cynllun sydd gennym hefyd yn rhagdybio ein bod am ddarganfod arbedion effeithlonrwydd pellach o £500,000.

3. Rwyf eisoes wedi nodi fod modd cael rhywfaint o arbedion drwy gynnal yr adolygiad rheolaethol ond ni fyddwn yn gwybod faint hyd nes y byddwn wedi bod drwy'r broses. Mae gen i amheuaeth a fydd yn cyfarch yr holl £500,000 sydd ei angen.

4. Un ffordd o ddarganfod arbedion effeithlonrwydd pellach yw newid y drefn ar gyfer ad-dalu'r cynllun gosod lampau LED i weddill goleuadau stryd y sir sydd gan yr Adran Briffyrdd.

5. Y bwriad ar hyn o bryd yw cymryd benthyciad gan Salix i ariannu'r gwaith yma gan ad-dalu'r benthyciad o'r arbedion fydd yn cael eu gwireddu. Gan fod yna wahaniaeth rhwng yr arbedion y byddwn yn eu cyflawni a'r proffil ad-dalu benthyciad, gellir gwireddu £45,900 o'r arbediad y flwyddyn nesaf yn sgil y gwahaniaeth yma, ond fe fydd yn tyfu'n sylweddol ar ôl talu'r benthyciad yn ôl yn 2032/33 i £184,500.

6. Fodd bynnag pe byddem yn defnyddio'r Gronfa Trawsffurfio i ad-dalu'r benthyciad, byddai modd cymryd yr holl arbediad o £184,500 yn 2019/20.

7. I bob pwrpas, yr hyn y byddem yn ei wneud yma yw aberthu tua £1.67m o'r Gronfa Trawsffurfio er mwyn dod ag arbedion effeithlonrwydd pellach ymlaen i 2019/20 yn hytrach nag aros tan 2032/33 amdanynt.

8. Byddem yn parhau i gael llog ar elfen o'r Gronfa Trawsffurfio hyd nes y byddem wedi ad-dalu'r benthyciad wrth gwrs.

9. Gan fod y Cynllun yn cael ei wireddu dros 3 blynedd mae'r swm sydd ei angen hefyd yn cynnwys pontio'r cyfnod cyflawni er mwyn gallu cymryd yr arbediad yn gyfangwbl o'r 1 Ebrill 2019/20. £1.39m sydd ei angen ar gyfer ad-dalu'r benthyciad a £0.28m ar gyfer y cyfnod pontio.

10. Argymhellir felly ein bod yn defnyddio £1,666,560 o'r Gronfa Trawsffurfio er mwyn ad-dalu'r benthyciad a ddefnyddir i gyflawni'r cynllun lampau LED ac i bontio cyfnod cyflawni'r cynllun er mwyn cymryd y cyfan o'r arbediad o £184,500 i ystyriaeth yn 2019/20.

---

**Sylwadau'r Swyddogion Statudol**

**Swyddog Monitro**
Dim sylwadau o ran priodoldeb.

**Pennaeth Cyllid**
Rwyf wedi cydweithio gyda'r awdur i baratoi'r adroddiad yma. Cadarnhaf gywirdeb y ffigyrau ac rwy'n cefnogi'r penderfyniad a geisir.

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod y Cabinet

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **2 Ebrill 2019** |
| **Aelod Cabinet** | **Cynghorydd Ioan Thomas, Aelod Cabinet Cyllid** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Caren Rees Jones, Prif Gyfrifydd Cyfalaf a Rheolaeth** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Rhaglen Gyfalaf 2019-20; 2020/21 a 2021/22.** |

**Penderfyniad a geisir**

Gosod y cynlluniau a ddangosir yn Atodiad A yn y rhaglen gyfalaf ar gyfer y cyfnod tair blynedd 2019/20; 2020/21 a 2021/22

**Cefndir**

1. Yn ei gyfarfod ar 7 Mawrth fe fabwysiadodd y Cyngor Gynllun Asedau ar gyfer y 10 mlynedd nesaf.

2. Fel arfer byddai'r rhaglen gyfalaf am y 3 blynedd i ddod yn cael ei chynnwys yn yr adroddiad ar y gyllideb ond gan nad oedd y Cyngor wedi mabwysiadu'r Cynllun Asedau nid oedd modd gwneud hynny mewn manylder.

3. Fodd bynnag, yn yr adroddiad ar y gyllideb fe nodwyd yn Atodiad 4 y byddai'r symiau canlynol yn cael eu darparu am y tair blynedd nesaf ar gyfer y cynlluniau hynny oedd yn rhan o'r Cynllun Asedau –

| 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 |
|---|---|---|
| £11.728m | £7.535m | £6.610m |

4. Yn dilyn ymgynghori gyda'r adrannau perthnasol, 'rydym wedi sefydlu proffil tebygol ar gyfer y cynlluniau unigol sydd yn y Cynllun Asedau, ac argymhellir fod y Cabinet yn cymeradwyo gosod y cynlluniau a nodir yn Atodiad A yn y rhaglen gyfalaf am y tair blynedd nesaf.

5. Fe welir nad yw'r swm ar gyfer 2019/20 yn cyfateb i'r £11.728m a hynny oherwydd nad yw'r cynlluniau perthnasol ddigon aeddfed i gychwyn tan 2021/22. Rydym felly wedi ail broffilio'r gwariant i gyd-fynd a gofynion adrannol a byddwn yn addasu'r gyllideb i adlewyrchu hynny.

**Sylwadau'r Swyddogion Statudol**

**Swyddog Monitro**

Mae'r adroddiad yn sefydlu'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer y tair blynedd nesaf mewn modd priodol, gyda'r anghenion adrannol wedi eu cyfarch. Dim sylwadau pellach o safbwynt priodoldeb.

**Pennaeth Cyllid**

Rwyf wedi cydweithio gyda'r awdur i baratoi'r adroddiad yma.  Cadarnhaf gywirdeb y ffigyrau ac rwy'n cefnogi'r penderfyniad a geisir

**Atodiad A**

| Rhif Cymal y Cynllun Asedau | | 2019/20 £ | 2020/21 £ | 2021/22 £ |
|---|---|---|---|---|
| | **Addysg** | | | |
| 18 | Darpariaeth Ôl-16 | | 24,500 | 42,000 |
| 19 | Ysgol Treferthyr, Criccieth | 19,250 | 496,810 | 1,145,560 |
| 20 | Uwchraddio Ysgolion | 714,000 | 714,000 | 714,000 |
| | | | | |
| | **Cyllid** | | | |
| 48 | Adnewyddu Cyfarpar Technoleg Gwybodaeth | 502,170 | 481,090 | 1,162,640 |
| | | | | |
| | **Datblygu'r Economi a Chymuned** | | | |
| 25 | Canolfan Hamdden Arfon (I&D) | 150,000 | | |
| 25 | Canolfan Hamdden Plas Silyn (I&D) | 100,000 | | |
| 26 | Parc Padarn | 50,000 | 20,000 | 50,000 |
| 27 | Adnewyddu caeau chwarae Pob Tywydd | 400,000 | 205,000 | 280,000 |
| | | | | |
| | **Oedolion Iechyd a Llesiant** | | | |
| 29 | Grantiau tai | 1,300,000 | 1,300,000 | 1,300,000 |
| 30 | Hosteli Digartref | 50,000 | 150,000 | 300,000 |
| 33 | Hwb Iechyd a Gofal Penygroes | 250,000 | 500,000 | 1,750,000 |
| 34 | Canolfan Dolfeurig, Dolgellau | 50,000 | 550,000 | 600,000 |
| 35 | Cartref Preswyl Tanymarian | 100,000 | 100,000 | |
| 35 | Cartref Preswyl Plas Hafan | | | 50,000 |
| 35 | Cartref Preswyl Cefn Rodyn | 400,000 | | |
| 35 | Cartref Preswyl Hafod Mawddach | 200,000 | 200,000 | |
| | | | | |
| | **Plant** | | | |
| 28 | Canolfan Maesgeirchen | - | - | 250,000 |
| | | | | |
| | **Priffyrdd a Bwrdeistrefol** | | | |
| 36 | Atal Dirywiad Ffyrdd | 1,000,000 | | |
| 38 | Goleuadau Traffig | 65,000 | 65,000 | 65,000 |
| 39 | Ffensys Diogelwch | 100,000 | 100,000 | 100,000 |
| 40 | Pont Dysynni, Tywyn | | | 31,000 |
| 40 | Pont Cadfan Tywyn | | 101,500 | |
| 40 | Pont Penllyn ger Brynrefail | 108,000 | | |
| 41 | Llifogydd ar y Briffordd | 100,000 | 100,000 | 100,000 |
| 42 | Tir Claddu | 22,000 | | 150,000 |
| 43 | Adnewyddu Pibellau Dwr Stadau tai | 300,000 | 300,000 | 300,000 |
| 44 | Caergylchu | | 28,000 | 30,000 |
| 45 | Coed Ffridd Arw | 160,000 | 50,000 | |
| 47 | Fflyd y Cyngor | 223,920 | 31,170 | 85,220 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| | **Amgylchedd** | | | |
| 21 | Dichonoldeb Trafnidiaeth | 75,000 | 75,000 | 75,000 |
| 22 | Cynnal a Chadw Lonydd Glas | 20,000 | 20,000 | 25,000 |
| 23 | Gwaredu Asbestos | 308,000 | 200,000 | 200,000 |
| 24 | Puro Dwr Manddaliadau | 400,000 | | |
| 58 | Ôl groniad cynnal a chadw adeiladau | 300,000 | 300,000 | |
| | | | | |
| | **Ymgynghoriaeth Gwynedd** | | | |
| 46 | Atal Llifogydd Promenâd y Gogledd Abermaw | 30,000 | 10,000 | 207,500 |
| 46 | Atal Llifogydd Hirael Bangor | 25,000 | 10,000 | 200,000 |
| 46 | Atal Llifogydd Pwllheli | 5,000 | 245,000 | 245,000 |
| 46 | Atal Llifogydd Ffordd y Traeth y Felinheli | 63,800 | 75,000 | |
| 46 | Atal Llifogydd Gerddi Traphont Abermaw | 15,000 | 15,000 | 200,000 |
| 46 | Cei Aberdyfi | 100,000 | 337,500 | |
| | | | | |
| 80 | I'w ddyrannu | | 500,000 | 500,000 |
| | **Cyfanswm** | **7,706,140** | **7,304,570** | **10,157,920** |

# BLAENRAGLEN WAITH

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

| **Dyddiad trafodaeth yn y Cabinet** | **Eitemau i'w trafod** | **Aelod Cabinet** |
|---|---|---|
| **Chwarter 1 2019/20 –**<br>**1 Ebrill – 30 Mehefin** | | |
| **7 Mai** | Strategaeth Toiledau Cyhoeddus | Cyng. Catrin Wager |
| | Cynllun y Cyngor – Cais am adnoddau datblygu technoleg i gefnogi Ffordd Gwynedd | Cyng. Ioan Thomas |
| | Adolygiad Rheolaethol | Cyng. Dyfrig Siencyn |
| **21 Mai** | Cyfrifon Terfynol 2018/19 – Alldro Refeniw | Cyng. Ioan Thomas |
| | Rhaglen Gyfalaf 2018/19 – Adolygiad diwedd blwyddyn (31 Mawrth 2019) | Cyng. Ioan Thomas |
| | Trosolwg Arbedion: adroddiad cynnydd ar wireddu cynlluniau arbedion | Cyng. Ioan Thomas |
| **25 Mehefin** | Polisi Caffael Cynaliadwy | Cyng. Nia Jeffreys |
| **Chwarter 1 2019/20 –**<br>**1 Ebrill – 30 Mehefin**<br>**Dyddiad heb ei bennu** | | |
| | Cynllun Ffordd Gwynedd | Cyng. Nia Jeffreys |
| | Polisi Mynediad | Cyng. Nia Jeffreys |
| | Cynllun Llanbedr | Cyng. Gareth Griffith |
| **Chwarter 2 2019/20 –**<br>**1 Gorffennaf – 30 Medi** | | |

| Dyddiad trafodaeth yn y Cabinet | Eitemau i'w trafod | Aelod Cabinet |
|---|---|---|
| | | |
| **16 Gorffennaf** | Adroddiad Perfformiad dros Amgylchedd | Cyng. Gareth Griffith |
| | Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet dros Briffyrdd a Bwrdeistrefol ac Ymgynghoriaeth Gwynedd | Cyng. Catrin Wager |
| | Adroddiad Aelod Cabinet dros Oedolion, Iechyd a Llesiant | Cyng. Dafydd Meurig |
| | Adroddiad Aelod Cabinet dros Ddatblygu'r Economi | Cyng. Gareth Thomas |
| **23 Gorffennaf** | Adroddiad Perfformiad yr Aelod Cabinet dros Gefnogaeth Gorfforaethol | Cyng. Nia Jeffreys |
| | Adroddiad Perfformiad yr Aelod Cabinet dros Gyllid | Cyng. Ioan Thomas |
| | Adroddiad Perfformiad yr Aelod Cabinet dros Plant a Chefnogi Teuluoedd | Cyng. Dilwyn Morgan |
| | Adroddiad Perfformiad yr Aelod Cabinet dros Addysg | Cyng. Cemlyn Rees Williams |
| | Adroddiad Perfformiad yr Aelod Cabinet dros Dai | Cyng. Craig ab Iago |